

ECO'R WYDDFA

RHIF 89

CHWEFROR 1984

ORIEL ERYRI

D.A. Bassett yn son am y problemau.

Hoffwn ddiolch i Mr Ken Jones, drwy gyfrwng eich colofnau, am dynnu sylw yn ei sgwrs gydag Eurig Wyn ar y radio fore Gwener, y 6ed o Ionawr, at rai o anawsterau Amgueddfa Genedlaethol Cymru, ac yn fwy penodol, y problemau a wyneba Oriel Eryri yn Llanberis. Ni chafodd yr Amgueddfa Genedlaethol, hyd yma, y cyfle na'r arian i ddatblygu'r Oriel fel y'i bwriadwyd hi ac y mae beirniadaeth Mr Jones o'r ffaith nad yw eto yn agored yn swyddogol yn un eitha' teg.

Ond bu'r Oriel yn agored am dri mis yn yr haf am dair blynedd gan gyflwyno arddangosfeydd dros dro - mwy na deugain ohonynt, yn cynnwys y gyntaf o arddangosfeydd parhaol Oriel Eryri sy'n ymwneud â'r tywydd ac yn derbyn lluniau'n uniongyrchol o loerennau tywydd. Hyd y gwyddom, hon yw'r gyntaf o'i bath yn y byd mewn amgueddfa ac fe'i hadeiladwyd gan dechnegwyr lleol. Denwyd 30,000 i'r Oriel bob haf hyd yma. Gwell agor dros dro na pheidio agor o gwbl am gyfnod amhenodol nes cael yr arian angenrheidiol. Mae angen rhai cannoedd o filoedd o bunnau i adeiladu'r arddangosfeydd parhaol, a mwy fyth i gyflogi'r staff angenrheidiol. Nid yw'r arian yma ar gael eto.

Nid yn frysio y tyfodd y syniad i godi canolfan amgylchfyd yng Ngwynedd neu Eryri a bu'n corddi ym meddwl un neu ddau o naturiaethwyr am flynyddoedd cyn y daeth y freuddwyd yn bosibl gyda chynnig hael y Bwrdd Canolog Cynhyrchu Trydan. Ar y dechrau, yr amcanion oedd:

"(a) i helpu ymwelwyr drwy gynnig canolfan iddynt i gyfoethogi eu profiad a chael gwell dealltwriaeth o'r ffactorau amrywiol sy'n ffurfio'r amgylchfyd a'r rhai sy'n debygol o ddylanwadu ar ei ddatblygiad yn y dyfodol;

(b) i roi i'r trigolion lleol ffordd o uniaethu eu hunain â'r newidiadau yn Eryri ac ar yr un pryd i roi iddynt gyfleoedd ychwanegol i fwynhau oriau hamdden ac adloniant, yn arbennig pan fo tymor yr ymwelwyr ar ben;

(c) i helpu 'amgylchfydwyr' i gynllunio'r defnydd a datblygu'r ardal er lles ymwelwyr a'r bobl lleol." (Cyfieithiad o'r Saesneg gwreiddiol).

Y dasg nesaf oedd canfod corff i redeg y ganolfan. Cafodd amryw o sefydliadau lleol, sirol a chenedlaethol y cyfle ond, am amryfal resymau, nid oedd yn bosibl

iddynt ymgymryd â'r gwaith. Ond cafwyd ateb cadarnhaol gan yr Amgueddfa Genedlaethol. Gan fod llawer o sôn wedi bod dros y blynyddoedd am i'r Amgueddfa sefydlu llwyfan cadarnach i'w gweithgareddau yn y gogledd, gwelodd yr Amgueddfa gyfle i gryfhau ei phresenoldeb yma. Nid oedd yn bosibl, wrth reswm, derbyn y cynnig o redeg y ganolfan heb nodi'r amcanion yn ofalus ac, yn naturiol, nododd yr Amgueddfa ei thelerau. Yr oedd ambell ran o'r cynllun gwreiddiol a gynigiwyd yn gwbl groes i Siarter yr Amgueddfa Genedlaethol. Dyfynnaf o un o lythyrau'r cyn-Gyfarwyddwr fel enghraifft:

"Ynglŷn â'r cwestiwn a fuasai'r Amgueddfa yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb ariannol o gynnal canolfan chwaraeon - yr ateb, wrth gwrs, yw na. Ni allwn ychwaith

DIGWYDDIAD Y FLWYDDYN!

Mae ffug eisteddfod Eco'r Wyddfa ar y trothwy. Ydy'r pentrefi'n barod? Dyma'r cwestiwn pwysig. Gwyddom fod y pencampwyr - Penisarwaun eisoes yn hogi eu harfau - ac na fyddant yn ildio'r Tlws yn hawdd. Cofiwch felly - CHWEFROR 10 - neuadd Ysgol Brynrefail. Dylai fod yn noson fythgofiadwy!

CADW SIOP AM HANNER CANRIF



Dyma Idwal Thomas, sy dros ei bedwar ugain oed, a fu hyd yn ddiweddar yn cadw siop esgidiau yn Green Bank, Stryd Fawr, Llanberis. Bydd teulu Mr Thomas yn byw ar Stâd Preswylfa yn Fron Goch. Llongyfarchiadau'r ardal iddo am ei wasanaeth a'r dymuniadau gorau ar ei ymddeoliad o'r siop.

gytuno i ymgymryd â'r cyfrifoldeb ariannol o gynnal unrhyw fath o ganolfan gymunedol." (Cyfieithiad Parhad ar dudalen 11.

CYNHYRFU'R DYFROEDD

Mae Awdurdod Dŵr Cymru yn bwriadu ffurfio corff gweinyddol, ar y cyd â Chyngor Arfon i reoli'r gweithgareddau a'r defnydd cyffredinol a wneir o Lyn Padarn. Maent yn barod wedi llunio rhestr o argymhellion ac mae'r cynigion hyn, ar hyn o bryd, yn cael eu dwyn i sylw holl berchnogion y llyn. Ymddengys fod rhai o berchnogion presennol Padarn yn bryderus ynglŷn ag awgrymiadau'r Awdurdod Dŵr - gan y buasent, o'u gweithredu, yn golygu newid sylweddol yn y defnydd o'r llyn.

Yn dilyn cyfarfod o berchnogion Llyn Padarn yn swyddfa'r Awdurdod Dŵr ym Mhenrhosgarnedd ar Ionawr 12 gofynnodd yr Awdurdod (sef, perchennog y rhan helaethaf o'r llyn) i'r cynrychiolwyr eraill (Stad Glynllifon, Canolfan Swydd Caint a Chyngor Arfon) i gytuno â'r ffaith fod angen datblygu 'chwaraeon dŵr' ar y llyn mewn modd reoledig. Y ffordd fwyaf effeithiol o gyrraedd y nod, meddai'r Awdurdod, fyddai cael cytundeb rhwng yr wyth perchennog i ganiatáu i'r llyn i gael ei weinyddu fel uned. Yr Awdurdod Dŵr a Chyngor Arfon fyddai'n gyfrifol am y gweinyddu hwnnw - a hynny mewn modd a fyddai'n dderbyniol gan y lleill. Byddai'r naill yn gyfrifol am ddatblygu a rheoli gweithgareddau ar wyneb y dŵr a'r llall yn gyfrifol am y cyfleusterau ar y tir yn 'Y Glyn'.

Dyma'n fyr rai o'r pwyntiau eraill y disgwyliar Awdurdod Dŵr i'r perchnogion eraill gytuno iddynt.

- Dylai aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno hwylio, hwyl-fordio, neu ganwio ar y llyn brynu trwydded cyn gwneud hynny ac yna gadw at y rheolau.

- Caiff pob canw a chwch eu lansio o safle'r Glyn - a phob hwyl-ford o'r

maes parcio ar y lan ger Oriel Eryri.

- Bydd yr Awdurdod Dŵr yn gosod peiriannau 'Talu ac Arddangos' i roi trwyddedau diwrnod ar gyfer canwio, hwylio a hwyl-fordio. Lleolir y rhain yn safle'r Glyn.

- Bydd Cyngor Arfon yn paratoi, os yn bosibl, gwell cyfleusterau ar gyfer lansio canw a dingi yn safle'r Glyn.

- Dim canwio, hwylio na hwylfordio ym Mhen Llyn. Pysgota fydd unig weithgaredd y rhan hon (lle wedi ei farcio).

- Bydd yr Awdurdod Dŵr yn gofyn i Gyngor Sir Gwynedd i gau y lanfa fechan sydd wrth y maes parcio rhwng safle'r Glyn ac Oriel Eryri; a hefyd gofynnir i'r Cyngor Sir wahardd lansio unrhyw fath o gwch o Barc Gwledig Padarn.

Mae'r Awdurdod hefyd wedi paratoi rhestr faith o reolau ar gyfer defnyddwyr Llyn Padarn. Nid yw gofod yn caniatáu inni gyhoeddi ond ychydig ohonynt.

- Rhoddir caniatâd i gychod fod ar y llyn rhwng 9 o'r gloch y bore ac 8 o'r gloch y nos.

- Ni chaniateir nofio yn y llyn.

- Rhaid cario dwy fflêr-llaw (mwg oren) ym mhob canw a phob dingi.

- Neb o dan 16 i ddefnyddio canw heblaw dan oruchwyliaeth.

- Rhaid i bob person mewn dingi

Parhad ar dudalen 19.



Padarn mewn hedd - ond am ba hyd?

ECO'R WYDDFA

**RHIF 89
CHWEFROR**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru*

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION

CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd
Whiteside Tomas, Bron y Nant,
Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliot, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisarwaun (Llanberis 872438)

TREFNYDD NEWYDDION

YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (870515)

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis
(871561)

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant, (Waunfawr 321)
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug
(Caernarfon 77163)

Islwyn L. Jones, Y Garn, Bryn
Moelyn, Llanrug. (C'fon 5874)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon
3227)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa
(Llanberis 871223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glarafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W.O. Williams Tŷ Capel
Disgwylyfa (Llanberis 871259)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 870671)

LLANBERIS: Mrs Siân Thomas, Tŷ'r
Ysgol (Llanberis 870220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel
LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce,
Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Mrs Mary Davies, 9
Llys y Gwynt, (Llanberis 872329)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

TREFNYDD PLYGU: Edward Elias, 21
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 3719)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf
o'r wasg

MAWRTH 1

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS FAWRTH

CHWEFROR 21

os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

YR ANGEN AM GAE CHWARAE - MOR GRYF AG ERIOD

Annwyl Syr,

Ar ôl darllen am yr ymgais
ganmoladwy i gael cae chwarae i
ysgol Tan-y-coed, Penisarwaun,
yn rhifyn Rhagfyr o'r 'Eco', credaf
ei fod yn ddyletswydd arnaf
ddwyn sylw i'r oedi sydd wedi
bod yn yr ymgais i gael cae
chwarae i Ysgol Gwaun Gynfi,
Deiniolen.

Yn gynnar yn nhymor cyntaf
cyngor sir Gwynedd (1973-77)
adroddodd is-bwyllgor
Datblygu'r pwyllgor addysg bod
diffyr ym maint meysydd
chwarae argyfer rhify disgyblion
yn Ysgol Gynradd Llanrug ac
Ysgol Deiniolen. Argymhellodd
yr is-bwyllgor fod y cyngor yn
prynu tir i gael caeau chwarae i
fodloni'r diffyg hwn i'r ddwy
ysgol. Derbyniwyd yr
argymhelliad gan y Pwyllgor
Addysg ac yna cadarnhawyd hyn
gan y cyngor llawn fel polisi
swyddogol.

Yn ystod tymor cyntaf o
gyngor Gwynedd cymerwyd
gryn amser i ddewis swyddogion
ac i adeiladu peirianwaith
effeithiol i weithredu polisiâu.
Ond er hyn 'roeddwn yn
siomedig nad oedd penderfyniad
y cyngor wedi ei gyflawni yn y
tymor cyntaf.

Yn achos ysgol gynradd
Llanrug 'roedd y gwaith o brynu'r
tir ar gyfer cae chwarae yn
digwydd yn gynnar ym 1977 ac
mae bellach wedi'i gyflawni.

Yn achos ysgol Gwaun Gynfi,
bu trafodaeth rhwng
swyddogion cyngorau
Gwynedd ac Arfon.

I ddilyn cafwyd yr awgrymiad
fod y ddau gyngor yn
cydweithredu i brynu mwy o dir
nad oedd angen gan yr ysgol
gyda sir Gwynedd yn talu am
gyfran yr ysgol ac Arfon,
oherwydd nad oedd unrhyw
gyfleusterau o'r fath yn y pentref,
yn talu am y gweddill. Byddai'r
cae ar gyfer anghenion yr ysgol
a'r pentref.

Mae naw mlynedd ers y
trafodaethau hyn a dim wedi ei
wneud. Nid yw'r angen wedi
lleihau. Er enghraifft mae
gwahanol dimau pêl-droed dan
bymtheg oed Deiniolen wedi
chwarae eu gemau am
bymtheg mlynedd heb erioed
chwarae yn eu pentrefeu hunain.
Bellach mae tîm pêl-droed o'r
pentref yng nghynghrair Arfon
ac mae yntau yn gorfod
ymdrechu yn yr un modd.

Fe fu trafodaeth, fe
ddangoswyd bod angen, fe
gynigwyd ffordd i gyrraedd y
nod. Penderfynwyd hyn gan
gyngor etholedig. Drwy
anwybyddu neu anghofio'r
penderfyniad, mae'r cyngor sir
yn dangos difaterwch neu
aneffeithiolrwydd ac nid yw hyn
yn beth iach ar gyfer hyrwyddo
deomocratiaeth leol.

Yn gywir,

Gwyn Oliver Jones
Deiniolen

APÊL 1983 YSGOL GYMRAEG, LLUNDAIN

Annwyl Olygydd,

Gyda chymeradwyaeth
brwd Noddwyr amlwg o lawer
cylch o fywyd Cymreig, gofynnaf
am eich cefnogaeth i'r ymdrech
arbennig hon.

Y mae'r Ysgol yn cael ei
chynnal i raddau helaeth iawn,
yn uniongyrchol ac yn
anuniongyrchol, drwy
ymdrechion gwirfoddol rhieni y
plant sy'n ei mynychu. O brydi'w
gilydd dros y blynyddoedd,
derbyniwyd cymorth ariannol
oddi wrth garedigion yn
Llundain, ac yng Nghymru, ac
oddi wrth unigolion, sefydliadau
a chyrff corfforedig.

Fodd bynnag, gyda chostau
cynyddol cyson y mae'n amser
eto i frindiau'r Ysgol ddangos eu
cefnogaeth, tuag at y fenter hon,
mewn modd ymarferol, gyda
golwg ar y dyfodol.

Yng Nghymru, darpara'r
awdurdodau lleol addysg
Gymraeg i blant rhieni a'i
chwenycha. Nid oes y fath
gyfleustera yn Llundain. Y mae
bodolaeth yr Ysgol wedi bod yn
gaffaeliad i deuluoedd Cymraeg
mudol ac wedi diogelu parhad
addysg eu plant yn y Gymraeg yn
ogystal â'i bod yn werthfawr i
fywyd Cymraeg Llundain.

Y mae'r Ysgol wedi profi ei
hun ers dros ugain mlynedd
bellach. Yn addysgiadol, stori
llwyddiant ydyw, a theyrnged i'r
addysg Gymraeg orau.

Gofynnwn i chwi
gynorthwyo i gadw'r Ysgol ar
agor drwy ddanfon rhodd, neu
arwyddo cyfamad.

Dyma achos sy'n agos at
bawb sy'n caru'r iaith, a haedda
ein cefnogaeth oherwydd
llwyddiant gorffennol yr Ysgol.

Yn ddiffuant,

John Morris (Cadeirydd yr Apêl)

Tŷ'r Cyffredin

Llundain SW1

COLEG HARLECH

Annwyl Olygydd,

Tybed a fydddech mor garedig â
gadael i mi ddwyn sylw eich
darllenwyr yr hysbyseb sydd gan
Goleg Harlech yn y rhifyn hwn?

Bâm droeon yn meddwl bod
eisiau annog Cymry Cymraeg i
wneud llawn ddefnydd o gyrsgiau'r
Coleg.

Os oes rhai o'ch darllenwyr yn
eiddgar i gael gwybodaeth bellach,
yna, mi fyddwn i, fel aelod o'r staff
presennol, a chyn-fyfyriwr y Coleg,
yn fwy na pharod i wneud unrhyw
beth o fewn fy ngallu i fod o
gymorth.

Martin Eckley

(Llyfrgellydd)

Trem Eifion,

Ffordd Uchaf,

Harlech

AR WERTH

POPTY 'Aga' - cynhesydd dŵr.
Wedi ei droi o dân glo i oel. Hawdd
iawn ei ail-addasu. £400 n.g.a.
Cysylltwch â Mrs Chamberlain
(0248) 362254.

CYSGODFAN DINORWIG

Annwyl Olygydd,

Tra ein bod yn cytuno'n llwyr
â'r sylwadau a wnaed yn nodiadau
Dinorwig o'r rhifyn diwethaf o'r
'Eco' ynglŷn â gwir golled y
cysgodfan ar ôl ei ddifrodi gan y
tywydd garw, prysurwn i ddweud
bod cynlluniau ar droed i osod
cysgodfan arall yn ei le. Yn anffodus
ni allwn wneud mwy nag a wnawn ar
hyn o bryd i brysuro'r trefniadau ar
gyfer gosod cysgodfan arall
oherwydd mae Cyngor Cymuned
Llanddeiniolen yn llawn
ymwybodol o'r angen dirfawr i osod
cysgodfan arall mor fuan ag sydd
bosibl. Gobeithiwn fel holl drigolion
Dinorwig y bydd cysgodfan arall ar
ei draed yn fuan a hwnnw yn un a
fydd nid yn unig yn cynnig gwir
gysgod rhag y tywydd garw ond
hefyd yn gallu sefyll i fyny i dywydd
anffafriol o'r fath.

Cadwn chwi mewn cysylltiad
â'r datblygiadau.

Yn gywir iawn,

Cynghorwyr Glyn Tomos

ac R.E. Williams

1 Bro Elidir

Dinorwig

Caernarfon

ENILLWYR RAFFL CYMDEITHAS TAI GWYNEDD

Gwobr 1af £50: Gareth Hughes,
Caerffili. Llun Olew: Dafydd
Jennett, Trefynwy. Mat brethyn
Ceredig: John Lloyd, Caerdydd.
Record Sain: Nia Powell,
Beddgelert. Oriawr Pentan: O.
Pritchard, Penysarn. Llyfr Gwasg
Gwynedd: Arthur Morris,
Cwmpengraig. Llyfr Cyhoeddiadau
Mei: John Wyn, Bangor. Llyfr
Gwasg Dwyfor: Carolyn Iorwerth,
Caernarfon. 'Gwerin Eiriau Môn':
Selwyn Jones, Penisarwaun. Cyw
lâr: Deri Thomas, Bangor.

Diolch i bawb a gefnogodd y raffl,
ac i bawb a gyfrannodd y gwobrau.
Bydd yr elw'n mynd tuag at
ddarparu mwy o gartrefi ar rent i
bobl yng Ngwynedd.

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu
rhoddion hael:

£3: Mr a Mrs R. Williams,
Tan-y-fron, Dinorwig; Mrs Katie
Griffiths, Arwelfa, Dinorwig; Mrs
M. Griffiths, Tŷ Ddewi, Dyfed a'i
chwaer Mrs C.J. Jones, Hafod Olau,
Deiniolen.

£2: Mrs Myfanwy Jones, 37 Bro
Rhyddallt, Llanrug; Di-enw,
Deiniolen; Er cof am y ddiweddar
Mrs Eirwen Roberts, Penisarwaun
(trwy law Helen a Dafydd Owen,
merch a mab yng nghyfraith); Mrs
Ann Lloyd Griffiths Llanrug.

£1.50: Mrs Hilda Owen,
Garthowen, Plwmp, Llandysul.

£1: Mr a Mrs Moss, Wylfa,
Peninleu, Deiniolen; Mr a Mrs K.
Jones, 7 Green Terrace, Deiniolen;
Teulu'r ddiweddar Mrs Williams,
Pentre Helen, Deiniolen; Mr a Mrs
H.J. Jones, 9 Maes Gwylfa,
Deiniolen; Gillian Wyn Williams,
Bigil, 4 Coed y Glyn, Llanberis;
Di-enw, Deiniolen.

YN EISIAU

CADAIR MOTHERCARE i'w
gosod ar sêd gefn car. Ffôn: Y
Felineli - 670429.

NANT PERIS

Cafodd y plant amser da o gwmpas y Nadolig. Cafwyd noson o chwaraeon yn hostel Pen y Pass dan ofal Ken Jones, Blaenddôl, Llanberis a Tom Gwyn Pritchard. Yr wythnos ddilynol daeth Siôn Corn i Festri Rehoboth a chafodd bob un anrheg. Diolch i'r rhai fu'n paratoi ar gyfer yr achlysur.

PLYGAIN: Cynhaliwyd gwasanaeth y Plygain yn Eglwys Sant Peris yn ôl yr arfer a chafwyd cynulliad da iawn.

Roedd y gwasanaeth dan ofal y Parch Ronald Keating o'r Gadeirlan yn cael ei gynorthwyo gan Mr Derek Jones, Llanberis.

Hefyd yn Rehoboth nos Sul cyn y Nadolig bu'r plant yn cynnal y gwasanaeth arferol a chanu carolau dan ofal Mrs J.M. Williams, Pennant. Mae Mrs Williams yn weithgar iawn gyda'r plant a graen ar bopeth yn ddieithriad.

CYDYMDEIMLAD: Estynnir ein cydymdeimlad â Mr a Mrs O.W. Humphreys, Gwastadnant yn eu profedigaeth o golli brawd yng nghyfraith yn Awstralia. Bu Mrs Jones a'r diweddar Hugh Alun Jones yn aros am wyliau yn Gwastadnant am chwe mis yn ddiweddar a chafwyd llawer o orig ddiffr yn eu cwmni. Edrychai ymlaen yn arw bob mis i dderbyn 'Eco'r Wyddfa'.

GWELLHAD: Rydym yn falch o weld Karen, Glyn Peris wedi gwella ar ôl triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Môn ac Arfon. Bu Karen yn cael trafferth hefo'r 'tonsils' ers peth amser.

BEDYDD: Nos Sul, Rhagfyr 22 yng nghapel Rehoboth bedyddiwyd Aled Wyn, mab Mr a Mrs Dafydd Jones, Llanllyfni ac ŵyr Mr a Mrs Tom Gwyn Pritchard, Bronallt. Gwasanaethwyd gan y Parch Trefor Lewis. Yr oedd Mr

Lewis yn gwasanaethu am y tro cynta' fel gweinidog newydd yr ofalaeth ac estynnwn groeso cynnes iddo a Mrs Lewis i'n plith gan obeithio y byddant yn hapus ac y cânt bob cefnogaeth gan yr holl aelodau.

Rhagfyr 24 yn dawel yn Ysbyty Dewi Sant wedi cystudd blin bu farw Mr J.W. Elis (Perisfab), 8 Glanrafon. Bu gwasanaeth yr angladd yn Rehoboth Rhagfyr 29 a rhoddwyd i orffwys ym mynwent Nant Peris. Gwasanaethwyd gan y Parch Trefor Lewis (gweinidog), y Parch John Owen, Rhuthun (cyn-weinidog), y Parch W.R. Williams, Cysegr a'r Parch William Davies, Chwillog. Wrth yr organ oedd Mrs Jennie W. Jones, Dwyfor. Gedy weddw, dau fab, Geraint ac Alwyn, dwy ferch yng nghyfraith Anne a Nan, tair wyres, Angharad, Manon a Gwenan, ŵyr Dyfan Pys, a chwaer, Mrs J.M. Jones, Llanberis.

DIOLCH: Dymuna Mrs Jean Elis, Geraint ac Alwyn a'r teulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ar yr achlysur trist o golli gŵr, tad, a thaid annwyl. Diolch arbennig i'r meddyg teulu am ei ofal di-flino am gyfnod maith, hefyd i Mr Gartside (Fferylllydd) am ei ffyddlondeb, ac i chwiorydd Rehoboth am y paratodau ddydd yr angladd.

Diolch yn fawr i bawb.

LLONGYFARCHIADAU: i Siân Ellen, Llys Awel ar fod yn llwyddiannus yn arholiad piano Gradd 5. Hefyd i Sara, merch fach Mr a Mrs Selwyn Davies, Tan-y-bryn am ennill yr ail wobwr mewn cystadleuaeth dan nawdd y Banc Midland i arlunio cerdyn Nadolig. Roedd nifer fawr iawn yn cystadlu.

PERISFAB

Teyrnged gan y Parch John Owen

Yn y chwarel, Johnnie'r Ap, yn y Nant, John Wiliam Elis, ond i bawb y tu allan i'r ddau gylch yna - Perisfab. Wrth ffarwelio ag ef, ffarweliwn ag aelod arall o'r genhedlaeth honno sydd yn mynd yn llai ac yn llai o flwyddyn i flwyddyn.


Cynnyrch cymdeithas chwaredyddol y fro hon ydoedd. Y gymdeithas chwaredyddol-capel-ganolog a'i gwnaeth yr hyn oedd o. Y chwarel roes fywoliaeth iddo ef a'i deulu, a'r un chwarael a andwyodd ei iechyd gan ei orfodi i fynd i weithio ar y ffordd.

Os bu'r graig a'r ffordd yn fywoliaeth iddo, bu'r graig a'r ffordd yn sylfaen i'w fywyd hefyd, sef y graig a'r ffordd a gysylltir â'r ffydd Gristnogol a chymdeithas y capel. Bu'n aelod ffyddlon, yn flaenor cydwbodol, ac yn athro Ysgol Sul difyr. Roedd yn gyfaill i bregethwyr, a gwerthfawrogai bregethau. Bu'n driw i'w weinidog trwy gyngor a thrwy garedigrwydd. Does ryfedd i gyfeillion y Nant ymddiried y Llyfr Bach iddo ac i'r Henaduriaeth ei roi yn ei chadair.

Ni chyfyngodd ei hun i'w gapel, oherwydd carai hefyd ei genedl a'i wlad. Cefnogai bopeth a hyrwyddai urddas y genedl a'r 'pethe' a gysylltir â'r genedl, megis ei hiaith, ei diwylliant a'i thir. Carai'r Nant 'cw, chwedl ynta', a'i phobl. Gwnaeth hynny fel capelwr, cynghorwyr a chymydog. Trwy garu'r Nant, mi dybiaf, y daeth i garu Cymru. Ymestyniad o'r Nant oedd Cymru iddo ef.

Uwchlaw popeth carodd ei deulu, ac yn eu mysg hwy, ei briod, ei blant, yr ŵyr a'r wyresau y câ ef hafan ac ysbrydoliaeth. Cafodd gariad a chysur yno. Rhoddodd yntau gariad a chysur iddynt hwy. Carodd y cylchoedd hyn â'i holl galon.

A dyna'r union air y byddai i yn cysylltu Perisfab ag ef, 'calon'. Oherwydd yr oedd yn ddyn dwys ac



yn ddyn hwyliog. Gallai deimlo'n ddwfn ynglŷn â'r pethau a ystyriai ef yn bwysig, a gallai gyrraedd yr uchelfannau fel yr oedd ei hiwmor a'i ffraethineb yn profi hynny. Nid rhyfedd felly fod ganddo ddaliadau cryf yn arbennig ynglŷn â Chymru ac ynglŷn â rhyfel. Safodd ef pan oedd y daliadau hynny yn anffasiynol ac yn amhoblogaidd. Ond yr oedd hefyd yn oddefgar o bobl a ddaliai syniadau gwahanol iddo ef ei hun. Yr oedd hiwmor yn elfen fawr yn y goddefgarwch hwnnw. Perisfab fyddai'r olaf i warafun gwên ar ddydd ei angladd. Byddai'n diffrïo ei allu i ganu, ond byddai, yn ei eiriau ei hun, yn meddwl ei hun yn dipyn o ganwr os y cawsai Evan Wilson wrth ei ochr yng nghanol y baswyr mewn cymafia neu'i gilydd. Diolch i Dduw amdano.

J.O.

CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG CELL PEN LLYN

Ie, o'r diwedd mae Cell wedi dechrau yn ein hardal ni. Dyma'ch siawns i ddangos eich cefnogaeth i'r Gymraeg.

Sut?

Ffoniwch 870575, a gofyn i Selwyn am fanylion pellach neu beth am ddwad i'r cyfarfod nesa'? Bydd hwnnw'n cael ei gynnal ar Chwefror 9 am 7.30 yn Tan y Weirglodd, Clwt-y-bont. Croeso i bawb.

FFUG EISTEDDFOD YR ECO NOS WENER CHWEFROR 10 NEUADD YSGOL BRYNREFAIL LLANRUG
BEIRNIAD: DYFAN ROBERTS
ARWEINYDD: DERFEL GRUFFYDD

CYSTADLEUAETH LLWYFANNU DRAMA UN ACT
Eisteddfod Môn
Mai 5, 6, 7 - 1984

Dylai enwau'r cwmnïau sy'n bwriadu cystadlu fod yn llaw Miss Enid Mummery, Goetan, Niwbwrch, erbyn Chwefror 29.

CWMNI YSWIRIANT Y PRUDENTIAL CYF.

Y Cwmni Yswiriant sydd wedi bod yn rhoi gwasanaeth i bobol y fro ers tros 100 mlynedd

Dyma restr o'r goruchwylwyr yn y gwahanol bentrefi o'r fro:

LLANRUG, WAUNFAWR, CEUNANT, TAN-Y-COED a BETWS GARMON

GARETH JONES
Glyn Ceris, Waunfawr.
(Ffôn Waunfawr 392)

LLANBERIS, NANT PERIS, CWM-Y-GLO, BRYNREFAIL a DINORWIG

WILLIAM ROBERTS,
Hyfrydle Road, Capel Coch, Llanberis (870471)

DEINIOLLEN, PENISARWAUN, SEION, LLANDDEINIOLLEN, TREGARTH, M. LLANDEGAI

JOHN R. JONES
Clarke Terrace, Ffordd Llanberis, Caernarfon (4734)

RHOWCH GANIAD I'R 'DYN O'R PRW' YNGLŷN Â'CH HOLL ANGHENION YSWIRIANT

GWASANAETH AR EICH AELWYD **Prudential**



STRYD FAWR, DEINIOLLEN Ffôn Llanberis **871210**

Crefftau llechi: arlunwaith, clociau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill:** crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol. **Arddangosfa o hen luniau chwarel.**

Ar agor 9.30 am - 9.30 pm

Galwch i weld Gwil wrth ei waith ym Mharc Padarn, Llanberis

CHWILOTA

(Bwriad y gyfres hon yw 'chwilota' i hen hanesion, chwedlau a digwyddiadau yn ardal bro'r 'Eco'. Esgryn sychion yn unig fydd y mwyafrif ohonynt, ond gobeithir cael mwy o gnawd ar ambell un gyda help y darllenwyr. Os oes gan unrhyw un sylw neu wybodaeth ar unrhyw destun yn y gyfres, byddwn yn falch o glywed gennych. Anfonwch eich cyfraniadau i'r Golygydd Erthyglau.)

GEIRIAU AR GOLL

Daeth cais i mi ar y ffôn y dydd o'r blaen ynglŷn â phenillion o hen gân a glywodd y galwr. Ychydig linellau'n unig a gofiai, ac nid oedd yn siŵr a oedd yn cofio'r geiriau'n gywir 'chwaith. Tybiai fod yr awdur yn un o fro'r Eco, ac yr oedd yn amau mai Elidirfab ydoedd. Tybed a all unrhyw un o ddarllenwyr yr 'Eco' ein cynorthwyo?

Dyma'r llinellau a gefais ganddo, ond cofiwch, nid oes sicrwydd a ydyw pob gair na phob llinell yn gywir.

"Ar lechwedd hen aswy (?) eisteddwn

Un nawnddydd yng nghanol yr haf;

Mi welais

'Rwy'n cofio Tŷ Du lle bu Dewi A minnau'n

.....mwynhau llawer aur

.....mab amddifad

... Eglwys Llamberis lle

gorwedd fy mam."

Nid oes sicrwydd ai un pennill, ynteu rhannau o wahanol benillion sydd yma. Anfonwch y penillion i mi os gwelwch yn dda neu ffoniwch Caernarfon 3515.

Chwi gofiwch rai misoedd yn ôl i mi ddisgrifio bedd anghyffredin ym mynwent Eglwys Llanrug. Yr oedd gwahanol sumbolau wedi eu cerfio arni. Daeth ychwaneg o wybodaeth i law yn ddiweddar gan berson sy'n dymuno cadw ei enw'n gyfrinachol. Dywedodd ef mai rhai o arwyddion cudd y Seir Rhyddion yw'r sumbolau sydd wedi eu cerfio ar y bedd, ac os felly, fod y person a gladdwyd yma wedi bod yn flaenllaw iawn gyda'r gymdeithas gudd honno yn yr ardal. Roedd yn awgrymu mai'r person a gladdwyd yma oedd un o aelodau cyntaf y Seiri Rhyddion yn yr ardal hon. Tybed a all unrhyw un gadarnhau'r amheuan hyn? Neu a oes gan rywun neu rywrai eraill wybodaeth neu dystiolaeth wahanol i hyn?

CYMERIADAU HYNOD

Y drydedd bennod yn hanes bywyd Siân Dafydd, Y Clegir. Y tro hwn cawn hanes sefydlu cartref yn Stabal Goch ac yna ym Mryn Clyd.

EI CHARTREF CYNTAF

Stabal Goch oedd cartref cyntaf Siân Dafydd. Nid fel preswylfa i bobl yr adeiladwyd Stabal Goch, ond fel ystabl i geffylau, ac am hynny roedd angen traul a llafur i drosi yr ystabl yn annedd-dŷ. Gwnaed hyn gan Dafydd John Owen a'i briod Siân Dafydd. Roedd Stabal Goch a'r tiroedd o'i amgylch ym meddiant drwy brydles i Owen Jones, Ddôl-tŷ-du, brawd hynaf Dafydd John. Calan Mai 1807 ymfudodd Dafydd a'i briod o'r Ddôl-tŷ-du i Stabal Goch ac fe ardrethwyd y tŷ ac ychydig o dir i gadw buwch at eu cynhalieth am y swm o £2 y flwyddyn gan ei frawd, Owen Jones. Buont yn byw yno am chwe blynedd a ganwyd iddynt dri o blant, John, Dafydd ac Elizabeth. Er bod y tŷ yn gyfleus i fagu plant, eto nid oeddynt yn fodlon ar y lle.

Ar ddechrau 1813 roedd y Parch Peter Bayley Williams, Rheithor Llamrig wedi llwyddo i gael ffordd newydd o Lanrug i fyny i'r Clegir ac am Lanberis lle roedd cyn hyn ond llwybr troed. Fe roddai'r ffordd hon gyfleusterau i drafnidiaeth a cherbydau olwyniog o Gaernarfon i Lanberis, a hyn a rag-arwyddai fywiogrwydd a masnach newydd i'r plwyf a'r amgylchoedd a mantais i'r dosbarth gweithiol. Wedi peth ystyriaeth o'r drafferth a'r draul o

adeiladu tŷ penderfynodd Siân Dafydd a'i phriod godi tŷ yn Y Clegir – tir comin. Nid aethant i ymgynghori ag unrhyw swyddog llywodraethol na chyfreithiwr am yr hawl a'r diogelwch wrth adeiladu ar dir comin. Ond un bore bach ym mis Mawrth 1813 cymerodd Dafydd Owen ei arfau ar ei ysgwyddau ac a'u dygodd i'r mynydd-dir ac yn ebrwydd dechreuodd ar y gorchwyl o dorri sylfaen ei dŷ. A rhyngddo ef a'i dad yng nghyfraith adeiladwyd y

tyddyn bach – Bryn Clyd a chwblhawyd y gwaith mewn 4 mis. Bychan iawn a di-addurn ydoedd, eto ymfodlonent arno, a thrigasant yno tra buont fyw. Aethant i'r tŷ newydd – Bryn Clyd ar yr ail o Orffennaf 1813. Caeasant gyfran lled dda a helaeth o dir o amgylch eu tŷ, i'w lafurio a dweud yn eu diniweidrwydd mai eiddo rhydd iddynt hwy a'u teuluoedd ar eu holau a fyddai Bryn Clyd a'r tir a lafuriasant arno.

Fel hynny ymgysurasant am y pymtheng mlynedd cyntaf y buont yno gan ddioddef llawer ymhob rhyw fodd, megis afiechyd trwm parhaol, geni plant a'u claddu, tlodi a drudaniaeth na welwyd ei debyg yn eu hoes. Oblegid, yn y cyfnod yma y cofnodir blynyddoedd caled, drudaniaeth a newyn drwy Gymru, a thymhorau gwlybion gan orfodi'r holl fynyddwyr i fyw mewn tai oerion ar ychydig ymborth.

Teimlodd teulu Bryn Clyd gymaint oddi wrth y trychineb hwnnw, fel bu raid iddynt werthu eu holl dda i brynu bara i'w cadw eu hunain yn fyw. A phan oedd gwawr a gobaith ar dorri ym 1828 daeth rhyw gadno o foneddwr o'r enw Hugh Rowlands a gorchymyn iddynt dalu rhent o un bunt y flwyddyn iddo ef am yr hyn a feiddiodd y teulu wneud ar ei etifeddiaeth – sef codi tŷ ar y Comins. Wedi llawer o bryder, ymholi ac ymddadlau cadarnhawyd eu holl dreialon a'u llafur ym Mryn Clyd yn eiddo cyfreithlon i Hugh Rowlands ar y Sed ddydd o Ragfyr 1828, trwy iddynt dalu iddo ddeg swllt, hanner ardreth blwyddyn am Bryn Clyd, ac fel yr oedd llafur a gwelliant yn cynyddu ym Mryn Clyd, cynyddu hefyd a wnaï'r ardreth gan ddal y teulu mewn tlodi parhaol.

Bu ganddynt bymtheg o blant – naw o feibion a chwech o ferched. Bu tri o'r plant farw yn fabanod. Ganwyd yr oll o'r plant rhwng 1808 a 1834

PROFEDIGAETHAU

Roedd Dafydd Owen yn gweithio yn y Chwarel wrth ymyl Bryn Clyd – Chwarel Cook. Dydd Calan Gaeaf ddechrau mis Tachwedd 1825 cafodd ddamwain erchyll trwy i dwll danio arno gan ei archolli yn drwm ym mhob rhan o'r corff, yn neilltuol felly, ei fraich chwith, a chollodd ei lygad chwith hefyd a bu'n gorwedd am amser maith. Bu Siân Dafydd yn wrol iawn – bu'n gofalu am ei theulu a'i gŵr claf heb air o rwgnach – mawr oedd ei gofal – a mawr ei

phryder i ofalu am ei phlant.

Ei chysur a'i gobaith yn y blynyddoedd helbulus hyn oedd ei mab hynaf, John. Roedd yn ŵr ifanc cryf a bywiog ac yn dra gweithgar. Gofalai am amgylchiadau ei rieni a'r holl deulu. Ond darfu hyn yn dra sydyn. Lladdwyd John yn Chwarel Isaf Glyn Rhonwy trwy i'r graig agor o dan ei draed ac iddo gwmpo i'r dyfnder. Dydd Gwener y Groglith ydoedd, Ebrill 1836 – ac yntau ond 28 oed. Effeithiodd hyn ar ieuchyd Siân Dafydd a gwnaeth argraff ddofn arni am ei hoes.

Yna, wyth mlynedd ar ôl colli John bu farw ei phriod ar ôl salwch am ugain mlynedd, bu'n dioddef o ddolur y garreg (llwch). Roedd yn 62 oed. Gadawyd Siân Dafydd yn llawn dyled a gofalon mawr – ond daliodd ei ffydd a'i gobaith y deuai bywyd yn well iddi.

Ymhen mis i'r diwrnod marw ei dad bu farw Dafydd ei mab yng Nghwm-y-glo yn 34 oed gan adael gweddw a phump o blant bach. Yn fuan ar ei ôl bu farw ei wraig gan adael pump o blant bach yn amddifad. Cyn gynted ag y gallai gerdded i Gwm-y-glo, aeth Siân Dafydd i gyrchu y pum plentyn i'w magu ym Mryn Clyd – a hyn a roddodd lawer o dristwch a helbul iddi.

Rhwng 1849 a 1852 gadawodd pedwar o blant Siân Dafydd i barthau pellenig y byd. Aeth Janet, Abel a Foulk i'r America, a Gruffudd i Awstralia. Ym 1858 bu farw ei mab Owen – yng Nghaernarfon yn 36 oed a phum mlynedd ar ôl hynny ei mab Owen yn 51 oed, yntau wedi cartrefu yng Nghaernarfon.

Parhad ar dudalen 10

'O ENAU PLANT BYCHAIN'

Dwi ddim am ddweud be dwi isio ar fy mhenblwydd. Dwi ddim yn meddwl ga' i un, beth bynnag – does gynnon ni ddim stabl.

Duw, esgusoda fi'n gweddio yn y nos – ond dwi ddim ofn yn ystod y dydd.

Fedrith pryfaid genwair ddim fflio, felly pam mae'r adar yn disgwyl yn y coed.

Mae gan dad ffyr o dan ei gesail. Dwi'n meddwl fod ei stwffin o'n dwad allan.

Pan mae dad wedi bod allan efo'i ffrindiau dwi'n gallu ogleuo ei eiria' fo.

BETH AMDANI!

A oes gennych ddiddordeb mewn cynnig gofal i ddau o blant – brawd (14 oed) a chwaer (12 oed) ar benwythnosau, gwyliau ysgol ac ati. Maent yn blant eitha hawdd i'w plesio ac yn awyddus i ymuno â gweithgareddau o bob math a fyddai gan deulu i gynnig iddynt. Felly beth amdani? Ysgrifennwch atom heddiw a chawn weld sut aiff pethau.

Am fwy o fanylion cysylltwch â Mr Glyn Thomas, Gweithiwr Cymdeithasol, Rhanbarth Arfon, Gwasanaethau Cymdeithasol, Yr Anecs, Plas y Coed, Porth Penrhyn, Bangor – 351931.



BECWS DEINIOLLEN

(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Eirlys Pierce, Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

MERCHED Y WAWR: Nos Fawrth, lonawr 10 cafwyd noson hapus a chartrefol iawn yng nghwmni Cangen Rhiwlas. Yn rhan gyntaf y cyfarfod cafwyd eitemau gan rai o aelodau Cangen Llanrug - deuawd: Mrs Mair Jones, Ogwen a Mrs J.C. Williams, Bodfair; dawns werin: Mrs Bethanne Williams, unawd: Mrs Menna Williams ac eitem gan y Côr. Cyfeiliwyd gan Mrs Nancy Lovatt a Mrs Mair Huws.

Yna cafwyd cyfraniad gan Gangen Rhiwlas. Bu hanner y gynulleidfa yn herio'r hanner arall mewn Cwis Cerddorol wedi ei drefnu gan Miss Iona Jones, Llywydd Cangen Rhiwlad. 'Rhowch inni Gliw' oedd cystadleuaeth arall wedi ei threfnu gan Miss Gwen Aaron, a mawr fu'r hwyl yn meimio a dyfalu.

Yr aelodau o Lanrug a gymerodd ran oedd: Mrs Heulwen Evans, Miss Ann Humphreys, Mrs Nan Humphreys, Mrs Wenna Elias a Mrs Ann Llwyd.

Cafwyd lluniaeth blasus wedi ei drefnu gan rai o aelodau'r pwyllgor. Mrs Megan Williams, Tan-y-coed a enillodd y raffl. Diolchodd Miss Megan Humphreys ar ran Cangen Llanrug a Miss Ann Jones ar ran Cangen Rhiwlas.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth ferched Greenham Common yn datgan eu diolchgarwch am y rhodd o £24.50 a anfonwyd iddynt yn ddiweddar.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Chwefror 14 a'r gŵr gwadd fydd Dr Huw Roberts.

PARTI NADOLIG PLANT CAPEL MAWR: Gwnaed y trefniadau gan arolygwr yr Ysgol Sul, Mrs Meirwen Lloyd, Afallon, yn cael ei chynorthwyo gan yr athrawon.

Balch oeddem o gael Mr Stanley Roberts, B.Sc. o Brunei (Eryri gynt) gyda ni, gan ei fod yn cofio'n anrhydeddus am y plant bob blwyddyn.

Dymuna'r arolygwr ddiolch am y rhoddion a'r cymorth gyda'r parti. Dangoswyd ffilm gan Mr Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon.

GALW GWEINIDOG: Ddydd Sul, lonawr 15 pleidleisiodd eglwys Llanrug, Pontrhythallt, Tan-y-coed, Ceunant a Brynrefail yn unfrydol i alw'r Parch John G. Morris yma i'w bugeilio. Estynnwn groeso cynnes iddo ef a'r teulu i'n plith a dymunwn fendith ar ei weinidogaeth.

CLWB BLODAU'R GRUG: Dydd Iau, Rhagfyr 8 cynhaliwyd gwasanaeth carolau yng nghapel Hermon. Cymerwyd y rhan arweiniol gan y Parch Eryl Blainey a chymerwyd

rhan gan y Parch W.O. Roberts, Mr John Wyn Owen, Mr Cledwyn Williams, Mrs Inigo Jones, Mrs Nesta Pritchard, Mrs Amy Smith, Mrs Jones Evans a Mrs Olwen Edwards. Trefnwyd y gwasanaeth gan Mr Orwig Roberts, Mr John G. Jones a Mr Cledwyn Williams. Arweinydd y gân oedd Mr Orwig Roberts a chyfeiliwyd gan Mr John G. Jones. Diolchwyd gan Mr Emrys Owen a Mr John Williams. Rhoddwyd y te gan aelodau'r pwyllgor.

Nos Wener, lonawr 13 treuliwyd noson ddifur yng ngwesty'r Foelas pryd y cynhaliwyd y swper blynyddol.

Oherwydd amgylchiadau arbennig ni fydd Cwmni Drama Llanberis yn perfformio yn Llanrug yn ystod mis Chwefror; y dyddiad newydd yw Mawrth 15.

MARW: Yn ystod mis Rhagfyr bu farw Mr W. Goronwy Evans, Gwynllys, Mr Hugh William Owen, 11 Stâd Minffordd a Miss Caroline Evans, 7 Llain Gro. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd yn eu profedigaeth.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL: Nos Fawrth, lonawr 17 cafwyd sgwrs ddiddorol iawn gan Mr John Roberts Williams. Llywyddwyd gan Mrs Mary Lloyd Williams, a thalwyd diolch i Mr Williams gan y Parch Eryl Blainey a Mr Glynne Owen. Anfonwyd cofion a dymuniadau da am wellhad i Mr T.W. Thomas, Berwyn.

CROESO: Camu dros y Bont o Blwy Llanddeiniolen i Blwy Llanrug fu hanes Mrs Megan Williams, Tan y Gaer, a Mrs Tegwen Owen, Waen Howell. Y naill i ymgartrefu yn Bron Eryri, a'r llall i Bod Elwy. Croeso cynnes iddynt i'r ardal.

CYDYMDEIMLAD: Cydymdeimlir â Mrs Megan M. Williams, Llys Meirion yn ei phrofedigaeth o golli brawd a chwaer mewn ychydig wythnosau i'w gilydd, sef Mr John Henry Evans, a Mrs Janet Williams.

Hefyd i Mrs A.M. Hughes, Bwthyn, colli chwaer, a Mrs Megan Williams, Bron Eryri colli brawd yng nghyfraith.

DIOLCH: Dymuna Mr a Mrs Ian ac Anwen Lawlor, 5 Bryn Ewin, Abergele ddiolch yn fawr iawn i'r oll am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniwyd ganddynt ar enedigaeth eu mab, Hefin Peter, lonawr 8.

Dymuna Owen Rees a Mair Parry ddiolch i bawb a'u cefnogodd yn ystod eu cyfnod yn Y STORFA LLANRUG

a dymunant bob llwyddiant i John Wyn a Roberts Griffiths, y perchnogion newydd.

"MOI BUTCHER"

Wrth weld llun cigydd o Lanrug yn y rhifyn diwethaf, a'r eidion braf oedd yn hongian wrth ei ochr, daeth llu o atgofion plentyndod i mi, ac mae'n siŵr i lawer eraill. Atgofion o gigydd arall yr oeddym ni fel plant yn ffrind garw iddo. Cigydd o Lanberis ydoedd - Morys Lewis oedd ei enw, ond adwaenai pawb ef fel "Moi Butchar".

Roedd pedwar cigydd yn y pentref y blynyddoedd hynny, ond Morys Lewis oedd y ffeffryn gennym ni'r plant. Roedd yn gymeriad ar ben ei hun, yn ŵr cryf a gŵen gyson i bawb bob amser. Byddai'n gwylltio yn aml iawn, ond anghofio'r cyfan ymhen eiliad, ac ni ŵyr neb ei garedigrwydd i deuluoedd mawr a'r pen teulu wedi ei golli, neu wedi colli ei iechyd yn yr 'hen chwarael yna' fel y cyfeiriwyd ati. Adawodd Morys Lewis neb i fod heb adnoddau pryd o fwyd i'r teulu, talu neu beidio. Fel y dywedais roedd ganddo galon fawr.

Mewn siôl y byddai pawb yn magu eu plentyn y dyddiau hynny. Nid oedd oes y pram wedi cyrraedd. Cofiaf yn dda pan fyddai tair neu bedair o'r mamau yn disgwyl wrth gownter y siop a'r plentyn yn dynn yn y siôl, a hwyrach dau neu dri o'r rhai hyn yn swatio wrth eu sgertiau yn disgwyl - ia disgwyl sleisen o'r 'corn beef' neu 'ham' neu 'fron'. Dyna fyddai Moi Butchar yn wneud - yn lle'r 'lolipop' a welch gan blant heddiw, sleisen dew, braf o gig i'n cadw yn ddistaw tra byddai'r rhieni yn gwneud eu neges - a dyma un rheswm pam y byddem yn hoff o Morys Lewis (ond Moi Butchar i mam).

Byddai Morys Lewis yn prynu eidion yn aml yn y sêl yn y Borth neu ym Mryncir, ac yn cael y gorau bob amser. Doedd dim yn rhyfedd yn hynny meddwch - na, ond cofier roedd rhaid dod â'r anifail o'r sêl i Lanberis a byddai'n rhaid ei gerdded bob cam o'r lladd-dŷ tu cefn i gartref Morys Lewis. Dyna ddiwrnod mawr oedd hwnnw pan y deuai tarw Moi Butchar i'r pentref. Byddai Jac Bach a Robin Bach ei frawd yn cychwyn gyda Moi ben bore, ac yna cerdded yr anifail o 'dow-i-dow' i Lanberis - siwrnai diwrnod cyfan.

Cofiaf am yr hen darw du mawr oedd wedi blino cymaint fel y penderfynodd eistedd ar ganol Stryd Turner, ac nid oedd dim yn

tycio i'w symud. Roedd wedi bod yn symud yn araf, araf o 'Aber' y diwrnod hwnnw, ac yn siŵr i chi roedd wedi blino.

Cofiaf hefyd Moi Butchar yn anog i'r dynion ddod i'r chwael er mwyn iddo gael help i'w symud i'r lladd-dŷ tu ôl i'r siop. Credwch fi roedd plant y pentref yno, pawb yn barod i neidio a rhedeg pe bai'r hen darw y creadur blinedig on yn troi ei ben. Yna, deuai'r dynion ar ôl cyrraedd o'r chwael a rhaffu'r hen greadur a'i ofodi i godi a'i arwain rownd y gornel ac i Stryd Goodman, ac yna i'r lladd-dŷ. Roedd yn anodd iawn cael yr anifail i'r lladd-dŷ am ei fod yn arogl'r gwaed, ond ni fethodd Moi Butchar. I ni'r plant roedd Moi Butchar, Robin Bach a Jac Bach yn arwyr.

DRAENOG



'Dan ni wedi clywad am wragedd, pan mae eu gwŷr yn cyrraedd adra 'di meddwi, yn eu taro efo petha digon rhyfadd. Ond be' ddyliech chi gafodd un boi o'r fro am indyljio ychydig yn fwy na'r arferol? Ia - ffendar, yn sgwâr ar ei gefn! (a hwnnw wedi bod yn gefn drwg hefyd).

Digon i anfon y musus i'r cwrt fel ffyrst o-ffendar, ddwedwn i.

Mae
G. JORDAN

CEFN ELAN LLANRUG

wedi prynu busnes

ERIC GOVER LLANBERIS

I fenthyg cymysgwyr concrit, cludo llwythi ysgafn, clirio safleoedd a sbwriel ac am dywod, gro, brics ynghyd â gwaith trydanol fel o'r blaen

Ffoniwch:
CAERNARFON 3581

GWASANAETH TRIN GWALLT YN EICH CARTREF

Linda

MOBILE HAIRDRESSER

Lliwedd

Ffordd Glanmoelyn

Llanrug

Ffoniwch

CAERNARFON 3674

i drefnu amser



Wavell Roberts CIGYDD

LONDON HOUSE LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO!

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI!

LLANBERIS

Gohebydd – Mrs Siân Thomas, Tŷ'r Ysgol, (Llanberis 870220)

YSGOL DOLBADARN: Y tîm pêl-droed: Bu'r tîm yn chwarae mewn twrnament yng Nghanolfan Hamdden Arfon yn ddiweddar. Yn y rownd gyntaf daeth y tîm yn fuddugol, ac yna yn y rownd derfynol daeth yn bedwerydd allan o ddeuddeg tîm. Da iawn yn wir hogiau.

NAWS Y NADOLIG: Caed dau barti Nadolig sef un i'r Babanod ar ddydd Mercher, Rhagfyr 14, pryd yr ymwelodd Santa Clos; a pharti'r Adran lau pryd y gwahoddwyd Llywodraethwyr yr Ysgol a'u gwragedd i'r wledd. Fel arfer, mwynhawyd y partion yn fawr a dymuna'r prifathro ddiolch i'r athrawon, staff y gegin, Mrs Hughes, Tan y Clogwyn, ac i Santa Clos wrth gwrs, am eu gwasanaeth i sicrhau fod y plant yn cael y fath fwyniant. Diolch hefyd i Mr Gwyndaf Jones, Swyddog Diogelwch y Ffyrdd am ddod i ddangos ffilmiau i'r plant ar ddydd Mercher, Rhagfyr 14.

DISGO'R URDD: Ar nos lau, Rhagfyr 15 cynhaliwyd Disco'r Urdd yn Neuadd yr Ysgol. Er bod yr hin yn oer yr oedd y plant yn chwys diferol yn dawnsio i swm byddarol cerddoriaeth gyfoes. Gwledd ynddi ei hunan oedd gweld y plant yn llwyr fwynhau eu hunain. Diolch i Mr Dei Tomos, Nant Peris, am gael benthg peiriant ac offer chwarae recordiau, i Mr Teifion Thomas, Arweinydd yr Urdd, am chwarae rhan 'Disc Jockey', i Mr Selwyn Pritchard am chwarae a dawnsio gyda'r plant, i Miss Morris, Mrs Pierce a Mrs Siân Thomas am drefnu'r siop. Cafodd y prifathro y swydd anrhyddedus o olchi llestri.

Côr yr Ysgol: Bu cryn alw ar wasanaeth Côr yr Ysgol cyn y Nadolig. Ar nos Fercher, Rhagfyr 14 aed i ddifyrru Clwb y Manau yn y Ganolfan. Yna ar nos Sul, Rhagfyr 18 cynhaliwyd Gwasanaeth Naw Llith a Charolau gan blant o'r adran gynradd, yn Eglwys Sant Padarn. Diolch yn fawr i Mr Derek Jones am gymryd y rhan ddefosiynol yn ystod y Gwasanaeth ac hefyd i Mr Huxley Thomas am ei wasanaeth wrth yr organ.

Ar brynhawn dydd Mawr, Rhagfyr 20 bu rhan o'r Côr gyda Mrs E. Pierce a'r prifathro ym Mhlas Pengwaith. Cafwyd orig ddifyr iawn yn canu carolau i'r henoed yno.

Gweithgareddau ym Manc y Midland, Llanberis: Drwy garedigrwydd Mr H. Jones, Rheolwr y Banc, recordiwyd y Côr yn canu carolau. Yna, yn ystod y dyddiau cyn y Nadolig chwaraewyd y record yn y banc. Hyfryd iawn oedd lleisiau swynol y plant yn llenwi'r adeilad.

Cystadleuaeth Cynllunio Cerdyn

Nadolig:

Dan nawdd y banc y cynhaliwyd y gystadleuaeth uchod. Yr enillwyr oedd Dosbarth Meithrin a Dosbarth 1 Babanod: 1. Tasha Marie Allsup, 2. Sarah Davies, 3. Dylan Iestyn Jones. Dosbarth 2 a 3 Babanod: 1. Sam Williams, 2. Heledd D. Whitaker, 3. Carys Parry. Safon 1 a 2 Cynradd: 1. Nicola Wynne Baylis, 2. Alwyn Thomas, 2. Michelle Parr. Safon 3 a 3 Cynradd: 1. Delyth Wyn Davies, 2. Llïon Hughes, 3. Mark Kevin Jones.

Rhoddwyd y gwobrau i'r plant gan y b anc. Bu'r cardiau mewn arddangosfa yn y banc a mawr oedd diddordeb y cyhoedd ynddynt. Dymuna'r prifathro ddiolch i Mr Jones y Rheolwr am ei garedigrwydd ac hefyd am ddangos gwaith plant yr Ysgol i bobl yr ardal. Yn y darlun gwelir Mr Jones yn cyflwyno tystysgrifau i'r plant a fu'n llwyddiannus. Gwelir hefyd Mr Parry, Is-reolwr y Banc, a Mr Selwyn Pritchard, Dirprwy Bennaeth yr Ysgol.

Casgliad y Deillion: Fel arfer, gwnaed casgliad eto eleni i Gronfa Deillion Gogledd Cymru. Casglwyd peth arian yn yr Ysgol, hefyd yn ystod y Gwasanaeth o Naw Llith a Charolau, ac fe gaed rhodd o £10 gan Gangen Llanberis o'r Lleng Brydeinig. Yn gyfan oll, casglwyd y swm o £95 i'r achos teilwng hwn. Diolch i bawb a gyfrannodd am eu caredigrwydd.

Noson Agored: Ar nos lau, Rhagfyr 8, cynhaliwyd Noson Agored yn yr Ysgol pryd y cafodd y rhieni y cyfle i weld gwaith y plant a thrafod eu cynnydd â'r athrawon. Barn pawb oedd fod y noson wedi bod yn fuddiol dros ben.

NOFIO: Yn ystod y tymor diwethaf bu Trystan ac Euron o Ysgol Dolbadarn yn llwyddiannus iawn yn eu profion medrusrwydd ym Mhwl Nofio Bangor. Enillodd Trystan dair medal, y Fedal Bres, y Fedal Arian, a'r Fedal Aur. Mae'n awr yn cychwyn ar gwrs o 'Achub Bywyd'.

Enillodd Euron eu dystysgrif a bathodyn am fedr nofio o 800 medr. Da iawn fechgyn, daliwch ati.

FFOTOGRAFFIAETH: Llongyfarchiadau i Mr Gartside, y fferylllydd lleol ar ennill yr ail wobwr drwy Brydain am lun ardderchog o'r rhaeadr lleol. Cystadleuaeth oedd hwn i ddod o hyd i Ffotograffydd y Flwyddyn gan y BBC 2.

PRIODASAU: Mair a Norman: Priodwyd Mair Wyn Davies a Norman David Jones, yn Eglwys Sant Padarn ar ddydd Sadwrn, Rhagfyr 3. Dymuna Mair a Norman ddiolch yn fawr iawn i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau am yr holl anrhegion a'r arian a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas. Maent wedi cartrefu yn Stryd Yankee, Llanberis.



Mair a Norman.

Glenys ac Arthur: Ar Ragfyr 10 yn Eglwys Sant Padarn gyda'r Parch Richard Jones yn gwasanaethu, priodwyd Glenys, merch Mr a Mrs Meirion Jones, 45 Dol Elidir ag Arthur Charles Clarke, mab Mr a Mrs C. Clarke, 2 Glanrafon, Nebo. Darparwyd y wledd briodasol yng Ngwesty Dolbadarn lle y daeth 70 o gyfeillion i ddymuno'n dda i'r pâr ifanc. Bydd y ddau yn cartrefu yn 24A Caeau Gleision, Rhiwlas.



Glenys ac Arthur

UNDEB Y MAMAU: Cyfarfu aelodau o Undeb y Mamau yn y Church House dan lywyddiaeth Mrs Betty Humphreys, Nant Peris ar Ionawr 10. Mwynhawyd araith ddymunol a chartrefol iawn gan Mrs Nellie Roberts, Nant Peris. Estynnwyd cydymdeimlad â theuluoedd y ddiweddar Mrs Edith Jones, Dôl Elidir a Mrs Eddie Jones, 1 Blaen y Ddôl.

CYDYMDEIMLAD: Mrs Jennie Maud Jones: Cydymdeimlir â Mrs Jennie Maud Jones, Maes Padarn o golli ei brawd, 'Perisfab', Nant Peris.

Hugh Alun Jones: Yn ystod y mis daeth y newydd trist o Awstralia am farw Hugh Alun Jones, priod Nellie – un o blant y diweddar T. Owen, York

Terrace. Brodor o Fethesda ydoedd ond ar ei briodas aeth i fyw i Ceunant, Llanrug. Bu ef a'i briod yma ychydig yn ôl a phawb yng Nghlwb yr Henoed yn eu croesawu yn fawr. Cydymdeimlir â Nellie, y weddw, ei brodyr, Hugh, Tom ac Ernest, hefyd ei chwiorydd, Dorothy, Ethel, Kate a Betty a'r cefndryd i gyd.

GÊM PŴL NODDEDIG: Yn ystod mis Hydref 83 bu criw o ddynion wrthi'n ddiwyd yn chwarae pŵl am bedair awr ar hugain er mwyn helpu Mudiad Arennau Llanberis a'r cylch godi arian i brynu peiriant arenau symudol i Uned Arennau Ysbyty Bodelwyddan.

Buont yn eithriadol o lwyddiannus. Codwyd y swm enfawr o £452. Dymuna'r Mudiad Arennau ddiolch i'r canlynol am wneud y fenter mor effeithiol lwyddiannus: i Mr Jim Jones, am drefnu'r gêm, ac am ddod â'r tîm at ei gilydd. I bob aelod o'r tîm – Jim Jones, Eric Baylis, Richard Griffiths, Phillip Guy, Aneuryn Jones, Harold Wright, Lal Jones a Noel Owen – nid peth bach oedd iddynt aros ar eu traed drwy'r nos.

I Mr Aneuryn Jones, Gwesty'r Dolbadarn am roi benthgciad ystafell a bwrdd pŵl yn ddi-dâl, ac am y digonedd o goffi a gadwodd pawb yn effro.

I'r heddlu am ganiatâd i gynnal y gêm.

Ac yn olaf i bawb am eu cefnogaeth hael yn y fenter newydd hon.

Diolch yn fawr iawn i chwi i gyd.

RAS BRAMIAU: Eleni eto cynhaliwyd Ras Bramiau drwy'r pentref yn ystod gwyliau'r Nadolig. Trefnwyd y ras gan Bwyllgor Tîm Pêl-droed y pentref. Dyma'r enillwyr:

1. Chivers a P.J. – Amser 13 mun 55 eiliad; 2. Alan a Martin – 14 mun 30 eiliad; 3. Michael a Kevin – 14 mun 44 eiliad; 4. Dic a John Ifor – 15 mun 16 eiliad; 5. Terence a Dilwyn – 16 mun 52 eiliad; 6. Iolo a Kevin Jones – 20 mun 10 eiliad; 7. Gwenda a Delyth – 20 mun 28 eiliad; 8. Alan Jones ac Arfon – 25 mun 07 eiliad; 9. Eleri a Glenys – 31 mun 40 eiliad.

Enillwyr arbennig: 1. Amser gorau – Chivers a P.J. 2. Tîm Gorau (Merched) – Gwenda a Delyth. 3. Tîm Gorau (Tafarn) – Martin ac Alan o'r Prince of Wales. 4. Gwisg orau – Eleri a Glenys.

CRONFA'R IAU: Mae cangen Llanberis y 'Michael McGough Liver Research Fund for Children' wedi ei dirwyn i ben. Yn ystod y tair blynedd y bu mewn bod, mae'r gangen wedi trosglwyddo y cyfanswm anrhyddedus o £3,714:98 i bencadlys yr ymgyrch yn Llundain. Dymuna teulu Carys a'r pwyllgor ddiolch i bawb am bob cefnogaeth a chyfraniad tuag at achos mor deilwng.

Ieuan Ellis Jones

DIOLCH: Dymunaf ddiolch o galon i'r llu cyfeillion* a anfonodd eu dymuniadau gorau imi yn ystod fy

(Parhad ar y dud. nesa')



FIDEO LLANBERIS VIDEO HIRE

(HEN SIOP LLANBERIS FROZEN FOODS)

Ffôn: Llanberis 2234

Dewis rhagorol o fideos i'w benthg

Ar agor nos Lun, nos Fercher
a nos Wener 6.30 - 8.00

Dim tâl aelodaeth. £1.50 y ffilm
am ddwy noson

Llanberis

anhwylder. Rwyf wedi ceisio anfon yn bersonol i bawb ond rhag ofn fod rhywun wedi ei adael allan - derbynied fy ymddiheuriad.

Betty R. Evans,
5 Min Afon,
Llanberis

Y GUIDES: Mewn cyfarfod arbennig nos Wener, Ionawr 13 cyflwynwyd tystysgrif i Bethan Hughes, Beech Banc ac Alice Starkey, 40 Stryd Fawr gan Ddirprwy Swyddog y Sir a'u penodi yn Arweinyddion i'r grŵp. Llongyfarchwn y ddwy, a da yw gweld genethod ifanc yn cymryd diddordeb yng ngweithgareddau a mudiadau lleol.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cyfarfu'r aelodau yn y Ganolfan ddechrau mis Rhagfyr gyda Mrs Hannah Jones yn llywyddu.

Ein gŵr gwadd am y noson oedd Mr Islwyn Jones, Bethel, a chafwyd sgwrs hynod o ddiddorol ganddo ar Mr T. Rowland Hughes ac ar Angorfa, a dangosodd lawer o sleidiau a lluniau i ni.

Diolchwyd i Mr Jones ac i'r gwestwagedd am y noson gan Mrs Rona Thomas a Mrs Dwynwen Roberts. Y gwestwagedd oedd Mrs Martha Hughes, Mrs Betty Jones, Mrs Glenys Jones a Mrs Mair Jones.

Cynhaliwyd ein Cinio Nadolig eleni yng Ngwesty Fictoria a dymuna'r aelodau ddiolch yn fawr i'r rheolwr a'r staff am noson ardderchog ac hefyd i Mr Ken Williams, KMP Coaches am roi'r bws o'r pentref i'r gwesty yn rhad ac am ddim.

CERDDOROL: Llongyfarchwn y canlynol am fod mor llwyddiannus i gyd yn llwyddo mewn arholiad piano, a gymerodd le yn Llanfairpwll o dan nawdd Coleg Cerdd Llundain.

Cam ail: Anna Lloyd Roberts (dosb 1af); Euron Thomas, (dosb 1af); Helen Gartside (dosb 1af); Catherine Gray Williams (pasio).

Gradd I: Shân Lloyd, Llanrug (pasio); Ruth Parry Jones, Llanrug (dosb 1af).

Gradd II: Trystan Thomas (dosb 1af)

Gradd V: Shân Elen Pritchard, Nant Peris (dosb 1af).

Disgyblion Mrs M. Lloyd yw'r cyfan.

PLANT MEDDYLGAR: Yn ystod dyddiau cynnar mis Rhagfyr penderfynodd pump o enethod Maes Padarn gynnal 'Jumble Sale' yn y ganolfan. Buont wrthi'n ddiwyd am ddyddiau yn hel cyfraniadau o'r tai cyfagos, a chawsant gefnogaeth ardderchog gan bawb.

Gwnaed elw o £46 yn yr arwerthiant a rhoddwyd ef i Gartref Plas Pen Gwaith. Y genethod oedd - Nia Thomas, Bethan Lyn Jones, Tracy Fleming, a Maria a Michelle Willis.

Diolch i chi genod am fod mor ffeind a meddylgar wrth eraill.

DIOLCHIAU: Dymuna Gillian a Gwyn ddiolch i bawb am yr holl anrhegion a chardiau yn dymuno yn dda iddynt ar achlysur eu dyweddïad. Hefyd diolcha Gillian i bawb am bopeth a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn un ar hugain oed ar Dachwedd 29 1983.

PEN-BLWYDD: Ar Ragfyr 12 1983 dathlodd Menai Wyn ei phen-blwydd yn un ar hugain oed. Daeth lluo o gardiau yn dymuno yn dda iddi oddi wrth ei mam a'i thad, teulu a chyfeillion o gylch 60 Dôl Elidir, Llanberis. Llongyfarchiadau i chi Menai a blynyddoedd lawer o ddedwyddwch.

Dathlwyd ei deunawfed ben-blwydd gan Lynne, merch Mr a Mrs Owen Jones, Maes Padarn. Dymuna Lynne ddiolch i'w theulu a'i lluo ffrindiau am yr holl anrhegion a dymuniadau da a dderbyniodd ar yr

achlysur.

Llongyfarchiadau i Carol Wyn Jones, 27 Dôl Elidir ar ei phen-blwydd yn 18 oed ar Ragfyr 28, 1983. Oddi wrth Mam, Gareth, Ann a Dilys.

Llongyfarchiadau i'r tenantiaid canlynol am eu diddordeb yn eu gerddi. Roedd yn bleser calon i bawb fynd draw i Faes Padarn i weld yr ymdrech a'r gofal a roddwyd i'r gerddi. Gresyn na fuasai gerddi yr ardal i gyd rhywbeth tebyg i'r rhain. Byddai'r pentref dipyn harddach man i gerdded o gwmpas ynddo.

Gwobrwywyd y rhain gan Mr Mathieson ar ran Cyngor Arfon. Yn gyntaf Mrs Vivian Thomas (y gwpan aur a siec am £10). Yn ail Oliver Edwards (siec am £8) a Gwilym Jones yn gydradd gyda siec am £8.

CLWB YR ANABL: Mwynhaodd aelodau o Glwb Anabl Eryri eu cinio Nadolig yng Ngwesty Gwynedd, a dymuna'r aelodau ddiolch i berchnogion y gwesty am y croeso cynnes a estynnwyd i'r aelodau anabl. Y gwahoddedigion i'r cinio eleni oedd Mr a Mrs Oswyn Rees, Mr a Mrs Balilis a Mr a Mrs Roberts o'r Gwasanaeth Cymdeithasol. Derbyniwyd gwobrwyon gan y rhai a ganlyn yn ystod y noson: Miss Mair Hughes, Mrs Dilys Jones (Llanrug), Mrs Megan Owen,, Mrs A. Clark, Mr Iorwerth Jones, Mr Gwilym Jones (Pendalar).

Diolchwyd i'r gwagedd yma am eu cynorthwy cyson gyda'r lluniaeth yn ystod y tymor a aeth heibio - Miss Hughes, Cwm-y-glo, Mrs Watkins, Cwm-y-glo, Mrs D. Evans a Mrs Nancy Jones.

PARTIÖN NADOLIG: Gofalodd y rhieni ac athrawon yr Ysgol Sul am Barti Nadolig i blant yr ardal. Darparwyd te parti i blant Jerusalem yn Ffestri Nant Padarn, gyda'r plant yn cael te parti ardderchog, ac anrhegion gwerthfawr. Trefnwyd y cyfan gan y rhieni a'r athrawon Ysgol Sul. Yr un Sadwrn cynhaliwyd parti i blant Capel Coch. Trefnwyd noson ddiffr iawn gan Mr Tom Jones, 'Rallt Goch, y rhieni a'r athrawon a'r oll o'r plant a Siôn Corn yn cyflwyno'r anrhegion i bob plentyn.

Daeth Siôn Corn i ymweld â phlant Ysgol Sul Nant Padarn, ar ôl iddynt gael te parti ardderchog yn dilyn gyda chwaraeon a chanu carolau.

CROESO GARTREF: Ychydig ddyddiau ar ôl y Nadolig cyrhaeddodd Brian, mab Mr a Mrs Roberts, Lorne House gartref o Shri Lanka gyda'i briod a'i ddau blentyn bach, Eirian a Shôn. Deallwn ei fod yn bwriadu dychwelyd Shri Lanka ar ôl ychydig wythnosau o wyliau yma yng Nghymru.

Croeso gartre i chi fel teulu.

CYFARFOD BORE'R NADOLIG: Trefnwyd Gwasanaeth Bore Nadolig gan yr Eglwysy Rhyddion yn yr Ardal. Yn Nant Padarn y cynhaliwyd y gwasanaeth bore'r Nadolig dan arweiniad Mr Eurwyn Jones a Mr Hugh Peris Pritchard yn cyfeilio. Cymerwyd rhan gan Mr Eurwyn Jones, Miss Bethan Jones, Delfryn, Miss Bethan Hughes, Beech Bank, Miss Delyth Williams, Stryd Newton, Mrs W.R. Roberts a Mrs Nancy Jones, Miss Rhian Owen, Stryd Siarlot. Cafwyd anerchiad ddiffr iawn ar Wyl y Nadolig gan Mr Tom Jones, 'Rallt Goch, Ceunant.

CLWB ERYRI: Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o'r flwyddyn newydd yng Ngwesty Gwynedd dan arweiniad Mr Bob Williams y cadeirydd. Cafwyd anerchiad ddiffr iawn gan Mr Cledwyn Jones.

WEDI GWELLA: Da iawn yw deall fod amryw o'r pentrefwyr fu'n wael wedi gwella yn bur dda, a rhai a fu'n yr ysbyty wedi dychwelyd gartref. Cyfeiriwn at Mrs Williams, Baladeulyn, Stryd Newton a Rhiannon Pritchard, merch Mr a Mrs

Selwyn Pritchard, Madryn, Stryd Newton. Mae Mrs Kate Amelia Williams yn gwella yn ei chartref Stryd Newton ar ôl damwain yn ei chartref.

CYFARFODYDD AR DDECHRAU BLWYDDYN: Yn ôl y traddodiad cynhaliwyd cyfarfodydd gweddi yn ystod yr wythnos gyntaf o'r flwyddyn. Nos Lun cynhaliwyd cyfarfod yn Nant Padarn. Nos Fercher cynhaliwyd cyfarfod undebol yng Nghapel Coch, a nos lau cynhaliwyd pregeth yng Nghapel Jerusalem. Y pregethwr oedd y Parch Hugh Gwynfa Roberts, Llanwnda.

MARWOLAETHAU: Aeth yr hen flwyddyn heibio eleni gan adael llawer o dristwch a galar mewn rhai cartrefi. Collwyd rhai annwyl, rhai ar ôl cystudd blin, a rhai yn annisgwyl iawn. Estynnir y cydymdeimlad llwyrfa'r ôl o'r teuluoedd galarus, a bydded iddynt dderbyn cysur drwy gydymdeimlad cyfeillion ac iddynt gofio fod amser yn pasio yn gyflym ymaith, ond mae geiriau caredig o gysur yn aros gyda ni.

Edith Jones: Ar ôl amser maith yn yr ysbyty bu farw Mrs Edith Jones, priod y diweddar R.H. Jones, Dôl Elidir. Roedd yn 83 oed ac wedi codi teulu mawr yn ei dydd. Saesnes ydoedd Mrs Jones o Fanceinion ond roedd wedi dysgu'r Gymraeg yn dda, er yn chwithig ambell dro. Pan yn byw yn Nol Elidir cyfeiriwyd ati bob amser fel cymdogaes dda, yn barod i gymwynas i bawb bob amser.

Claddwyd hi ym mynwent Nant Peris gyda'r Parch Richard Jones yn gwasanaethu. Cydymdeimlir â'r meibion, y merched, ei chwiorydd yng nghyfraith a'r teulu i gyd yn y brofedigaeth.

Annie Jones Rhagfyr 13 1983 brawychwyd yr ardalwyr ar farwolaeth Annie - priod Eddie Jones, Rhif 1, Blaen y Ddôl. Roedd yn 79 oed ac wedi dilyn bywyd prysur iawn drwy ofalu am ei chartref, a gofalu'n dyner am ei phriod sy'n wael ei iechyd ers amser maith. Ni fynnai ei adael ar ei ben ei hun am unrhyw amser, gofalai am gyfaill neu gymydog yn gwmni iddo tra rhuthrai i'r pentref i siopa unwaith neu ddwywaith yr wythnos. Aelod ffyddlon iawn o Eglwys Sant Padarn ydoedd ar hyd ei hoes, ac wedi rhoddi gwasanaeth cydwobodol bob amser. Bydd chwithdod mawr i'w phriod, Eddie, ond bydded iddo gofio y daw cysur iddo gyda'r atgofion hyffryd am ei chariad a phartneriaeth gadarn tra gydag ef. Bydded iddo gael nerth o ddydd i ddydd wrth gofio am fywyd hapus gydag 'Annie'.

Gwasanaethwyd yn y gwasanaeth angladdol yn yr Amlogsgfa ym Mangor ac yn ddiweddarach ym mynwent Nant Peris gan y Parch Richard Jones, y Felinheli.

Gwyneth Williams: Yng 'Nghartref Ceris' Bangor, bu farw Gwyneth Williams, Eirianfa. Gweddwr'r diweddar Alun Williams ydoedd, ac roedd yn 70 oed. Brodor o Cesarea, Dyffryn Nantlle ydoedd a chyn priodi bu'n gwasanaethu yn y Llyfrgell Swyddfa Addysg Sir Gaernarfon gyda Meuryn, a bu'n Llyfrgellydd y Sir am gyfnod. Bu i Alun a hithau ddau fab - ond ychydig flynyddoedd yn ôl bu farw un o'u meibion ychydig amser ar ôl ei dad. Gadawodd y brofedigaeth yma graith ddofn iawn. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn yr Amlogsgfa Bangor, gyda'r Parch John Samuel Roberts, Sir Fôn yn gwasanaethu.

Estynnir y cydymdeimlad dwysaf â John, yr unig fab a'i briod yn eu colled, hefyd y teulu i gyd.

Phyllis Mimmie Price: Yn yr ysbyty ym Mangor ar ôl derbyn triniaeth lawfeddygol bu farw Phyllis, priod J. Price, 58 Maes Padarn yn 78 oed. Daeth y cwpwl i'r ardal beth amser yn

ôl o Birmingham, ac roedd Mr Price yn grefftwr medrus iawn, a bu'n gweithio yn un o'r ffactrioedd lleol, ac yn byw yn Nant Peris. Yna daethant i lawr i Lanberis a byw ym Mhengilfach, ond ymhen ychydig gorfu iddynt adael a gwneud cartref yn y Fflatiau - yn 58 Maes Padarn.

Dau gymeriad tawel iawn oeddynt, yn gwerthfawrogi bob cymwynas a charedigrwydd. Aelodau o Eglwys Sant Padarn oeddynt. Trefnwyd y gwasanaeth angladdol gan y Parch Aled Edwards yn Amlogsgfa Bangor.

Thomas Alun Maxwell: Ar ddydd diwetha'r hen flwyddyn bu farw Thomas Alun Maxwell, priod Jennie Maxwell, yn ei gartref 'Argoed', Stryd Warden, yn 77 oed. Nid oes fawr o wythnosau er iddynt ddathlu eu priodas aur, a'r blynyddoedd wedi bod yn hynod o hapus a dedwydd iddynt. Bu'r ddau yn aelodau ffyddlon a gweithgar yn Eglwys Gorffwysfa, ac yna ymaelodi ag Eglwys Capel Coch. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Eglwys Capel Coch gyda'r Parchedigion Trevor Lewis, John David Roberts, a Gwynfor Williams yn gwasanaethu yn y Capel ac yn yr Amlogsgfa ym Mangor. Mr Huw Peris Pritchard oedd yr organydd yng Nghapel Coch. Estynnir y cydymdeimlad dwysaf â 'Jennie' ei weddw, ei frawd John, ei chwaer Margaret, ei frawd yng nghyfraith, ei ddwy chwaer yng nghyfraith a'r oll o'r teulu.

Annie Wheldon Jones: Aeth Annie Wheldon Jones, 21 Maes Padarn gydag Eirlys ei merch i'r Borth, Sir Fôn i fwynhau'r Wyl Nadolig gyda Freda ei merch ieuengaf. Ond siom fawr a gafwyd - ar y Dydd Nadolig tarawyd hi'n wael iawn - ac ar y 13eg o Ionawr bu farw. Cydymdeimlir â'r ddwy ferch a'r teulu i gyd yn y brofedigaeth. Bydd ei cholli yn golled fawr i'w merch Eirlys, a fu'n gwmni i'w mam ers blynyddoedd bellach, a'i gofal am dani yn dyner a theimladwy.

Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yng Nghapel Coch lle y bu Annie Wheldon Jones a'i theulu yn ffyddlon iawn ar hyd y blynyddoedd, pnawn ddydd Mawrth, Ionawr 17 gyda'i gweinidog y Parch Trevor Lewis yn gwasanaethu yn y capel ac wrth lan y bedd yn Nant Peris.

Eirianwen Roberts: Tra yn siopayn y dref pnawn Sadwrn Ionawr 21 bu farw Eirianwen - gweddwr'r diweddar Owen Roberts, Brook House.

Aeth Owen Roberts a'i briod i fyw i Gaernarfon ychydig flynyddoedd yn ôl. Roedd Eirianwen yn ferch i'r diweddar Mr a Mrs Owen Roberts, Gwynfa, Stryd Gorffwysfa. Cydymdeimlir â'i chwaer yng nghyfraith, Miss Bessie Roberts, Stryd Turner a'r gweddill o'r teulu.

BABI NEWYDD: Ionawr 15 ganwyd mab bychan i Bernadette ac Idris, Tŷ Capel, Nant Padarn. Ei enw fydd Nicky Lee - brawd bach i Kelly. Llongyfarchiadau i'r rhieni.

Llongyfarchiadau i Margaret a Huw, Brynteg ar eni bachgen bach ar Ionawr 11 yn Ysbyty Dewi Sant Bangor. Ei enw yw Kefin Wyn, brawd bach i Sharon. Wrth gwrs mae'r ddwy nain wedi gwirioni'n lân.

Llongyfarchiadau i Robin ac Anna, Rhif 6 Ismyrddin, Abergwili ar enedigaeth merch fach yn Ysbyty Glangwili. Ei henw yw Bethan Ellis. Mae'r ferch fach newydd yma yn gwneud leuan Ellis Jones a Morfudd, Erw'r Coed yn nain a thaid am yr ail dro, ac maent wrth eu bodd yn sicr i chi.

Llongyfarchiadau i Derlwyn ac Anna, Moelfre, Sir Fôn ar enedigaeth efeilliaid - geneth a bachgen, a'u henwau Ffion Meleri a Dafydd Aaron. Y newydd gorau ar ddechrau'r flwyddyn a gafodd nain - Megan Hughes, Maes Llwyn, Stryd Newton.

(Parhad ar dud 15)

IESU AHATONHIA

Yn gyntaf, rhaid i mi egluro teitl yr hanes sydd gennyf i chwi heddiw. IaitH Hiwroniaid ydyw Ahatonhia. Yn Gymraeg golyga "Geni'r Iesu". Teitl ydyw ar y Garol gyntaf a gyfansoddwyd ar gyfer pobl Canada. Y mae dros dri chan mlynedd ers pan gyfansoddwyd y Garol. Y mae'r hanes yn wefreiddiol o ddiddorol a dwys.

Yn y flwyddyn 1633 daeth Cenhadwr Eglwys Rhufain o'r enw Y Tad Brebeuf o Ffrainc i fyw i Ddwyrain Canada am y trydydd tro. Arhosodd am flwyddyn yn Quebec ac yna symudodd i fyw i Hiwronia. Gelwid y bobl yn Hiwroniaid. Dyma gartref tylwythau yr Hiwron. Symudai'r tylwythau o le i le i hela'r anifeiliaid gwylltion, y blaidd, y carw, yr arth, ac anifeiliaid eraill llai.

Yr oedd y Cenhadwr Brebeuf yn ŵr da a gonest. Gweithiodd yn galed a bu'n byw gyda'r Hiwroniaid yn eu hogofâu a'u tai. Gwnaeth ei oriau i droi'r bobl yn Gristionogion ond methodd.

GITSHI MANITW

Credai'r Hiwroniaid yn Gitshi Maritw, sef yr Ysbryd Mawr, ef a anfonai'r ysbrydion da a drwg.

Credent mai'r ysbrydion da oedd yn anfon gwres a goleuni'r haul a golau llachar y lleuad. Credent fod yr ysbrydion yn trigo mewn coed ffrwythau i gynhyrchu bwyd: dangosent lle yr oedd y carw yn pro.

Ond yr oedd yr ysbrydion drwg yn ddychrynlyd. Trigent hwy mewn creigiau yn barod i luchio'r Hiwroniaid i'r afon a gwneud pethau arswydus eraill.

Ym 1664 cafodd y Tad Brebeuf ddamwain trwy syrthio ar y rhew wrth groesi'r afon. Tra 'roedd yn gorffwys yn yr ysbyty yn Quebec ceisiodd feddwl sut y medrai ddweud stori geni'r Iesu allan o Efengylau Mathew a Luc fel y gallai'r Hiwroniaid ei ddeall. 'Wyddent hwy ddim byd am fugain a defaid, angylion a doethion, aur a thus a myrr. Yr oedd raid trosi'r hanes i eirfa pethau yr oedd yr Hiwroniaid yn gyfarwydd â hwy.

Fel hyn y dywedodd Brebeuf hanes y Geni wrthyf.

Y PENNAETH BACH

"Heliwr oedd Joseph. Aeth gyda Mair ei wraig, oedd yn feichiog, drwy'r goedwig ar siwrne i edrych am deulu Mair.

"Wrth gerdded trwy'r goedwig daethant at binwydden fawr. Yng nghysgod y goeden ganwyd mab cyntafanedig i Mair. Rhwymodd y baban mewn crwyn cwningod a'i roi mewn cawell o frigau'r pin.

"Yr oedd nifer o helwyr yn dilyn yr anifeiliaid gwylltion yng nghanol y goedwig.

"Yn sydyn dyna genhadwr Gitshi Manitw (yr Ysbryd Mawr) yn sefyll yn eu hymyl a gogoniant Gitshi Manitw yn disgleirio o'u hamgylch.

"Yr oedd arnynt ofn.

"Dywedodd y cenhadwr wrthynt 'Peidiwch ag ofni. Y mae gennyf newydd da i'w ddweud wrthyf. Fe anwyd Pennaeth Newydd i chwi. Gitshi Manitw a'i hanfonodd.

"Gellwch weld y Pennaeth Bach sydd newydd ei eni, wedi ei rwymo mewn crwyn cwningod o dan gysgod pinwydden fawr.' Ar hynny dyna nifer o ysbrydion da yn ymddangos a chanu 'Gogoniant i Gitshi Manitw, yr Ysbryd Mawr a Bythol. Yn o goedwig boed heddych rhwng y tylwythau a boed i'r Hiwroniaid dderbyn cennad Gitshi Maritw.' Yna aeth yr helwyr trwy'r goedwig i chwilio a daethant o hyd i'r Pennaeth Bach wrth gysgod y binwydden.

"Wedyn daeth penaethiaid drwy'r goedwig o'r dwyrain a gofyn 'Pa le y mae'r hwn a anwyd yn Bennaeth y Penaethiaid? Fe welsom ei seren ef.

"Aethant hwythau ymaith a chael hyd i'r Pennaeth Bach. Rhoisant anrhegion iddo, sef 'Cap Pennaeth' wedi ei wneud o blu eryrod, a rhoi crwyn drudfawr y llwynog a'r afanc (beaver). Aeth pawb wedyn yn ôl i'w cartref."

CAROL NADOLIG GYNTAF CANADA

Ysgrifennodd y Tad Brebeuf garol Nadolig ac adrodd yr hanes yn y garol. Dyma garol Nadolig gyntaf Canada. Y mae'r geiriau a'r miwsig yn cael eu cadw yn Llyfrgell Prifysgol Laval yn Nhalaith Quebec.

Ysgrifennodd y Tad Brebeuf emynau a gweddïau arbennig i'r Hiwroniaid yn eu hiaith eu hunain ac hefyd rannau o'r Testament Newydd.

Ym 1649 torrodd rhyfel allan rhwng rhai o'r tylwythau. Cymerwyd Brebeuf yn garcharor a chroeshoeliwyd ef a'i losgi.

Cyfieithwyd y garol i'r Saesneg gan J.E. Middleton a chenir hi i fwsig poblogaidd Ffrengig 'La Jeune Pucelle'.

DIOLCH

Gan Mrs Stasiuk o Ganada y cefais yr hanes tlws yma. Y mae Mrs

Stasiuk yn hanu o Fethel, Caernarfon, ac yn chwaer i Mr Harold Parry Jones, ysgolfeistr Trefor, Caernarfon. Diolch yn fawr i Mrs Stasiuk. Anfonwn ddymuniadau gorau i'r teulu yng Nghanada.

Os dymunwch gael copi o'r garol yn Saesneg anfonwch ataf gydag amlen a stamp. Dyma fy nghyfeiriad:

Mary Lloyd Williams (Mrs)
Llys Awen
Llanrug
Caernarfon
Gwynedd.

TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)

GWASANAETH NADOLIG

Nos Sul, Rhagfyr 18 daeth cynulliad da o rieni a charedigion Ysgol Sul Tan-y-coed i Wasanaeth Nadolig y Plant.

Heblaw eitemau'r plant fel unigolion, fel dosbarth ac fel côr, unodd y gynulleidfa hefyd mewn cyd-ddarllen a chanu cynulleidfaol.

Y cyfeilyddion oedd Mrs Carys Ll. Evans a Manon Ll. Evans, a'r arweinydd oedd Glenda Roberts.

PARTI NADOLIG

Y dydd Llun canlynol, Rhagfyr 19, mwynhaodd y plant eu Te Parti Nadolig blynyddol. Wedi'r wledd dangoswyd ffilm o Wlad Palesteina gan Mrs Mary Vaughan Jones, Waunfawr.

Diolchwyd i Mrs Vaughan Jones am ei pharodrwydd i ddod i ddifyrru ac addysgu'r plant, gan y Parch W.O. Roberts. Diolchodd Mr Roberts hefyd i famau'r plant am baratoi'r wledd, i'r athrawon ac i bawb gyfrannodd mewn unrhyw fodd tuag at lwyddiant yr achlysur.

Cyflwynodd y Parch W.O. Roberts anrheg i bob plentyn ar ran yr Ysgol Sul.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Gwynfa Pritchard, Cefn Llwyd ar enedigael eu mab, Iwan, brawd i Siôn ac ŵyr arall i Mr a Mrs William Pritchard, Garnedd. Pob bendith i Iwan a'i deulu.

Llongyfarchiadau hefyd i Miss Dilys Butler, Haddef gynt, BETHel yn awr, ar achlysur ei phriodas â Fernando Perez de Leon o Mexico. Dymuniadau da'r ardal i'r ddau.

Merch i Mrs Lola Butler, Haddef yw'r briodferch.

YN YR YSBYTY

Ein cofion a'n dymuniadau gorau am adferiad iechyd i Mrs Jennie Maud Griffith, Llys Meredydd, sydd yn Ysbyty Môn ac Arfon.

CYDYMDEIMLAD

Bore dydd Nadolig yn Ysbyty Môn ac Arfon bu farw Mrs M. Templeman, Tan-y-bryn. Wedi'r amlosgiad yn Amlosgfa Bangor gwasgwarwyd llwch Mrs M. Templeman, yn ôl ei dymuniad, yn ei hoff seintwar adar.

Cydymdeimlwn â'i phriod a'i phlant a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

CROESO

Pnawn Sul, Chwefror 19, am 2 o'r gloch bydd Gweinidog Gofalaeth Brynrefail, Ceunant, Capel Mawr, Pontrhythallt a Than-y-coed, - y Parch R.G. Morris, yn pregethu yn Nghan-y-coed. Estynnwn groeso cynnes iddo i'n plith i'r oedfa gyntaf i ni fel eglwys unigol. Unwn â'r ofalaeth i'w groesawu ef a'i briod a'i ddau fab bychan i'n plith.

BETWS GARMON

21 OED: Llongyfarchiadau i Richard Davies, Gwesty Castell Cidwm, ar ei ben-blwydd yn 21 oed y mis yma.

MANON: Dechreuodd Manon Wyn Evans, Bron y Graig yn yr ysgol ddyddiol ar ddechrau'r tymor hwn.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlir â Mr a Mrs Emyr Evans, Bron y Graig ar golli mam annwyl i Emyr a nain i Manon ac Elin.

DRAENOG



Athro o Lanrug yn dathlu ei ben-blwydd drwy fwynhau ei hun yn reidio basgedi gwag yn Kwiksave, Bangor. Tybed ei fod wedi cyrraedd ei ail blentyndod?

Bistro
45 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: LLANBERIS 871 278

(Danny a Nerys Roberts)

Pryd gorau'r fro

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

YSGOL YRRU OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L

PRITCHARD

43 glanffynnon

LLANRUG

CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth

WELDIO OFFER FFERM

A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL

GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI

AR GYFER Y CARTREF

ATGYWEIRIO TAI
GWAIR

E. PUGH

WELDING &
FABRICATING

32 GLANFFYNNON

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 5394

DEINIOLEN

GOHEBYDD: W.O. Williams, Tŷ Capel Disgwylfa (Llanberis 871259)

Y MAJORETTES: Mae'r Majorettes wedi aildechrau ymarfer ar gyfer tymor yr haf.

Y GANOLFAN: Swyddogion y Ganolfan am y 1984 - Cadeirydd: Mr W.O. Williams, Tŷ Capel Disgwylfa; Ysgrifennydd: Mr R. Williams, 4 Tai Caradog; Trysorydd: Mrs M. Lewis, Llys Myfyr, Deiniolen. Os am ddefnyddio'r Ganolfan cysylltwch â'r Ysgrifennydd neu unrhyw aelod o'r pwyllgor.

Y GANOLFAN: Siomedig oedd y nifer ddaeth i Gyfarfod Cyffredinol Blynnyddol y Ganolfan ar nos Wener, 16 Rhagfyr. Yn y cyfarfod hwnnw adroddwyd bod 451 o gyfarfodydd wedi eu cynnal yn y Ganolfan yn ystod 1983, sydd yn fynegiant o'r rhan allweddol sydd i'r Ganolfan ym mywyd cymdeithasol y pentref.

Mae'r argaelion am 1984 yn ymddangos y gwneir defnydd yr un mor helaeth o'r Ganolfan yn ystod y flwyddyn newydd. Derbyniwyd gyda diolch adroddiad y Trysorydd ar Fantolen 1982-3 oedd yn dangos bod y sefyllfa ariannol yn gwbl foddhaol.

Roedd mudiadau a sefydliadau'r pentref wedi eu gwahodd i enwebu personau i wasanaethu ar Bwyllgor Rheoli'r Ganolfan am 1983-84. Cynhaliwyd pleidlais gudd ar yr enwebiadau, ac etholwyd y canlynol: Mrs Miriam Lewis (Merched y Wawr), Mrs Carol Pritchard (Majorettes), Miss Betty Williams (Sefydliad y Merched); Mrs Eirlys Williams (Cymdeithas Lenyddol) Mr William Orwig Williams (Seindorf), Mr Robert Williams (Cyngor Eglwys).

Bydd y Pwyllgor Rheoli yn ei gyfarfod nesaf yn ystyried rhai awgrymiadau wnaed yn y Cyfarfod Cyffredinol er hwyluso defnyddwyr y Ganolfan a buasent yn croesawu awgrymiadau oddi wrth ddarllenwyr y golofn hon at wella amgylchiadau yn y Ganolfan.

GWASANAETH CAROLAU: Roedd llawr capel Ebenezer yn rhwydd iawn nos Sul, 18 Rhagfyr, ar gyfer Gwasanaeth Carolau a gynhaliwyd yno dan nawdd Cyngor Eglwys i'r pentref. Arweiniwyd y gwasanaeth gan Mr Donald Jones, Llywydd y Cyngor, a chyflwynwyd eitemau gan blant ac oedolion yn cynrychioli eglwys i mudiadau eraill y pentref. Mae'r Cyngor yn ddyledus i Mrs Dilys Hughes a Mrs Helen Sutherland am baratoi'r rhaglen ar gyfer y gwasanaeth. Yn dilyn y casgliad wnaed yn ystod yr oedfa, bydd y Cyngor yn anfon rhodd o £35 i Ysgol Pendalar, Caernarfon.

CANU CAROLAU: Ar nos Wener Rhagfyr 9 a hithau'n noson oer iawn yn dilyn glaw trwm drwy'r dydd, aeth dau ar bymtheg o blant o Ysgol Sul Eglwys Crist Llandinorwig o amgylch y pentref yn canu carolau.

Casglwyd £73.85 o arian a bydd yr arian yn cael eu trosglwyddo i Ward y Plant, Ysbyty Gwynedd i brynu rhywbeth a ddaw â chysur i'r plant hynny a fu'n gorfod aros yn yr ysbyty rhyw dro.

Dyma enwau'r plant a fu'n canu carolau - Arwel a Dylan Hughes, Iolo, Alun a Sian Griffith, Dawn Thomas, Nia Glyn Davies, Sharon Wyn a Neil Williams, Rhian Wyn Hughes, Meurig a Linda Jones, Sioned Frazer Jones a Linda Thomas, Terry Evans, Dyfed a Delyth Price.

Diolch i chwi blant am eich ymdrech ragorol ac hefyd i'r Ficer a'r merched a'ch cynorthwydd i ganu a chasglu'r arian.

Diolch hefyd i drigolion Deiniolen am eu cefnogaeth.

DIOLCH: Dymuna Alwyn a Valmai;

Elan ac Aurwyn ddiolch o galon i'w perthnasau, ffrindiau a'r ardalwyr am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl.

LLONGYFARCHIADAU: i Ian Peter Williams, 10 Tai Marian am dderbyn rhodd o Gronfa Ymddiriedolaeth, Griffith Charles Jones, am ei lwyddiant yn yr arholiadau Lefel A. Ian oedd prif-ddisgybl Ysgol Brynrefail 1982-3 ac mae'n dilyn cwrs yn y Brifysgol yng Nghaerdydd ar hyn o bryd.

DIOLCH: Dymuna Mrs E. Jones, 7 Green Terrace ddiolch yn garedig i bawb am y llw cardiau a dderbyniodd pan yn derbyn triniaeth llawfeddygol yn Ysbyty Môn ac Arfon.

Hefyd diolch i staff a nyrsus Ward Surgical Uchaf a Nyrs Arabella SRN Deiniolen.

Diolch yn fawr.

Er cof annwyl am Mary Ellen Thomas fu farw 28 Ionawr 1983.

Mor gyflym mae amser yn hedeg

Fel deilen ar wyneb y lli

Yn aros mae hiraeth heb gilio

Am un oedd mor annwyl i ni.

Ei dwy chwaer
Mrs M. Griffiths, Tŷ Ddewi
Mrs C.J. Jones, Hafod Oleu,
Deiniolen.

DIOLCH: Dymuna Rhiannon, Hugh a'r teulu, 9 Maes Gwylfa ddiolch o galon i'r Parch Trefor Lewis, eu teulu, ffrindiau, a chymdogion am bob caredigrwydd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl.

MARWOLAETH: Dymuna teulu'r diweddar Mr John Lewis, 5 Pentre Helen a fu farw mor sydyn ar Ragfyr 15 ddiolch i'r cymdogion a ffrindiau am y cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth.

R.A. Lewis (ar ran y teulu)

MARWOLAETH: Drwg gennym oedd clywed am farwolaeth Mr R.M. Thomas, Fferm Rhydu (Dic Rhydu) fel yr adwaenid ef gan bawb yn yr ardal.

Bu Dic yn danfon llefrith o ddrws i ddrws am dros 60 o flynyddoedd yn yr ardal. Dymuna Mrs Thomas a'r teulu ddiolch i'w chymdogion a chyfeillion oll a'r meddyg teulu am y caredigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth ynghyd â'r cardiau a dderbyniasant.

ENILLWYR CLWB 200 Y SEINDORF: Ionawr - 1. £25: Rhif 7, Mr H. Owen, Ger Afon, Deiniolen; 2. £15: rhif 129, Mrs R.O. Williams, Arfon House, Deiniolen; 3. £5: rhif 143, Mr D.W. Jones, 3 Rhydfadog.

Yn ystod tymor y Nadolig bu'r Seindorf yn brysor iawn yn mynd o amgylch yr ardal a'r ardaloedd cyfagos i chwarae carolau ac eitemau eraill.

Buont hefyd yn ysbytai Bangor a Chaernarfon.

Cynhaliwyd Cinio Nadolig y Seindorf yng Ngwesty Victoria Llanberis ar Ragfyr 30. Ar nos Sul Ionawr 15 cynhaliwyd pwyllgor blynnyddol y Seindorf. Y llywydd oedd Mr G. Parry, B.A., Bodawel. Agorwyd y cyfarfod trwy gydymdeimlo â theuluoedd dau aelod selog o'r pwyllgor a gollwyd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, sef Mr Bobbie Roberts, Pentre Helen a Mr J. Lewis, Pentre Helen.

Aethpwyd ymlaen wedyn i drafod y fantolen am y flwyddyn. Roedd y fantolen yn foddhaol iawn.

Yr oedd term tri aelod o'r pwyllgor presennol yn dod i ben, felly rhaid oedd cael tri arall yn eu lle. Ailetholwyd Mr G. Oliver Jones a Mr Andrew Griffith, Dinorwig. Codwyd

tri aelod newydd sef Mr Elwyn Jones, Deiniol House, Mr Ernest Jones, Porth y Gogledd a Mr John Joannid, Clwt-y-bont. Pasiwyd i gystadlu yn Pontins Southport ar ddydd Gwener y Groglieth. Disgwylir i Mr J.R. Childs, Swydd Efrog, arweinydd proffesiynol i'w hyfforddi.

BINGO yn Ystafell y Seindorf bob nos Wener am 7.30. Dewch yn llw.

PLAID CYMRU: Cynhaliwyd Cinio Nadolig y gangen yng Ngwesty Padarn Lake, Llanberis nos Sadwrn, Rhagfyr 17. Cafwyd noson ddifur yng nghwmni Bryn Terfel a John Eifion o Garndolbenmaen.

Enillwyd gwobrau raffl gan Miss Maggie Jane Jones, Mrs Lizzie May Lewis, Mrs Hannah M. Roberts a Mr Griff Owen.

Enillwyr Clwb Cant mis Tachwedd oedd - £10: rhif 64, Mr Iorwerth Roberts, 10 Hafod Olau, £8.50: rhif 22, Mr Meirion Jones, Minafon, Clwt-y-bont.

Enillwyr Rhagfyr oedd - £10: rhif 48, Miss Eileen Williams, 37 Rhydfadog; £8.50: rhif 5, Mr Albert Parry, 45 Pentre Helen.

Nos Fercher, Ionawr 18, cynhaliwyd noson yng nghwmni'r Cynghorwyr, gyda Mrs Pat Larsen yn cynrychioli Cyngor Sir Gwynedd a Mr Glyn Tomos yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned. Nid oedd y Cynghorydd Jacob James yn bresennol.

Yn y cyfarfod 'agored' hwn, cafodd pentrefwyr Deiniolen a Dinorwig gyfle i holi'r rhai sydd yn eu cynrychioli. Cadeirydd y cyfarfod oedd Mr Gwyn Parry.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynnyddol yn y Ganolfan ar Ragfyr 5 gyda Miss Ellen Owen, Bontnewydd yn VCO y flwyddyn hon gyda dwy chwaer yn ei chynorthwyo sef Mrs Edwards a Miss Owen.

Croesawyd hwy gan y llywydd sef

Mrs Rita Jones a darllenodd y llythyr misol. Darllenwyd y cofnodion llawn o'r flwyddyn hon gan yr ysgrifennydd. Cafwyd adroddiad ariannol gan Mrs Eirlys Lloyd Jones y trysorydd. Enwebwyd ar y pwyllgor y rhai a ganlyn - Llywydd: Mrs Rita Jones; Is-lywydd: Mrs Eirlys Lloyd Jones; Ysgrifennydd: Mrs Beti Wyn Davies; Trysorydd: Mrs Elen Hughes. Pwyllgor - Mrs Beryl Hughes, Mrs Marian Wyn Williams, Mrs Marian Williams, Miss Jennie Eirlys Williams, Miss Beti Williams, Mrs Maureen Evans.

Diolchwyd i Miss Owen a'i chynorthwywyr gan Mrs Beti Jones, Y Becws. Rhoddwyd y te gan y pwyllgor. Enillwyd y raffl a oedd yn rhoddedig gan Mrs Rita Jones a Miss Kathleen J. Jones gan Mrs Nancy Rowlands a Mrs H.J. Thomas. Datganwyd cydymdeimlad â Mrs Beryl Hughes ar golli ei modryb a Mrs Marian Williams ar golli ei mam yng nghyfraith. Dymunwyd yn dda i Miss Kathleen J. Jones a Mrs Marian Williams ar ôl iddynt dderbyn triniaeth mewn ysbyty.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Ionawr 9 gyda'r llywydd yn arwain a darllenwyd y llythyr misol. Darllenwyd y cofnodion gan yr ysgrifennydd. Cafwyd noson ddifur iawn gyda Mrs Len Hughes yn rhoi cwis i ni. Diolchwyd i Mrs Hughes gan Mrs Rita Jones, Y Becws a chydymdeimlwyd â Mrs Gwen Hughes hefyd ar golli ei modryb. Croesawyd dwy aelod newydd sef Mrs Mary Jones, 4 Penllyn a Mrs Dilys Williams, 61 Pentre Helen. Rhoddwyd y te gan Mrs Jane Jones a Mrs Dilys Williams.

Enillwyd y raffl gan Mrs H.J. Thomas. Bydd y cyfarfod nesaf Chwefror 6 am 6.45 o'r gloch pryd y dangosir ffilm gan Miss Moeller, Clwt-y-bont.

LLUNIAU O'R CHWAREL



Llun a dynnwyd yn Chwarel Dinorwig (Steam Mills) rywbryd ar ddechrau'r chwedegau. Rhes ôl: Ivor Rhos Ddu (Bethel heddiw); Arfon Jones, Deiniolen, B. Roberts, Deiniolen; Islwyn Jones, Fachwen; Wil John Weirglodd Las, Penisarwaun; Gwilym Parry, Fachwen. Rhes flaen: R.O. Williams, Deiniolen; Hywel Griffiths, Rhiwlas; J.E. Jones, Llanrug; Cyril Price (Fron); W.O. Williams, Tŷ Capel Disgwylfa (perchennog y llun). Mae nifer o'r rhai yn y llun bellach wedi marw.



Diolch i Mrs Laura Harrison, Cynlas, Bro Gethin, Betws-y-coed am y llun uchod. Mae brawd Mrs Harrison, sef John Moi, Hebron, Llanberis ar y dde yn y rhes ôl. Pa bonc? Pa flwyddyn? Pwy yw'r lleill? Oes rhywun yn gwybod?

DOSBARTH AMBIWLANS LLANRUG



Dosbarth genethod 'St John's Ambulance' Llanrug 1940-49. Tynnwyd y llun i yng ngwersyll Pwllheli ym 1947, gyda Superintendent Owen Eryri Williams, Superintendent Lily Williams a Nursing Officer Frances Williams.



Enillwyr Tarian Gwent yn Eisteddfod Genedlaethol Machynlleth 1937. Aelodau'r tîm oedd: Dorothy Jones, Gwennie Griffith, Maggie Lizzie Parry, Hannah Dilys Evans a Blodwen Jones, gyda Superintendent Lily Williams a Tom Owen fel y 'claf'. Roedd y Darian yn pwyso dros 100 pwys.
ISOD: Y tîm buddugol ym Machynlleth.



Y lluniau gan Mrs L. Clarke, Isgaer, Pontrhythallt.

Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .



Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen
Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652

CLOCH YSGOL BRYN ERYR



Dyma lun o gloch Ysgol Bryn Eryr, Llanrug. Canwyd y gloch am y tro olaf ar ddydd cyhoeddi'r heddwch ar ddiwedd y Rhyfel ddiwethaf.

(Parhad o dud 4)

EI CHRED A'I CHREFYDD

Mynych a chwerw fu ei phrofedigaethau ar hyd ei hoes, ond er y trallodion a'r gofid a'r hiraeth ni chollodd ei ffydd. Y Beibl oedd ei chynhaliath bob tro. Yn yr oriau tristaf gallai droi at ei Beibl i chwilio am rhyw adrodd neu adnodau i'w chysuro. Gallai droi at ei Duw mewn gweddi unrhyw amser yn ei chartref.

Ni welodd Siân Dafydd Ysgol Sul tan iddi ddod i'r Ddôl-tŷ-du, lle'r oedd y teulu yn ddeiliaid cyson o'r Ysgol Sul yng Nghapel Coch. Drwy berswad ei mam yng nghyfraith ymunodd yn yr Ysgol Sul a bu'n ffyddlon i'w chrefydd hyd ddiwedd ei hoes. Byddai'n cerdded ar y Sul hwyrach i'r Fachwen, neu i'r Waunfawr neu Lanrug i wrando pregeth yn y bore ac yna i Gapel Coch i'r moddion yn yr hwyr.

Cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi yng nghegin Bryn Clyd yn aml iawn, a thrigolion y tyddynnod y Clegir yn ymgynnull yno. Roedd llawer o blant ifanc yn y Clegir, a chasglai Siân Dafydd yr holl blant i'w chartref a'u dysgu i ddarllen un neu ddwywaith yn ystod yr wythnos. Byddai W.O. Michael, gŵr tawel a charedig yn cerdded i fyny i'r Clegir o'r Llwyncoed i hyfforddi'r plant.

Daeth afiechyd i Fryn Clyd a rhoddwyd terfyn ar yr Ysgol Sul am amser. Daeth 'Diwygiad Beddgelert' ac ailddechreuwyd yr Ysgol Sul ym Mryn Clyd. Aeth y gegin yn rhy fach ar gyfer yr holl blant ac oedolion a ddeuai yno - a

symudodd yr Ysgol Sul i Allt y Celyn hyd Awst 1836 pryd y symudwyd i Gapel Bach y Clegir. Ni chollodd Siân Dafydd yr un oedfa Sul hyd y Sabboth olaf yn ei hoes. Roedd ei chlyw yn dal yn dda, ond yn 1872 syrthiodd ei meddwl ac aeth yn isel ei meddwl a bu'n beryglus o wael. Gwellhaodd a bu'n eithaf da ei hiechyd am ddwy flynedd, yn heini ei cherddeddiad a'i dyletswyddau.

Ond, yn sydyn ar nos Sul, Hydref 29ain 1874, ar ôl noson o fellt a tharanau, tarawyd hi'n wael yn y bore bach, ac yn dawel ar ôl ffarwelio â'r teulu i gyd bu farw, yn 86 oed.

Claddwyd hi ym mynwent Nant Peris.

Dyna hanes bywyd gwraig dda a duwiol, un garedig - un hoffus un a edmygwyd ac a barchwyd hyd y diwedd - nid gan ei theulu yn unig ond gan bawb yn y fro. Mae Bryn Clyd ar ei draed o hyd, yn gartref dros wyliau'r haf i ŵr a gwraig o Loegr. Nid oes fawr o wahaniaeth ynddo er dyddiau Siân Dafydd, ac wrth ymweld â'r bwthyn uncorn byddaf yn teimlo rhyw bresenoldeb rhyfedd yno. Mae Siân Dafydd mor fyw yn fy meddwl - byddaf yn dychmygu ei gweld yn wraig fechan a heini yn brysur ei thrafferth gyda'i theulu mawr. Y syndod i mi yw - sut y gallodd fagu'r holl blant mewn cegin mor fechan? Sut y gallodd holl blant y Clegir ymgynnull â'i gilydd i'r Ysgol Sul am gymaint o flynyddoedd - yn yr un ystafell? Ei ffydd hi a'i cadwodd yn gryf ei hysbryd eto yn addfwyn a charedig, yn gymeriad i'w chofio a'i hedmygu ac yn esiampl i bob teulu ar hyd y blynyddoedd.

AIL-FYW

Bu Robert Davies, Llanfairpwll (a drigai'n York Terrace pan yn blentyn yn y tridegau) ar daith i ddinas Bari, yn Ne'r Eidal.

Fe gyrhaeddodd yno erbyn yr 2il o Ragfyr, i ailfw'r profiad erchyll a gafodd pan fomiwyd y dre a'r harbwr gan y Luftwaffe. Roedd o'n forwr ar long-ddistryw HMS Leyland, ac wedi hebrwng tuag ugain o longau masnach i glydwch yr harbwr. Ond nid clydwch ond cyflafan a fu'r noson honno. Collwyd y rhan fwyaf o'r llongau masnach. Yn eu mysg long Americanaidd a oedd, fe welwyd wedyn, yn cario bomiau nwy marwol.

Effeithwyd ar lawer o griw y

Yn awr dan berchenogaeth

GWYNETH ROBERTS Siop

E.WILSON HUGHES

84 Stryd Fawr

LLANBERIS 870491

Daliwch i gefnogi fel o'r blaen!

Parhad o'r dudalen flaen.

o'r Saesneg gwreiddiol).

Er na fedrai'r Amgueddfa gynnal canolfan gymdeithasol bentrefol fel y cyfryw, yr oedd yn barod i ystyried rhai gweithgareddau lleol a fyddai'n gweddu i sefydliad o'r fath. Oherwydd siom trigolion Llanberis pan ddeallwyd na fyddai'n bosibl cynnwys canolfan bentref aml-bwrpas yn y cynllun gwreiddiol, cymerodd yr Amgueddfa gam pendant ac anarferol iawn: trosglwyddodd, gyda chaniatâd y Bwrdd Canolog Cynhyrchu Trydan, £90,000 o'r arian a dderbyniodd oddi wrth y Bwrdd er mwyn adeiladu estyniad sylweddol at y ganolfan gymdeithasol leol. Y

PEN-BLWYDD HAPUS, CYMRU DDI-NIWCLIAR

Dyma ddymuniad yr holl bobl a fydd yn mynd i Aberhonddu ddydd Sadwrn Chwefror 25 i ddathlu ail ben-blwydd datganiad Clwyd, yr olaf o'r wyth sir i fynd yn ddi-niwcliari 'nôl ym 1982.

Bydd y cannoedd a ymlwybra i Aberhonddu mewn modurgadau o bedwar ban Cymru yn cario cardiau ac arnynt enwau'r rhai sy'n methu mynd ond sydd eisiau cael eu cynrychioli yn y dathliadau.

Dechreuir gorymdaith o gwmpas y dre am chwarter wedi un o faes parcio Heol Alexandria. Wedyn, am hanner awr wedi dau bydd gwasanaeth arbennig yn yr Eglwys. Trwy'r prynhawn cynhelir gweithdai ac arddangosfeydd gan wahanol elfennau o gymdeithas yng Nghymru ar eu hymrwymiad i'r mudiad heddwch.

Digon i'w wneud, digon i'w weld a digwyddiad gwerth ei ddathlu.

ROFIADAU

Leyland a bu tua mil o farwolaethau yn y ddinas oherwydd y noson honno, llawer ohonynt drwy effeithiau'r nwy mwstard a ffrwydrodd yn gwmwl du, a nwy iasol.

Aeth Mr Davies i'r mynwentydd milwrol a gwelodd fedd bachgyn o Lanberis, Bertie Roberts, a laddwyd tra'roedd yn y fyddin. Ar y bedd oedd y pennill hwn:

Chwith na ches ddychwelyd i wlad y gân
Pell yw 'medd o Gymru, a bro Eryri lân.

Bu'n dweud yr hanes ar y teledu yn Bari, a chafodd sgwrs ar y radio yma hefyd. Cafodd yntau arteithiau, ond bu'n ffodus i ddod allan yn fyw o'r driasiedi hon.

mae'r estyniad hwnnw, gyda llaw, dipyn yn helaethach na neuadd Oriel Eryri ei hun. Gan ei bod eisoes wedi gwario'r arian hwn a drosglwyddwyd, yr oedd yr Amgueddfa, o ganlyniad, mewn dyled o £90,000 ac effeithiodd yn uniongyrchol ar y cynlluniau i ddatblygu'r Oriel y llynedd.

Y mae'r ffaith ein bod ni wedi trosglwyddo'r arian at ddibenion 'adloniadol' lleol sydd y tu allan i faes diddordebau'r Amgueddfa, wedi rhyddhau'r Amgueddfa Genedlaethol o unrhyw gyfrifoldeb pellach yn y mater hwn.

Gellid manylu, a dadlau am oriau dros fanylion, ond ofer fyddai hyn, a rhaid derbyn mai'r sefyllfa heddiw yw bod gennym gangen newydd, ogleddol o'r Amgueddfa Genedlaethol yn Llanberis, cangen fydd yn canolbwyntio ar natur a gwyddorau'r amgylchfyd. Y mae'r Amgueddfa yn benderfynol o'i thro'i'n llwyddiant ond rhaid bod yn amyneddgar yn wyneb sefyllfa ariannol echrydus y wlad. Rhoddodd y Swyddfa Gymreig sêl ei bendith ar y fenter flynyddoedd yn ôl, ond ni ddaeth arian i ddilyn eto. Y mae meysydd lle gall yr Amgueddfa gydweithredu a rhoi cymorth i garfannau o'r gymdeithas leol.

Fe welodd Mr Ken Jones dystiolaeth o ddyfalbarhad yr Amgueddfa Genedlaethol dros y dair blynedd ar ddeg diwethaf yn llwyddiant Amgueddfa Lechi Cymru yn y Gilfach Ddu. Fe roir yr un sylw i Oriel Eryri er fod yr arian yn llawer prinnach yn awr nag yn y saithdegau. Y mae'r dasg hon, felly, yn anos na'r un a wynebwyd yn y Gilfach Ddu. Nid yw'n amhosibl, serch hynny. Wedi'r cwbl, er y bydd budd i blant ac oedolion gogledd Cymru gyfan, daw'r elw mwyaf o fenter fel hon i bentre a thrigolion Llanberis ei hun.

Un sylw bach i orffen. Mewn sgwrs ar y stryd yn ddiweddar gwnaeth un o drigolion Llanberis sylw mai 'dim ond rhyw 'chydig o luniau adar a choed sydd yno'. Wedi holi ymhellach gwelwyd na fu'r person hwnnw ar gyfyl Oriel Eryri erioed! Estynnaf groeso i chi ddarlennwyr *Eco'r Wyddfa* na fu yn yr Oriel hyd yma i ymweld â hi pan agorwn ein drysau nesaf, ac os oes gennych feirniadaeth wedi'r ymweliad, yna byddaf i, Dr Llŷr Gruffydd, a phwyllgor yr Oriel yn falch o dderbyn eich sylwadau.

D.A.BASSETT, Cyfarwyddwr, Amgueddfa Genedlaethol Cymru

BEIRDD A LLENORION BRO YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL

Ym mis Awst eleni cynhelir yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanbedr Pont Steffan a'r Fro. Un ffordd o geisio mesur cyfraniad unrhyw ardali ddiwylliant eingwlad yw trwy gyfrif y nifer o feirdd a llenorion sy'n byw ac wedi byw o fewn ei ffiniau. Mae bro'r Eisteddfod eleni yn arbennig o gyfoethog yn yr agwedd hon.

'Rhif y tywod mân' - ddoe a heddiw. Dim ond enwi - Dafydd ap Gwilym (cofiwch mai fel Dafydd Glan Teifi yr oedd llawer o'i gyfoeswyr yn cyfeirio ato); Lewis Glyn Cothi; Edward Richard; Ieuan Brydydd Hir; Lewis Morris (Llywelyn Ddu o Fôn, ie, ond bu'n byw yng Ngheredigion am chwarter

canrif olaf ei oes!); Daniel Ddu o Geredigion; Dafydd Dafis Castell Hywel; Cerngoch; Williams Pantycelyn; y Ficer Pritchard; Dafydd Jones o Gaeo; Sarnicol; Beirdd y Mynydd Bach - J.M. Edwards, Prosser Rhys, B.T. Hopkins; Beirdd Ffair Rhos - Evan Jenkins, Dafydd Jones, W.J. Gruffydd; Dewi Emrys, Kitchener Davies; Bois y Cilie; D.J. Williams; Idwal Jones; Jacob Dafis. Ac y mae pump o brifeirdd cyfoes yn byw yma 'nawr - Donald Evans, W.J. Gruffydd, T. Llew Jones, Dafydd Jones, Dic Jones. Gwelir cystadleuaeth arbennig yn adran Gelf a Chrefft wedi ei seilio ar waith y pump yma.

CYNHADLEDD UCAC YN LLANBERIS



O'r chwith i'r dde: Rhys Parri (Brynyrefail gynt), Penri Jô, W. Lloyd Davies, a Mel Williams.

'CHWARA PLANT'



Perfformiad Theatr Bara Caws yn Llanrug ym mis Rhagfyr.



SNOWDONIA FIRE PROTECTION

YR HEN EFAIL
WAUNFAWR Ffôn 235

Offer Diffodd Tân - Masnachol ac i'r Cartref
Goleuadau argyfwng Larwm Tân
Offer canfod mwg ar gyfer y cartref
Dewch i weld ein siop newydd - ar fin agor

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Mary Davies, 9 Llys-y-gwynt (872329)

EGLWYS SANTES HELEN: Cydymdeimlwn â theulu Perthi ym marwolaeth eu modryb, Miss Blodwen Williams. Rhoddodd y teulu flodau i addurno'r eglwys dros Wyl y Nadolig er cof am Miss Williams, ac 'roeddynt yn hardd iawn. Cydymdeimlwn hefyd gyda Mr Owen Thomas yn ei brofedigaeth o golli ei chwaer, Miss Maggie Thomas, Tan-y-coed gynt a fu farw ar ddydd ei phen-blwydd yn 90 mlwydd oed.

Hefyd cydymdeimlwn â Mr J.W. Jones a'r plant, 8 Bryntirion yn eu profedigaeth sydyn. Bu farw Mrs M. Jones fore Mercher, Rhagfyr 28 a chladdwyd hi ym mynwent y plwyf ddydd Llun, Ionawr 2.

Rydym yn falch o glywed fod Mrs Owen Thomas, Tai Newydd wedi dychwelyd o'r ysbyty ar ôl derbyn triniaeth ar ei phen-glin. Hefyd bu Mrs N.M. Pritchard, Bryn Hyfryd yn yr ysbyty am ychydig ddyddiau. Deallwn fod Mr J. Pritchard, Pensarn wedi bod yn yr ysbyty hefyd. I chwi a phawb sy'n cwyno o ryw afiechyd dymunwn adferiad buan i bob un ohonoch.

Gwellhad buan: i Mrs Palie, Shop Gron. Mae hithau wedi bod yn yr ysbyty ym Mangor.

Cydymdeimlwn â Mrs Helen Owen, Bryn Hyfryd a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl, sef y ddiweddar Mrs Eirwen Roberts, 12 Llys y Gwynt. Roedd Anti Eirwen, fel yr adwaenid hi gan bawb, yn gymeriad hoffus iawn. Fe gollodd Misses G. a C. Griffiths, Commercial House eu brawd yn y Felinheli. Cydymdeimlwn â hwythau hefyd. Yr un yw ein cydymdeimlad gyda Mrs Alice Thomas, Tai Arthur, wedi colli perthynas yn Neiniolen, a Mr Ron Hughes, 1 Bryn Hyfryd wedi colli ei fodryb yn Awstralia. Hefyd Mrs Ellis, Glan Arthur wedi colli ei thad.

Dymuniadau da i Wil, Nerys a Clive yn eu cartref newydd yng Nghaernarfon.

Da yw gweld Mr M. Thomas, Bod Awen o gwmpas eto. Gwellhad buan i chwi.

DIOLCH: Fe garai Mrs M.J. Roberts, Tai Croesion ddiolch yn fawr am y cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn ddiweddar.

Hefyd mae Len a Carol Porter yn diolch am y cardiau ac anrhegion a dderbyniodd eu merch fach Nia.

LLONGYFARCHIADAU: Mr a Mrs D. Roberts, 10 Bryntirion ac hefyd Mr a Mrs R. Williams, 20 Bryntirion ar fod yn daid a nain unwaith eto.

CROESO: cynnes i'n plith i Carys ac Arwel Jones, Olwen a Dafydd sydd wedi symud i fyw i Bant Hywel.

DIOLCH: Fe dymuna Aled a Helen, plant y ddiweddar Mrs Eirwen Roberts, 12 Llys-y-gwynt ddatgan eu diolch i'r teulu, ffrindiau, chymdogion a'r ardal am bob arwydd o gydymdeimlad, rhoddion, cardiau blodau. Hefyd am bob caredigrwydd i'w mam yn ei gwaeledd. Diolch o galon i bawb.

Ddydd Mercher, Ionawr 4 bu farw Mrs Eirwen Roberts, 12 Llys-y-gwynt yn ysbyty Môn ac Arfon. Bu'r angladd yng nghapel Ysgoldy ddydd Sadwrn Ionawr 7. Gweinyddwyd gan y Parch R.W. Roberts, Deiniolen a rhoddwyd ei gweddillion i orwedd ym mynwent Macpela.

Y galarwyr oedd Aled a Nellie (mab a merch yng nghyfraith), Helen a David (merch a mab yng nghyfraith), Roy a Sharon (wyr ac wyres), Mrs Annie M. Hughes a Mr a Mrs T.E. Jones (chwiorwydd a brawd yng nghyfraith), ynghyd â llawer o deulu, ffrindiadu a chymdogion. Yn cynrychioli Ysgoldy roedd Mr Emyr 12

W. Williams a Mr Robin Griffith (blaenoriaid. Mrs J. Griffith oedd wrth yr organ.

Rhoddwyd blodau gan Aled, Nellie a Roy; Helen, David a Sharon; Annie May; Gwyneth a Twm; Teulu Lerpwl; Mary a'r hogiau, Llundain; Eddie, BEthan a'r teulu, Aberystwyth; Sandra a Jennifer; Freda a Jack Nix; Pat, Arnold a Fiona; Mair a'r teulu Bethel; Eilian, Valerie a'r plant; Cyfeillion a Chymdogion Llys-y-gwynt; Bessie a Griff, Sioned; Sioned a Llion; Nan, Gwilym, Myfanwy, Medwyn a Manon; David, Ann ac Alun; Dewi a'r teulu 5 Llys-y-gwynt, Jennie, Wil a Robin; Sydney, Roy ac Arwel; Anwen a Dylan, Meillionydd; Dick, Joan a Ruth; Eirlys, Nathan, Clifford, Brenda, Jonathan a Ken, Ella a Fred Bangor; Idris, Valerie, Gwyn a Mary; Annie May; Theta a theulu Mynydd Llandegai; Gwenda a'r hogiau; Margaret, Alwyn a'r teulu; Gwenllian, Iwan a'r teulu, Tawelfa; Annie Ceinwen a Gwyneth; Nellie May a Robin; Maldwyn, Christine ac Eleri; Plyllis ac Emyr; Valmai, Gwilym, Dylan a Gwawr; Blodwen, Basil a Lydia; Ceri, Eddie a'r hogiau; Iow, Mari, Dylan a Gethin; Maggie, Dafydd, Bet, Ron, Bronwen a Kevin; Carys a Flifford, Ella a Derlwyn; Mr Freeman; Bet, Lilian ac Elwyn; Stephen a Barbara.

YSGOL TANYCOED: Pantomeim: Ymwelodd pymtheg ar hugain o'r plant â'r pantomeim 'Dyfroedd Dyfnion' yn Theatr Gwynedd ddechrau'r flwyddyn, ac mae'n ymddangos i bawb fwynhau eu hunain yn fawr.

Glynlifon: Bu Sarah Lloyd, o Safon 3 yn treulio wythnos ar Gwrs Dysgwyr yng Nglynlifon.

Ymweld: Ymwelodd plant Safonau 2, 3 a 4 ag Angorfa, sef hen gartref T. Rowland Hughes yn Llanberis, fel rhan o'u cwrs addysg.

EISTEDDFOD Y PENTREF: Cawl a chân gydag Arwel Jones, Pant Hywel, nos Wener, Mawrth 9 am 6.30 o'r gloch. Tocynnau 25c (oedolion) 10c (plant a phensiynwyr).

Bydd y rhestr testunau ar gael cyn bo hir. Mae'r pwyllgor yn derbyn rhoddion tuag at gostau'r eisteddfod. Gellir eu hanfon cyn Ebrill 30 i Mr Tegid Roberts, Mrs Pat Jones neu Mrs Elizabeth Jones. Yn ogystal bydd y tri uchod yn dod o gwmpas i dderbyn rhoddion yn ystod y gwanwyn.

CYSTADLAETHAU NEWYDD YN EISTEDDFOD GENEDLAETHOL LLANBEDR PONT STEFFAN A'R FRO 1984

Yn yr Adran Adrodd - mae cystadleuaeth newydd sbon - sef 'Dweud celwydd golau'. Efallai y bydd hyn o ddiddordeb i rai mewn bro chwarelyddol fel y fro hon ble y mae peth traddodiad yn y maes.

Yn yr Adran Gerdd - mae Emyr-dôn i gystadleuwyr dros 60 oed. Dyma gystadleuaeth boblogaidd mewn eisteddfodau ar hyd a lled y wlad, ond dyma'r tro cyntaf iddi gael ei chynnal yn y Genedlaethol.

Yn yr Adran Gelf a Chrefft - cystadleuaeth Gartwn - cyfle i'r arlunwyr yn ein plith i wneud tipyn o sbort am ein pennau ni'r Cymry sy, gan fwya', yn or-ddifrifol.

O'R CYMRO, EBRILL 4, 1957



Unwaith eto eleni daeth tymor y Nadolig â thristwch i nifer o deuluoedd ym mro'r Eco gyda marwolaethau perthnasau a chymdogion. Fel y gwelir yng nghlofn Penisarwaun un o'r teuluoedd hyn yw teulu Mr J.W. Jones, 8 Bryntirion. Bu farw Mrs Maria Jones ar Ragfyr 28. Roedd Mrs Jones yn fam i 13 o blant a'u dymuniad hwythau oedd i'r Eco gynnwys copi o'r llun uchod, a ymddangosodd yn Y Cymro ym mis Ebrill, 1957, fel teyrnged i'w mam.

Tynnwyd y llun y tu allan i hen gwt ym Mhontrug oedd yn gartref i Mr a Mrs Jones a'r teulu ar un adeg. Roedd y teulu yn byw yng Nghae Gledwyn, Pontrug, lle y gweithiai Mr Jones. Gosodwyd y tŷ iddo oherwydd ei waith, yn magu a

gofalu am gannoedd o foch i'w gyflogwr (perchennog y tŷ). Pan gollodd Mr Jones ei swydd, bu'n rhaid i'r teulu symud o'r tŷ i'r cwt a welir yn y llun. Nid oedd tân yn y cwt ac roedd y waliau'n llaith. Roedd wedi bod yn hollol wag er o leiaf ddeuddeng mlynedd pan drodd olwynion yr hen felin botiau pridd, gerllaw, am y tro olaf.

Brodor o Frynrefail yw Mr Jones a deuai Mrs Jones o Lanrug. Ar ôl i'r teulu dreulio peth amser yn y cwt cawsant dŷ ym Mhenisarwaun. Ar y pryd 11 o blant oedd gan Mr a Mrs Jones.

Mae cynnwys y llun a'r stori am gyfnod anodd iawn yn hanes y teulu, a hwythau ar hyn o bryd yn profi cyfnod anodd arall, yn ffordd addas i'r plant gael coffáu eu mam.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL RHYL A'R CYFFINIAU 1985

Adran Ddrama - Cystadleuaeth Actio

Mewn ymdrech i gynyddu nifer y cystadleuwyr yng nghystadlaethau actio drama yn yr Eisteddfod Genedlaethol, mae Osian Wyn Jones y Trefnydd yn apelio, drwy'r papurau bro am wybodaeth ynglŷn â chwmnïau lleol ledled Cymru. Felly, chwi swyddogion cwmnïau drama y fro hon cysylltwch yn

ddi-oed â'r Trefnydd (cyn Chwefror 28) a chewch fanylion ganddo ynglŷn â'r cystadlaethau actio. Anfonwch ato yn Swyddfa'r Eisteddfod, Siambrau Banc y Nat West, 15 Stryd y Farchnad, Y Rhyl, Clwyd LL18 1RN. Ffôn 0745 36736.

EISIAU CLIRIO'R Tŷ?
Am gael gwared â hen
ddodrefn, celfi ac ati?

Os am werthu neu
brynu cysylltwch
gyntaf â

BRIC A BRAC

(David a Dilys Evans)

Ffordd yr Orsaf

Ffôn Caernarfon

76685

**YN ARDAL ECO'R
WYDDFA,
AR GARREG EICH DRWS**

**AM FFENESTRI
DRYSAU
GRISIAU**

neu unrhyw fath
o gynnyrch coed
ffoniwch

BRYN

LLANBERIS 870793

**B & K WILLIAMS
TANRALLT
CWM-Y-GLO**

GORONWY OWEN YN YMWELD Â TUNISIA

Cerddasom o'r bws bach oedd wedi'n chwirlïo a'n taflu o gwmpas am dros awr, ar y ffordd o'r maes awyr. Yn lle goleuo'r llwybr cul, pwysleisia'r lampau bychain isel, y cysgodion tywyll, ym moncyffion y coed ac yn y dail trwchus uwchben. "Be ydy hwnna? Be ydy'r ogle 'na?"

Arhosodd fy ngwraig a minnau, wedi'n parlysu gan y peraroglau oedd fel mur o'n hamgylch. Blodeua yr amryw lwyni o'n cwmpas, ac roedd eu persawr hyfryd yn syfrdanol. Droeon, yn sgil Nan, cerddais yn ddigon anfodlon rhwng cownteri 'pethau pincio merched' yn siopau mawr Caerdydd ac Abertawe gan grychu fy nhrwyn, ond roedd hyn yn brofiad gwahanol, fel eistedd wrth ochr coeden o rosod 'Fragrant Cloud' neu 'Josephine Bruce', ar noson braf o Fehefin.

Bore wedyn, deffrowyd fi gan geiliog yn clochdar yn ddibaid. Fel yr oedd e'n tawi, dechreuodd adar y to drydar, (maen nhw 'mhob man) ac ar draws y cwbl dyma un o gantorion y wig gorau a glywais erioed yn dechrau dangos ei fedrusrwydd, yn rhedeg ei gân i fyny ac i lawr yr octif fel gitâr o Hawaii, yn byrlymu canu un eiliad, a'r eiliad nesaf yn dweud stori hefo'i nodau. Rhaid oedd i mi nid yn unig wrando arno, ond hefyd godi i geisio ei weld. Wedi gwylïo'n ofalus heibio ochr y llenni, sylwais mai aderyn bychan du pigfelen tebyg i'r fwyalchen ydoedd yn hawlio'i diriogaeth ar balmwydden, tu allan i'r ffenestr. Credaf ei fod rhyw fath o'r 'mynah', ond ni allaf fod yn sicr.

Gwlad hyfryd yw hon, ble mae Mynyddoedd yr Atlas yn terfynu a gwastatir eang yn cymryd drosodd, gwlad o wrthwynebiadau, o westai hardd coeth a chytiau mwd, o berllannau ffrwythlon a tir diffaith, o ddillad Iwropeaidd a gwisgoedd Arabaidd.

Ryden ni'n dau'n lwcus i gael ychydig o ylliau yma, ac yn mwynhau pob eiliad - hyd yn oed y glawogydd trwm sydd mor angrheidiol i'r trigolion i dyfu eu cnydau a'u ffrwythau. Edrychaf heibio'r bwganfilia, yr hibiscys a'r jasmin at ffug finaret sy'n disgleirio fel tŵr o eira ym mhelydrau'r haul. Er mai diwedd mis Tachwedd ydyw, eisoes buom yn nofio yn y môr cynnes, yn torheulo allan o'r gwynt ac yn cerdded yn hamddenol o dan y coed orennau a'r palmwydd gwyrdd sydd yng ngerddi'r gwestai.

Mae'r brodorion yn hynod o gyfeillgar a chwrtais, ond yr un pryd yn eithaf parod i'm goreuo mewn bargaen. Heddiw, cododd hogyn ifanc grocbris arnaf am ddau bostcard, ar ôl i mi edmygu ei allu i siarad saith iaith - fe'i clywais i e'n siarad pedair.

"Faint ydy hwn?"

"Pum Dinar, ac mae o'n rhad."

"Pump. Bobol mawr. Mae o'n llawer rhy ddrud. Un Dinar."

"Pedwar."

"Dau."


"Tri a hanner," ac felly 'mlaen. Gwyddwn o'r gorau ei fod yn dal i wneud elw. Yn wir, roedden nhw'n sicr o elw wrth roi anrheg i chi. Sôn am Ddyfal Donc. Roedden i wedi hen laru ar ddweud "Dim diolch, Dim Diolch, Lair, moush mumkinn." Mae mymryn bach o iaith y wlad yn gymorth weithiau.

"Allah akabar." Gwên fawr. Ydy mae Duw yn fawr, gwerthu neu beidio.

Pinacl eu siopau yw eu carpedi - carpedi o wllân wŷn, wedi cymryd misoedd i'w gwau gan y merched, merched sy wedi dysgu'r patrymau cywrair lliwgar i gyd ar eu cof. Efallai bod llawer ohonynt yn ôl ein safonau ni yn ddi-ddysg, ond mae rhaid fod iddynt allau mathemategol neilltuol i wneud y fath waith, i gyd o'u cof.

Yn yr un modd, edmygaf y teils sy'n addurno eu muriau. Oherwydd eu crefydd, sef Islam, gwaharddwyd iddynt ddefnyddio un nai'r ffurf ddynol na'r anifail yn eu harlunio. Felly, aethant ati i ddatblygu 'geometry' i'w berffeithrwydd, gan ei drosglwyddo i waith carreg ffligri, neu ffurfiau lliwgar cytbwys mewn teils mân, sy'n newid eu gwedd fel y newidia goleuni'r haul.

Yn yr Amgueddfa yn Tunis, agorwyd llygaid y ddau ohonom wrth gerdded o oriel i oriel, yn rhyfeddu ar y darluniau mosaic a gariwyd yn eu crynswth o Carthage - lloriau a muriau cyfan wedi eu hail osod o dan nenfwd palas y Bey. Ni chyfyngai y 'Phoenicians' eu gwaith celf hefo defodau crefydd, a wnes i erioed ddychmygu y gallai darluniau mor fyw ac



Safai yr hen felin olewydd hon yng ngardd y gwesty. Cerfiwyd y cawg allan o un maen, a fesurai tua pum troedfedd ar draws. a thua dwy droedfedd o uchder. Yn sicr, bu'r gwaith gofalus o'i naddu yn llafurus a blinderus, a thrueni mewn un ffordd yw ei gweld yn segur, heb asyn bychan yn ei throelli, ond yr un pryd mae'n wrthrych atyniadol i'r holl ymwelwyr.

mor gywrair gael eu llunio allan o fân gerrig. Maen nhw'n odidog, ac i feddlu eu bod rhwng dwy a thair mil oed.

Kairouan yw eu tref grefyddol. Cerddais ar hyd ei hystryd hir droellog, lle roedd ambell i gar, moto' beic neu asyn llwythog yn gwthio'u ffordd drwy dyrfa drwchus. Ar bob ochr roedd gweithwyr lledr, copr, coed, haearn, arian a gwllân yn un losgows hefo siopau dillad, ffrwythau, llysiau a bara. Roedd hi'n bleser i fod yn un o'r dorf, y plant wedi'u gwisgo fel plant Cymru, yn cerdded adra ar ôl rhyw dair awr o ysgol, hefo'u bagiau, bechgyn a merched ifanc yn eu 'jeans' a'u 'joggers', ambell i wr ifanc mewn siwt fodern, a'r rhan fwyaf o'r merched â lliain gwyn ysgafn dros eu dillad bob dydd. Yn eu mysg yn sefyll allan, roedd merched y Berberiaid, hefo'u dillad lliwgar sipsiaidd a'u clust-dlysau a'u modrwyau aur, a'r hen wŷr yn eu gwisgoedd draddodiadol, darawiadol, hyd yn oed os oedd ambell un yn gwisgo 'Green Flash' am eu graed, ac yn cymryd llawer o bwyll ac amser i brynu pâr o socs gwllân cynnes.

Tu allan i'r trefi mae'r ffordd yn ddiddorol hefyd. Chwyrllia'r bobl heibio mewn hen geir bratiog neu ar 'auto bikes'. Gwelais un o'r rhain yn cario'r gyrrwr, ei wraig, dau o blant bach a llond basged o neges. Gydag ochr y lôn, cerddai asynnod bach tenau, certiau mulod sigledig, ambell i gamel, a phlant neu ferched yn bugeilio gyrr o ddefaid neu eifr. Yn awr ac yn y man, mae siop bwtsiar hefo cig gwaedlyd yn denu pryfaid tu allan i'r drws neu siop ffrwythau lle mae orennau a lemoniaid wedi'u clymu yn gadwynau lliwgar uwchben y 'dates' a'r ffigys. Yma ac acw, mae dynion yn plannu tatws yng nghysgod perllan, a merched yn casglu ffrwyth yr olewydd ar flancedi sy wedi'u taenu o dan y coed.

Un waith yr wythnos, heidia'r bobl i brynu a gwerthu yn y farchnad. Dyma i chi ffair. Dillad, newydd ac ail law, llysiau a ffrwythau, speis (nytmeg a sinsyr a sinamon a mêl), llestri a lledr, cerrig a gwair, mulod a chamelod, esgidiau, darluniau a bagiau, welais i erioed y fath fargeinio a marchnata.

Amaethyddiaeth ydy gwaith hanner y boblogaeth, a thlawd iawn yw eu cartrefi. Gweithia rhai yn y gwestai, y siopau a'r mân ffatrioedd. Rhyw fis yn ôl, agorwyd pibell ddŵr sy'n rhedeg bron hyd y wlad i gario'r bywiol hylif i leddfu sychder y de. Ydynt, mae'r bobl hyn yn dlawd, ond ymfalchiant yn eu hiaith a'u diwylliant. "Mae pethau yn gwella o hyd. Duw fo gyda chwi."

Roedd ei wên siriol yn cuddio'r tlodi.

"Duw fo hefo tithau hefyd."

J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

A THREFNWYR ANGLADDAU

DEINIOLEN

Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)

Y FELINHELI 670124 (Nos)



**I DRWSIO'R
TELEDU
NEU'R
RADIO
FFONIOWCH...**

**Osmond
W. Shaw**
DEINIOLEN

Ffôn:

LLANBERIS 870545

**Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffonioch cyn 10 o'r
gloch y bore**

W.J. GRIFFITH

**PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG**

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

**GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP**



**Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.**

**Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.**

BETHEL

Gohebydd – Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

Ein cydymdeimlad â Geraint Elis a'r teulu yn eu profedigaeth o golli tad.

MERCHED Y WAWR: Nos Fercher, Rhagfyr 21 cynhaliwyd noson o ganu carolau yn y neuadd Bethel. Trefnwyd y noson gan gangen Bethel o Ferched y Wawr.

Arweiniwyd y canu gan Mrs Glenys Griffiths, a'r cyfeilydd oedd Ann Hopcyn. Cymerwyd rhan gan y Parchedigion W.R. Williams, Ronald W. Roberts, Erfyl Blainey a Richard Jones.

Gwnaed casgliad o £48 tuag at Gymdeithas y Spina Bifida a Hydrocephalus, a chyflwynwyd yr arian i Mr John Hughes, llywydd cangen Caernarfon o'r Gymdeithas.

Nos Fercher Ionawr 11 yn yr Ysgol cafwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn a nifer dda iawn o'r aelodau'n cynnal seiat wnïo. Diolchwyd i Mrs Meinir Roberts, Gwynfryn sy'n ymddiswyddo o fod yn is-ygryfennydd, Mrs Nia Humphreys, Tan y Cae sy'n cymryd y swydd. Yn y cyfarfod nesaf Chwefror 8 yn yr Ysgol mae'n ofynol rhoi enwau i'r ysgrifenyddes os ydych yn bwriadu dod i'r Swper Gŵyl Dewi.

CLWB Y MAMAU: Dyma enwau enillwyr raffl fawr y Clwb – (twrcei), Derwen, Parc y Wern; (cacen Nadolig) Bardsley Windy Corner, Bethel; (sheri) Delyth Williams, Monafon, Bethel; (nwyddau) Mr Ellis Dolgellau; (crackers) L. Wyn Roberts, 13 Snowdon St., Llanberis; (siocled) Mrs C. Jones, 40 Ffordd Cynan; (tocyn llyfr) Oscar Williams, Swyddfa Gymreig, Bangor; (pwdin Nadolig) Mansel Williams, 6 Cremlyn, Bethel.

Ymarfer Corff oedd y testun yng nghyfarfod Ionawr 25.

Os oes unrhyw bensiynwr o gylch Bethel, Seion a Llanddeiniolen heb dderbyn anrheg Nadolig a fuasent cystal â chysylltu â Mrs June Owen, Cadnant, Bethel. Ffôn: Portdinorwig 670754.

YR URDD: Eleni eto trefnwyd bws i fynd â 70 o blant yr Urdd a'u rhieni i'r Theatr ym Mangor i weld y Panto 'Dyfroedd Dyfnion'. Roedd y plant wedi mwynhau'r noson yn fawr iawn ac yn ddiolchgar i Llinos Wyn a Mrs Fanny Owen am wneud yr holl drefniadau.

Mae'r plant wedi dechrau ymarfer ar gyfer eisteddfod gylch yr Urdd a gynhelir Mawrth 10. Mae'r gân actol, dan hyfforddiant Mrs Ann Hopcyn yn ymarfer yn y Neuadd bob dydd Llun, dydd Mawrth a dydd Iau yn syth o'r ysgol. Gofynnir i'r rhieni roi bob cefnogaeth i'r plant gan obeithio y cânt gyrraedd y Genedlaethol eleni. **D.S.** Mae enwau cystadleuwyr unigol a phartion i fod i law erbyn diwrnod ola' Ionawr.

YR YSGOL FEITHRIN: Bu'r wythnosau diwethaf yn rhai prysur iawn yn yr Ysgol Feithrin. Ychydig cyn y Nadolig cynhaliwyd Bore Coffi llwyddiannus pan roddwyd perfformiad o ddrama'r geni gan y plant. Diolch i bawb am eu cefnogaeth a'u rhoddion hael a sicrhodd elw o dros £75 i'r Ysgol Feithrin.

Dathlodd y plant gyda pharti ar ddiwedd y tymor. Cawsant dynnu eu llun a daeth Siôn Corn ag anrheg i bawb.

Diolch yn fawr i 'Yncl Seiriol' am drwsio'r cwpwrdd tegau ac i 'Yncl Ieuan' am nifer o gymwynasau yn ystod y tymor.

Ymunodd tri arall â'r criw ar ôl y



Plant yr Ysgol Feithrin Bethel.

Nadolig gan wneud cyfanswm o 19 o lant yn yr Ysgol Feithrin – pob hwyl iddynt eto'r tymor yma yng nghwmni 'Anti Lynnen' ac 'Anti Rita'.

Y NEUADD: Diolch yn fawr iawn i bawb a fu wrthi'n brysur yn glanhau a pheintio'r Neuadd. Gobeithio, gan

fod cyflwr y lle wedi gwella cymaint yn ddiweddar, y gwelir mwy o weithgaredd yno yn y dyfodol. Os hoffai rhai o'r cymdeithasau yn y pentref ddefnyddio'r Neuadd i gynnal eu cyfarfodydd dylent gysylltu â'r ysgrifennydd, Mair Read, Llwydiarth, Bethel.

LLONGYFARCHIADAU: i Margaret Heddwyn Jones, 33 Bro Rhos ac Irfon Hughes, Penisarwaun ar achlysur eu priodas yn Eglwys y Santes Helen Penisarwaun yn ddiweddar.

Y CARNIFAL: Cynhelir cyfarfod cyhoeddus yn y Neuadd nos Lun Chwefror 6 am 7.30 i ystyried y trefniadau ar gyfer Carnifal 1984.

Erfynnir am bresenoldeb pawb sydd â diddordeb. Ers blynedd oedd mae'r carnifal wedi cael ei drefnu gan grŵp bychan iawn. Byddai'n dda cael gwaed newydd a mwy o ddwylo i helpu.

MARW MR HUGH ALUN JONES

Ar Ionawr 15 yn ei gartref yn 72 Lambeth St., Panania, Sydney, Awstralia bu farw Mr Hugh Alun Jones yn 76 mlwydd oed. Ymfudodd Mr Jones a'i deulu o Tan Merddyn, Ceunant, Llanrug ym 1958. Bu Mr a Mrs Jones ar ymweliad â'r cylch droeon ar ôl gadael, y tro diwethaf yn ystod haf 1982. Cadwodd gysylltiad clos iawn â'r ardal ac edrychai ymlaen yn fawr iawn at dderbyn yr Eco yn rheolaidd. Gedy weddw, Mrs E. Jones, tair merch, Brenda, Margaret a Cynthia, un mab Douglas a'u teuluoedd yn Awstralia, dwy chwaer yn Bethesda a Dolgarog a llu mawr o deulu a ffrindiau ym mro'r Eco. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

DRAENOG



Tydi bywyd priodasol yn mopio pennau rai o'r merched ifanc 'ma dudwch! Dyna chi'r un o Ddeiniolen a anfonodd y sychwr gwallt yn lle siwt orau ei gŵr mewn bag i'r drai clinrys. Gwall' go, te?



Côr Cadnant gyda'i harweinydd Mr Robin Jones sy'n ymarfer yn yr ysgol ym Methel bob nos Sul am 8.00.

BRYNREFAIL

Gohebydd: Dafydd Ellis, Gweledfa (871223)

Hasson am lwyr wellad yn fuan.

CLWB PEDWARUGAIN – Enillwyr mis Rhagfyr:

Rhagfyr 2 – 1. Shirley Roberts 2. Audrey Roberts 3. John Orwig Jones. Rhagfyr 7 – 1. Islwyn Williams 2. Moira Ellis 3. Betty Owen. Rhagfyr 16 – 1. Sue Jones 2. Helen Roberts 3. Dwynwen Owen. Rhagfyr 23 – 1. Wilburt Williams 2. Glyn Owen 3. Maldwyn Jones. Rhagfyr 30 – 1. Sylvia Williams 2. Derek Davies 3. Gwyn Mowl.


PRIODAS – Llongyfarchiadau i Dwynwen Owen, Tros yr Afon, Brynrefail, ac Iddwal Glyn Williams, Elidir View, Cwmyglo ar eu priodas ar Ionawr 7. Byddant yn ymgartrefu yn Llanrug ac rydym yn dymuno pob hapusrwydd iddynt yn y dyfodol.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Yng nghyfarfod y mis yn yr hen ysgol fach, bu'r aelodau yn brysur yn gwneud y fenter at gronfa ariannol y sefydliad yn y sir. Darparwyd y lluniaeth gan Carol Houston a Helen Jones, rhoddwyd anrheg y mis gan Rhian Jones ac fe'i enillwyd gan Gwyneth o Fethel.

CLWB Y MAMAU – Cafwyd noson o gystadlu arlunio trwy frethyn dan drefniant Carol Houston a Val Davies. Fe'i enillwyd gan Peggy Davies – a fu hefyd yn gyfrifol am y te gyda Sheila Williams. Rhoddwyd anrheg y mis gan Jenny Hughes, ac fe'i enillwyd gan Helen Jones.

Yn anffodus, oherwydd gwaeledd, fe orfu i Mrs Hasson roi'r gorau i'r swydd o fod yn drysorydd. Penodwyd Peggy Davies a Sheila Williams i gymryd y gwaith, gan anfon bob dymuniad da at Mrs

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



**Antiques
Ivy Cottage
BETHEL**

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

*Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol*

CYFLE I ASTUDIAETH LLAWN-AMSER

Coleg preswyl tymor-hir ar gyfer addysg oedolion yw Coleg Harlech, yn cynnig cyrsiau i ferched a dynion dros 21 – yn arbennig y rhai a adawodd yr ysgol yn gynnar – ym meysydd Llenyddiaeth Saesneg, Hanes, Economeg, Athroniaeth, Seicoleg, Gwleidyddiaeth, Cysylltiadau Diwydiannol, Cymdeithaseg, Astudiaethau Gymreig, Iaith a Llên Cymru a Llenyddiaeth Gymraeg.

Y mae cyrsiau Blwyddyn ar gael. Arwain cwrs dwy-flynedd i Ddiploma Prifysgol Cymru sydd a'i statws ei hun ac hefyd yn bodloni gofynion derbyniad Prifysgolion a Cholegau Politechnig ac addysg.

Ceir mynediad drwy gyfweiliad: nid oes angen cymwysterau. Y mae grantiau ar gael i fyfyrwyr.

Ysgrifennwch at y Cofrestrwydd, Coleg Harlech, Harlech, Gwynedd, LL46 2PU, am y Prospectwr a Ffurflen Gais.

COLEG HARLECH

DYFODIAD TE I GWM DYLI

Boed hi'n ddydd Gŵyl neu'n ddiwrnod gwaith mae cael 'panad' wedi mynd yn beth pwysig iawn yn ein bywydau ni. Mae'r 'banad' gynta yn y bore, boed hi o grombil y peiriant bach wrth ochor y gwely sydd wedi'ch deffro chi neu o'r tepot yn y gegin, fel hen win, ar wefus yn'tydi? Wedyn mae hi'n 'banad' neu ddwy efo brecwast, 'panad ddeg' ar ei hôl hi, a wedyn 'dwn i ddim sawl panad drwy'r dydd.

Ys gwn i faint o ddarllenwyr Eco'r Wyddfa glywodd y stori am ddyfodiad te i Gwmwd Eryri am y tro cynta 'rioed yn yr unfed ganrif ar bymtheg?

Mi gefais i'r stori gan ffrind, Gwilym Roberts, Fron Oleu, Llanberis. Fo ddaeth ar ei thraws hi tra'n gwneud gwaith ymchwil i hanes ei hen deulu. Hen wr yn byw yn y Carneddi gyda'r enw barddonol Carneddog oedd wedi cronicle'r hen stori, a rhywbeth tebyg i hyn ddywedodd o:

Y Prysaidd oedd henafgwyr Cwm Dyli ac yr oeddynt yn wŷr deallgar, cyfrifol a pharchus gan bell ac agos.

Oddeutu Calan Mai yn y flwyddyn 1760 aeth yr hen Robat Prys, Cwm Dyli, yn ôl ei arfer, â throliad o ddefaid i ffair Dinbych. Clywodd yno sôn am rhyw ddiod deuluaid, fel y gelwid hi, yr hon oedd yn araf ddyfod o fri mawr drwy'r wlad yn gyffredinol. Er cael profi o'r drwyth, prynnodd Robat Prys hanner pwys o'r dail am driswllt mewn maelfa fechan yn Ffordd Henllan. Fe anghofiodd ymholi ynd ngyrch y rheolau manwl o wneud y ddiod.

Wedi dychwelyd gartre i Gwm Dyli hysbysodd Sioned Wiliam, y wraig, ym mys y pethau cyntaf o hanes y siwrne, ei fod wedi prynu hanner pwys o ddail y gwledydd pell i wneud rhyw ddiod, nad oedd nai hail na'i thebyg yn ôl pobol Dinbych. Aeth i logell ei glog a thynnodd y sypun te allan ar y ford gron oi blaen.

Yr hen wraig, yn llawn awyddfryd o weled y dail dieithr a frysiodd i agor y sypun ac wedi llygadu'n syn ar y cynnwys au daliodd yn hir wrth ei thrwyn. Yna llefodd, 'Wel Robat bach, 'does arogl yn y byd ar y rhain ac y ma' nhw mor sych a sgolodion'.

Atebodd Robat dan wenu, 'Rhaid Sioned Wiliam mai nid wrth eu golwg y mae barnu'r dail, fel ninnau wel di, ond beth waeth fuasem ni o roi prawf arnynt nhw'.

Wedi peth petrusder, gan nad gwyddent ar wyneb y ddaear pa fodd i wneud y sudd de'n briodol, cytunwyd i ferwi hanner y dail mewn chwart o ddwr yn y crochan ar ben y tan mawn, au troi yn wastad, fel berwi uwd.

Wedi eu berwi am oddeutu hanner awr ar danllwyth o fawn tynnwyd y crochan. Y pwnc dyrys iw benderfynnu yn awr oedd, pa un ai gyda'r dail sef yn gymysg, ai y dwr yn unig heb y dail, oedd y drwyth i fod. Barnwyd mai roddi prawf arnynt yn gymysg oedd y mwyaf naturiol. Felly tywalltwyd cynhwysiad y crochan yr hwn oedd yn ddu fel trwyth huddugl, i ddwy obart bren, i'r naill ar llall.

Wrth gwrs, fel arfer, bob amser gyda phopeth, yr hen wraig ai profodd gyntaf. Ar yr eiliad bron, crychodd ei thrwyn yn ddefosiynol gan ddweud, 'Mae o'n chwerw ofnadwy Robat'.

Yna yr hen wr a roddodd gynnig ar y ddiod ddieithr ond yn nwydwyllt poerodd ef allan oi enau gan ebychu 'Gwarchod pawb Sione Wiliam mae hwn yn sur hefyd, mae'n ganmil gwaeth na'r wermod lwyd. Ond yn wirionedd inna chredai ddim ein bod wedi ei wneud yn iawn, neu mae'n rhyfedd gennyf os dyma'r ddiod deuluaid oedd pobol Dinbych yn ei frolio wrthai a bod pawb yno yn ei hyfed'.

'Beth pe buaset ti'n gloewi'r dwr oddiar y dail 'ma Sioned i edrych sut

flas sydd ar y dail ei hunain tybad.'

Ufuddhaodd yr hen wraig yn y fan a meddyliodd mai'r peth hwylusaf iw gwahanu oedd yr hidlan laeth a phrysurodd iw chyrchu oddiar orsin carreg y drws. Safodd uwchben y crochan a thywalltodd yr hyn oedd yn ddwy obart i'r hidlan, hefyd y dwr du oedd ar ol yng ngwaelod y crochan.

Yr hen Robat Prys a flaenorodd yn y profi y tro hwn drwy gymeryd llwy biwter fawr a chodi ei llonnaid o gynnwys y crochan. Os drwg cynt gwaeth wedyn. Gwylltodd yr hen frawd yn gethin ulw las a dwedodd yn ddigofus, ai lygaid yn tanio, 'Yn boeth y bo rhywbeth fel hyn. Nis gwaeth gen i yfed dwr tatw un tipin, ond o ran hynny, cael fy ngwneud a ddarfum gan Gwn Duon Dinbych - y carsiwn diffaeth, twyllodrus, yn dwyn fy nhriswllt am rhyw ddail gwylltion fel yna. Tafl nhw allan o'm golwg i Sioned Wiliam.'

Teimla'r hen wraig mai braidd yn fyrbwyll oedd gwneuthur cais Robat yn union deg, a daeth meddylddrych newydd sbon arall, yr olaf - iw phen, gan gredu'n siwr yn awr yn yr hen ddywediad a glywodd ganwaith - mai y trydydd tro bydd coel. Dwedodd, 'Rwy'n meddwl yn siwr eto fyth, ein bod wedi camgymerid ein dau y troeon o'r blaen. Hwyrach mai y dail eu hunain sydd iw bwyta, fel sibols neu wynwyn ac nid i yfed eu trwyth. Mi profaf i nhw gyda thafell o fara haid i edrych sut archwaeth sydd arnynt nhw wedi berwi fel hyn.'

Ni chymerodd arno ei chlywed, chwaithach roddi iddi atebiad gan ei fod mewn tymer bur ddrwg oherwydd i Gwn Duon Dinbych ei dwyllo. Torodd Sioned Wiliam gulcun hir o'r dorth haid ac wedi rhoddi'n hael o ymenyn arno cymerodd ddyrmaid iawn o'r dail o'r hidlan. Taenodd hwy'n dew ar y bara gan bwyso arnynt ai bawd i'r ymenyn... Rhoddodd yr ysbail o dan ei daint gan araf gnoi a synfyfrio.

Cil edrychai Robat Prys megis odditan ei aelau ar seremoni'r hen wraig. Gwyliai'n fanwl ysgogiadau ei genau fel pe buasai'n ceisio darllen drwy ystum ei gwedd pa effaith a gawsai'r dail gwylltion yng nghymdogaeth ei chylla.

Ymhen ysbaid ymfflamychodd yr hen wraig ac meddai, 'Wel Robat bach, dwedais o'r blaen pan brofais yr hen ddail 'ma gyntaf eu bod mor sych a sgolodion. Dwedaf eto hefyd eu bod mor ddiflas iw cnoi a lledr fy nghlocsia. Yn wir rydwi wedi dod i'r un farn a thithau nad ydynt yn werth i ddim ond cyn eu taflu dros glawdd y drws Robat wyddost ti beth ruthrodd i'n meddwl pan yn eu cnoi - y geiriau hynny o eiddo Selyf Ddoeth 'Gwell yw pryd o ddail lle byddo cariad nag ych pasgedig a chas gydag ef'.

Yn ôl yr hen Robat Prys wedi cael ei dwyllo a lluchiwyd y chwarter te oedd ar ôl, i gefn yr hen gwpwrdd cornel.

Yno buo fo hyd noson fawr Gŵyl Boddi'r C'neuf yn hen ffermdy Cwm Dyli. Mi fu cryn helynt y noson honno hefyd ond stori arall ydi honno, ac fe gewch ei darllen eto yn Eco'r Wyddfa.

ATODIAD LLANBERIS

CLWB Y MAMAU: Yn y Ganolfan nos lau Ionawr 12 cyfarfu aelodau o'r clwb uchod a daeth cynulliad da iawn ynghyd i wyllo ffilmiau a gwrandao ar Uwchgaptan B. Martsten-Jones, Roland Leyland a dau arall o'r tîm Achub Bywyd sydd yn gweithredu ar yr Adran yma o Eryri. Roeddynt yn dangos ffilmiau gyda'r cŵn sydd ganddynt yn gweithio mor galed ar ochrau'r mynyddoedd ymhob tywydd. Cafwyd yn o'r nosweithiau difyr a gafwyd ers wythnosau. Llywyddwyd y noson gan Mrs M.L. Carr, a diolchodd i'r gwahoddedigion am eu gwybodaeth a'r difyrwch a gafodd yr aelodau. Diolchodd y llywydd hefyd i'r aelodau a ddarparodd y lluniaeth - Mrs Ann Jones, Mrs Lynn Elis, Mrs Jan Vaughan, Mrs Vivien Bershaw, Victoria Hotel.

PERSONOL: Adferiad llwyr yn fuan iawn yw dymuniad eich holl gyfeillion Awen, Goleufryn, Stryd Newton. Brysiwch gartref.

ENILLWYR RAFFL NADOLIG TÎM IAU LLANBERIS:

1. £25: Catrin Lennon, 2. Potel Wisgi: I. Jones, 3. £5: Andrew Griffith, 4. Sieri: Jan Davies; 5. Cyw lâr: M.L. Jones, Clwt-y-bont; 6. Port: Alun Owen; 7. Siocled: M. Kopyt; 8. Sieri: Gwilym, Stryd yr Wyddfa; 9. Sigarets: Ian; 10. Martini: Dic; 11. Bisgedi: Catrin; 12. Gwin: Elsie Jones; 13. Teisen Nadolig: H. Jones; 14. Siocled: T.D. Huws, Deiniolen; 15. Cracys: G.A. Murray, Clwyd; 16. Llyfr Coginio: F. Graham.

Diolch i'r canlynol am gyfrannu'r gwobrau: Eurwyn Cae Fran, Jiws, Huw Bach a Lal, Tomi Vaughan, Alun Roberts, Gwesty'r Dolbadarn, Alwyn Thomas, Wilbert Davies a Dafydd

Huws, Ifan Thomas, Mims, Twm John, Selwyn Allsup, Wil Lôn Bost, Ifan Jeff, Cadfan Owen, Llew Pritchard, Evan Owen a Noel Davies.

CARNIFAL: Oherwydd presenoldeb gwan yn y Pwyllgor Cyffredinol Blynnyddol y Carnifal nos Wener diwethaf, apeliwn at gyn-aelodau ac aelodau newydd i fod yn bresennol yn y pwyllgor nesaf sef nos lau, Chwefror 9 am 7.30 yn Angorfa, Stryd y Ffynnon.

YSGOL BRYNREFAIL

Ysgol hardd Brynrefail
Godwyd lawer dydd.
Diolch am y dynion
Roddodd lafur rhydd.
Gwelir ffrwyth eu llafur
Heddiw ar bob llaw
Plant yn derbyn cyfle
I roi dawn ar braw.

Ysgol hardd Brynrefail
Godwyd er ein mwyn,
Diolch am athrawon
Ddysga gyda swyn
Diolch am fendithion
Glân wybodaeth glir,
Am oleuni cywir
Ar y gau a'r gwir.

Ysgol hardd Brynrefail
Cadarn dŵr o hyd
Diolch am y cyfle
I gael profi'r hud -
Sydd yn cerdded trwyddi
'Rôl blynyddoedd maith
Bwyd i'r corff a'r meddwl
I hwyluso'r daith.

Ysgol hardd Brynrefail
Sydd â phwrpas mawr
Mae rhyw wefr i'w themro
Ynddi bob rhyw awr
Mae rhyw fywyd trwyddi
A gwirionedd clir
A rhyw gariad rhyfedd
Yn goleuo'r tir.

DILYS BAYLISS
LLANBERIS

Awdurdod Datblygu Cymru

A ydych chi mewn busnes?

A ydych chi'n meddwl
cychwyn ar eich pen eich hun?

Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod
yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.

Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol
ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym
wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i
lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.

Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus
gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch
cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar
gael i rai mathau o weithgareddau.

Mae eich swyddfa leol ym Mangor.
Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un
o'n cynghorwyr; cewch drafod eich
syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.

Uned Diwydiannau Bychain,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Llys Garth, Ffordd Garth,
Bangor. Ffôn: Bangor 352606

Welsh
Development Agency

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)

GWASANAETHAU NADOLIG YR YSGOL: Dydd Iau, Rhagfyr 15 cafwyd Cinio Nadolig, wedi ei baratoi gan staff y gegin. Mwynhaodd y plant y twrci a'r pŵdin Nadolig (a fwrcauwyd o gronfa'r ysgol) yn fawr iawn.

Yn yr hwyr cafwyd noson o Garolau a Drama'r Geni. Diolchodd Mr Gwyn Hefin Jones a ran y Rhieni a'r ardalwyr i'r plant ac i'r athrawon am waith canmoladwy iawn.

Nos Fawrth cyn i'r ysgol gau cafwyd barti wedi ei drefnu gan staff yr ysgol, staff y gegin a phwyllgor Rhieni ac Athrawon. Ar ôl y parti mwynhaodd y plant y chwaraeon a oedd dan ofal dynion y pwyllgor Rhieni ac Athrawon. Daeth y parti i ben gydag ymweliad gan Siôn Corn, a rhoddwyd anrheg i bob plentyn yn yr ysgol.

PRIODAS: Dydd Sadwrn, Ionawr 7, priodwyd Idwal Gwyn Williams, Elidir View â Dwynwen Owen, Tros-yr-afon, Brynrefail. Byddant yn cartrefu yn Llanrug.

DIOLCH: Dymuna Gwyn a Dwynwen ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

Dymuna Miss Annie Parry, Craig-y-don (sydd ar hyn o bryd yn Canol Cae (Nursing Home) Penrhyndeudraeth) ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tuag ati pan oedd yn Ysbyty Môn ac Arfon ac Ysbyty Eryri, ac hefyd am y cardiau Nadolig a dderbyniodd.

GWELLHAD BUAN: Dymunwn wellhad buan i Miss E. Hughes, Tan-y-graig ar ôl triniaeth i'w llygaid, ac i Mrs Veronica Williams, Glanbogelyn, ar ôl triniaeth yn yr ysbyty.

LLONGYFARCHIADAU: Estynnir llongyfarchiadau i'r canlynol am eu llwyddiant mewn arholiadau St Ioan: Mrs Dorothy Jones a'i merch Alison, Arosfa, Nia Hughes, 17 Dôl Afon a Carys Williams, Bryn.

MARWOLAETH: Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs Elizabeth Morris, Caernarfon (Tŷ Capel Mawr gynt). Estynnir y cydymdeimlad dwysaf â Mr a Mrs Hywel Morris, Mr Wyn Morris a Mrs Olwen Hughes yn eu profedigaeth o golli eu mam.

CLWB Y GRAIG: Cynhaliwyd Gyrfa Chwist Nadolig nos Fercher 9 Rhagfyr yn y Ganolfan. Yr enillwyr oedd: Raffl: 1. Mrs J. Hughes (hamper); 2. Mrs D. Roberts (gwin); 3. Mr W. Jones (gateaux); Michael Roberts (porc); Mrs D. Roberts (sheri); Mr Ll. Hughes (pomagne); Mrs E.M. Jones (cyw iâr); Mrs E. Price (seidr); Mrs B. Roberts (bisgedi); Mr

W.R. Jones (baril bisgedi); Mrs A.M. Evans (basged o ffrwythau); Eleri Owen (bocs siocled); Mrs M. Roberts (powdwr talc); Mr P. Evans (bisgedi); Mrs G. Evans (sebon); Mrs K. Owen (£1); Mrs Squires (£1); Mrs M. Evans (powdwr talc); Mrs J. Hughes (crackers).

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb am y gwobrau.

Dyddiad yr Eisteddfod - Mawrth 16.

CLWB POBL Y CWM: Yng nghyfarfod Rhagfyr dathlwyd gŵyl y Nadolig gyda rhaglen wedi ei threfnu gan Mr R.H. Parry a Mr Llew Hughes. Cymerwyd rhan gan Mrs A. Hughes, Bryn, Mrs K. Watkin, Dolwen, Miss E. Hughes, Tan-y-graig, Mrs H.M. Roberts, Bryn Gro. Gwnaed trefniadau gogyfer cyfarfodydd y flwyddyn newydd, a diolchwyd i Mrs Watkin a Mrs Hughes, Bryn am ofalu am y te a'r 'mince pies' ac i Mrs R.H. Parry am y raffl.

Ni amharodd y tywydd anffafriol ar flas ginio blynyddol y clwb yng Ngwesty Gwynedd Llanberis nos Fawrth, Ionawr 10. Wedi gwala ar amrywiaeth y pryd oedd wedi ei ddarparu dilynwyd gydag adloniant ysgafn gan yr aelodau. Cafwyd amrywiaeth dda o linellau yng nghystadleuaeth y Llinell Goll, a gorffen pennill, a'r enillwyr oedd Mr H. Pritchard, Bryn Gwynedd a Mrs Watkins, Dolwen. Yr orau am ddweud stori oedd Mrs Watkin. Ymunodd Mr R.H. Parry a Mr Llew Hughes i ganu penillion oeddynt wedi arfer eu canu mewn cyngherddau lleol. Diolchodd y llywydd i bawb am eu cyfraniad.

MARWOLAETH: Yn dawel yn Ysbyty Gallt y Sil ar Ionawr 2, yn 74 mlwydd oed, bu farw Mr Hugh Jones, Seiont House.

Bu ei angladd Ionawr 6 gyda gwasanaeth cyhoeddus yng Nghapel y Tabernacl, pryd y gwasanaethpwyd gan y Parchedigion W.O. Roberts, Llanrug, W.R. Williams, Y Felinheli, Gwyndaf Evans, Llandudno ac Eifion G. Jones, Dinbych. Talwyd teyrnged gan Mrs Mary Lloyd Williams, a'r organyddes oedd Mrs Eluned Hughes, Hyfrydle.

Gwasanaethpwyd ar lan y bedd ym mynwent Llanrug gan y Parchedigion W.O. Roberts, W.R. Williams ac Eifion G. Jones.

Estynnir y cydymdeimlad dwysaf â'i briod Mrs Elizabeth Mary Jones a'i Marian, Arfon, Gwilym, Gwyrfa ac Elizabeth a'u teuluoedd yn eu profedigaeth.

**TEYRNGED FR DIWEDDAR
MR HUGH JONES, SEIONT
HOUSE, CWM-Y-GLO**

Gorchwyl drist yw coffáu un o

gymeriadau hoff yr ardal. Daeth i fyw i'r ardal bron i hanner can mlynedd yn ôl, yn aelod o'r Eglwys yng Nghymru, ond dilynodd ei briod i'r Tabernacl, ac ymrodd i waith y capel yn ddiymdroi. Cymerodd ddiddordeb arbennig yn yr Ysgol Sul, hyd nes i rif yr aelodau fynd yn rhy fach i'w chynnal. Etholwyd yn ddiagon ddeng mlynedd ar hugain yn ôl, a bu'n swyddog cydwybodol yn ystod y blynyddoedd.

Ganddo ef oedd cyfrifoldeb o lanw'r Suliau, a bu'n hynod lwyddiannus, hyd yn oed i ddiwedd y flwyddyn hon. Ef oedd trysorydd y

capel, a bu hefyd yn drysorydd Cymnafa Dosbarth Cwm-y-glo, a llanwodd y swyddi yn anrhydeddus. Roedd ei ofal dros ei gartref bob amser yn cael y sylw blaenaf, ac mae dylanwad yr aelwyd i'w ganfod yng nghymeriad y plant. Nid oedd un amser yn chwilio am sylw, na bod ar y blaen, gan mai gŵr yn caru'r encil oedd. Roedd yn gymeriad hynod o hoffus gyda'r wên barod bob amser, ac yn meddu ar hwmor iach. Colled i'r capel yn sicr, ond colled fwy i'r cartref, man lle cafodd y parch a'r caredigrwydd gan ei briod a'i blant. Mae ein cydymdeimlad llwyrâf â'r teulu yn eu profedigaeth chwerw.

L.I.H.

CÔR A CHERDDORFA CWM-Y-GLO 1909

Ein diolch i Mrs Mary Williams, Stryd Marcus, Caernarfon am y rhestr isod. Ymddangosodd y llun yn 'Eco' mis Tachwedd.

Y rhes uchaf: o'r chwith i'r dde: Edward Pritchard, William H. Williams, Hughie Parry, Hughie Jones, John Roberts, David Jones, John Price, Edward Green, Harry Williams, Robert Parry, David Williams, John Davies, Hugh Parry (gorsaf-feistr), Richard Parry, Gruffydd M. Jones, Richard Jones.

Pumed rhes: John R. Humphreys, William Williams, John Jones, Rbert Williams, Owen Jones, Lizzie J. Williams, Edith Jones, Achsa Evans, Jane Williams, Katie Thomas, Owen Roberts, Gruffydd Hughes, Robert Jones, Ellis Williams, Richard Roberts.

Pedwerydd rhes: Ellen Humphreys, Jennie Morris, Annie Jones, Kate Evans, Maggie Williams, Catherine M. Jones, Lydia Price, Jane Pritchard, Lizzie Roberts, Mary Morris Jones, Annie Jones, Nell Thomas, Nell Davies, Kate Mary Davies, Maggie Hughes, Annie Williams, Lizzie Williams.

Trydydd rhes: Mary Jones, Mary Williams, Maggie Hughes, Catherine Jones, Ellen Parry, Mary Grace Rowlands, Lally Parry, Ruth Green, Catherine J. Jones, Mary Roberts.

Cerddorfa: Edward Jones, William R. Jones, Harry Thomas, Maggie Lewis, Eirlys Lloyd Williams, Alun Williams, Joseph G. Thomas, L.T.S.C., Robert Williams, Lily Symons, Martyn Owen, John B. Jones, John Williams.

Chweched Rhes: William Rowlands, Hugh Jones, Tommy Rowlands, Evan Evans, Williams R. Williams, Evan H. Williams, Thomas Jones.

Artistiaid: Mary King Sarah, Talysarn; Annie Davies, Penrhyndeudraeth; David Chubb a Harry Lewis, De Cymru; William Roberts, Bangor; Evan Lewis a Josephine Lewis, Capel Curig.

O BANTRI BETH



MECRYLL EFO CAWS AC AFAL

4 macrell mawr
2 afal bwyta, wedi ei ratio ond heb fod yn fân
1 nionyn wedi'i falu
2 owns o friwsion bara
4 owns o gaws cheddar
3 owns o fenyn wedi ei doddi

Glanhewch y pysgod yn dda a'u holhti.


Cymysgwch yr afal, nionyn, y briwsion efo tri chwarter y caws. Ychwanegwch 2 owns o'r menynd a'i droi nes fydd y cymysgedd yn glynu wrth ei wasgu.

Stwffiwch y pysgod a'u dal efo sciwer.

Rhowch y pysgod mewn desgl wedi'i iro efo menynd. Brwsiwch y pysgod efo gweddill y menynd ac ychwanegu'r caws (1 owns). Gorchuddiwch y ddesgl a'i digoni mewn popty Nwy 4 (180°C - 350°F) am hanner awr. Yn flasus efo tatws neu sglodion a phys.

**CEFNOGWCH EIN
HYSBYSEBWYR**

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



**BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)
Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981**

DEINIOLEN

**C
A
B
S** Gwasanaeth 24 awr -
unrhyw bellter
Eich rhedeg i'r Maes
Awyr neu'r Porthladd

Ffôn: Llanberis
871591

J.M.WILLIAMS, 12 TAI FAENOL

DINORWIG

Gohebydd: O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)

CANUCAROLAU: Nos Iau Rhagfyr 15 yn y Ganolfan bu noson o ganu Carolau dan arweiniad Miss Annette B. Roberts a Miss Olwen B. Roberts, Tŷ'r Ysgol. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parch Aled L. Edwards (Ficer) a'r Parch Ifor L. Williams, Bangor, mewn gweddïau. Cafwyd unawdau a darlenniadau gan Mrs Betty L. Roberts, 11 Maes Eilian; a Miss Marina B. Roberts, Tŷ'r Ysgol; Sara Wood, Fronheulog; Dona Jones, 9 Bro Elidir; Anwen, 4 Maes Eilian ac Owain Gwion Jones, Rhiwlas. Carol gan y dair chwaer Annette, Olwen a Marina. Canwyd amryw garolau gan y gynulleidfa.

NADOLIG: Yn Eglwys St Mair Dinorwig cafwyd gwasanaeth o'r Cymun Undebol dan arweiniad y Ficer, y Parch Aled L. Edwards.

Yn Sardis (B) bu gwasanaeth o ganu carolau.

CYFARFOD GWEDDI: Nos Fawrth 3 Ionawr 1984 bu cyfarfod gweddi yng Nghapel Dinorwig M.C. o dan nawdd y chwiorydd. Cafwyd cyfarfod bendithiol.

Y GANOLFAN: Yn y Ganolfan, nos Iau, 5 Ionawr 1984 cafwyd cyfarfod yn trafod sefyllfa crefydd heddiw dan arweiniad y Ficer a'r Parch Ifor L. Williams, Bangor. Bu trafodaeth ar ffilm a ddangoswyd.

Eto, nos Iau, 19 Ionawr cafwyd sgwrs gan Mr Hugh Williams, Paradrws, Gaerwen ar y testun 'Agor Llyfr Lloffwr'. Orlheiniodd Eisteddfodau ym Môn yn y dyddiau a fu. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Irene Morris, 4 Maes Eilian, a thalodd diolch i'r siaradwr am ei atgofion.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlir â Mr a Mrs Renell Williams, Tan-y-fron, Dinorwig ym marw brawd Mrs Williams, Mr Gwynfa Jones, Bontnewydd yn ddiweddar.

Dymuna Mr a Mrs Williams, Tan-y-fron ddiolch o galon i'r teulu a'u cyfeillion am bob arwydd o gydymdeimlad ddangoswyd tuag atynt yn eu colled ym marw ei brawd Mr Gwynfa Jones, Bontnewydd. Diolch yn fawr.

DIOLCH: Dymuna Mrs Kate Greiffith, Arwelfa, ddiolch i'w pherthnasau a'i chyfeillion o Ddinorwig a Deiniolen am eu cydymdeimlad â hi ar ôl colli ei chwaer, Maggie. Diolch o galon.

Ein cofion at Mrs Eileen Phillips, 6 Maes Eilian sy'n yr ysbty. Ein cofion at bawb sy'n cwyno yn yr ardal. Bydded iddynt gael adferiad buan. Er bod y flwyddyn wedi cerdded ymlaen cymerwn y cyfle i ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i ddarllenwyr

yr 'Eco' a'r ardalwyr oll.

TEYRNGED GOFFA i fam annwyl a hoffus, sef Mrs Maggie Jane Roberts gynt o Glan Gors, Dinorwig a hunodd ar 28 Tachwedd 1983.

Fel Maggie Glan Gors yr adwaenid hi gan drigolion Dinorwig a'r cylch. Roedd y teitl fel miwsig i'w chlyw. Roedd ein mam yn gymeriad tyner bodlon a hwyliog ac yn hynod o groesawus pan ymwelai rhywun â'i chartref.

Roedd yn bendant yn credu yn y pethau gorau. Yr hen bethau. Roedd wedi ei breintio â llais soprano swynol. Defnyddiodd hwnnw i hybu'r pethau gorau.

Bu'r ffyddlon iawn yng nghapel bach Dinorwig ar hyd ei hoes. Cafodd ei derbyn a phriodwyd hi yno, ac oddi yno cafodd ei gweddillion ei hebrwng ar Ragfyr 1 1983 a chafwyd gwasanaeth coffa yno y Sul dilynol.

Mae gennym fel plant gasgliad o atgofion diddorol iawn o ymdrech ein tad a'n mam yn ein dwyn i fyny yng Nglan Gors. Diolch i'r Gwardwr am rieni mor ddoeth a gofalus ohonom. Hedd i'w llwch.

Mewn tyddyn bach mynyddig

Hen aelwyd gynnes glyd

Y ganwyd mam anwylaf

Yr orau yn y byd.

Er gwaethaf newidiadau

Mewnol byr dydd mor ddi-raen

Cefnogol er daioni

Y bu i'r oes o'r blaen.

Hi gerddodd eisteddfodau

Mae'n anodd peidio sôn

O bentra bach Dinorwig

I lawr i draethau Môn.

Am wythnos wedi 'steddfod

Trafodi'r plant mor hardd

A chanmol y cantorion

Cyn dechrau moli'r bardd.

Roedd gwrandao ar sylwadau

O'i phrofiad ar ei hyn

Yn gwneud i'n deimlo'n llynges

Ddibynol ar y gwynt.

Os byddai digwyddiadau

Yn peri iddi loes

Cymdogion ardal gyfan

Yn galw i 'sgafnu'r groes.

Ac felly ddydd ei hangladd

Cymdogion oll ynghyd

I dalu'r deyrnged olaf

Cyn mynd i'w newydd fydd.

Ar ôl yr holl ymdrech

Mewn byd sydd llawn o gam

Y bedd yw'r wobr olaf,

Peth brwdd yw priddo mam.

D.W.MORRIS

Cefn Coch

Deiniolen

(ar ran meibion a merched Glan Gors)

SIBRYDION O'R YSGOLION YSGOL BRYNREFAIL

Sgio:

Mae'n bleser unwaith eto llongyfarch Tim Lloyd, 6ed dosbarth, ar ei lwyddiant ar y llethrau eira. Drwy fis Rhagfyr bu'n Ffrainc yn ymarfer â thîm iau Glwedydd Prydain. Yna, ar ddechrau mis Ionawr, aeth i Valloire yn Ffrainc i gystadlu ym Mhencampwriaethau Iau Prydain. Daeth yn bedwerydd yng nghystadlaethau y slalom fawr. Efallai i chwi weld ffilm o'r pencampwriaethau ar y rhaglen deledu 'Blue Peter' yn ddiweddar. Llongyfarchiadau Tim - pwy â wŷr, efallai y bydd ei enw ymysg yr enillwyr yng Ngemau Olympaidd 1988!



Timothy Lloyd — sgïwr addawol iawn

Pêl-droed

Dewiswyd pump o fechgyn yr ysgol i garfan pêl-droed bechgyn hŷn Ysgolion Arfon. Steven Owen (Cwm-y-glo), Iestyn Jones (Brynrefail), Kevin Jones (Dinorwig), Colin Saynor (Llanberis) a Huw Jones (Llanrug).

Colli fu hanes y tîm yn eu gêm gyntaf yn erbyn Ysgolion Môn 3-1.

Collodd yr ysgol o 3 gôl i 1 mewn gêm gyfeillgar yn erbyn Coleg Technegol Bangor.

Athrawon

Croeso i'r athrawon newydd yn yr ysgol — Mr Dilwyn Roberts (Cemeg) a Mrs Linda Jones (Gwyddor Tŷ). Gobeithio y mwynhewch eich gyrfa yma yn Ysgol Brynrefail.

Cwis Lyfrau

Yn ddiweddar cynhaliwyd cwis llyfrau Cymraeg gan Lyfrgell y Sir i blant dosbarthiadau 1 a 2. Bu tîm Ysgol Brynrefail, Angharad Preis, Amlyns Llwyd Evans a Meinir Williams yn fuddugol yn erbyn Ysgol Syr Huw Owen. Ysgol Tryfan ac Ysgol Dyffryn Ogwen. Mis nesaf byddant yn cynrychioli Arfon yn erbyn Ysgol y Creuddyn, Ysgol David Hughes ac Ysgol Ardudwy. Pob lwc i chwi'ch tri! Diolch i'r hyfforddwraig

Mrs Esyllt M. Jones.

Nofio

Cynhaliwyd Gŵyl Nofio'r ysgol ym mhŵll nofio Bangor yn ystod wythnos olaf tymor y Nadolig. Sefydlwyd chwe record newydd yn y cyfarfod. Dyma enwau'r enillwyr:

Genethod leuengaf, dull rhydd: Emily Adams (Eilian), 29.4 eil (record); Genethod Iau, dull rhydd: Llinos Davies (Elidir) 23.4 eil (record); Genethod Hŷn, dull rhydd: Meinir Jones (Gwyrfa) 24.72 eil.

Bechgyn leuengaf, dull rhydd: Dafydd Jones (Elidir) 23.94 eil; Bechgyn Iau, dull rhydd: Nigel Thomas (Elidir) 22.71 eil; Bechgyn Hŷn, dull rhydd: Iestyn Jones (Gwyrfa) 18.81 eil.

Dull Broga i gyd: Genethod: leuengaf: Delyth Williams (Eryri) 34.07 eil (record); Iau: Llinos Davies (Elidir) 29.29 eil; Hŷn: Meinir Jones (Gwyrfa) 32.41 eil. Bechgyn: leuengaf: Arwel Jones (Gwyrfa) 32.0 eil; Iau: Nigel Thomas (Elidir) 29.37 eil; Hŷn: Matthew Shaw (Elidir) 24.22 eil (record); Genethod: leuengaf: Ar y Cefn: Gillian Davies (Eryri) 39.51 eil; Iau: Llinos Davies (Elidir) 28.2 eil (record); Hŷn: Sioned Roberts (Eilian) 34.17 eil. Bechgyn: Dafydd Jones (Elidir) 30.83 eil; Iau: Nigel Thomas (Elidir) 31.7 eil; Hŷn: Iestyn Jones (Gwyrfa) 24.46 eil (record).

Cyfanswm pwyntau: Gwyrfa 114; Elidir 93; Eryri 86; Eilian 72.

APÊL AM WYBODAETH

Mae Mr a Mrs I. Thomas, Buarthau, Llanrug yn awyddus iawn i gael lluniau a gwybodaeth am eu cartref, 'Buarthau' cyn i'r tŷ a'r adeiladau gael eu hadnewyddu. Yn ôl Mrs Ann Thomas, 'Bertha', oedd yr enw ar y tŷ ar un adeg ac mae hanes 'Buarthau' yn mynd mor bell yn ôl â'r ail ganrif ar bymtheg. Os oes rhywun â gwybodaeth neu luniau yn eu meddiant am 'Buarthau' tybed a wnewch chi gysylltu â Mr a Mrs Thomas (rhif ffôn Caernarfon 3929).

Darlith Gyhoeddus
SAUNDERS LEWIS

gan D. Tecwyn Lloyd

Y Coleg Normal
(Ystafell Gynhadledd y
Ganolfan Adnoddau)

Noson Gŵyl Ddewi
am 7 o'r gloch

Dan nawdd cangen Bangor o
Blaid Cymru

SCIPIAU TIM



o £16

CYTUNDEB DYDDIOL
NEU WYTHNOSOL

LLANBERIS 871354

GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

COFADEILWAITH O BOB MATH
MEWN LLECHI A GWENITHFAEN
GAN GREFTWYR LLEOL

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn. (Waunfawr 626)

CLWB GWYRFAL : Rhagfyr 15, 1983 cynhaliwyd gwasanaeth garolau wedi ei drefnu gan y Parch Trefor Jones mewn cydweithrediad â Mr Leslie Jones, prifathro, a Mrs Eames athrawes gerdd yr ysgol gynradd.

Darlennwyd rhannau o'r Ysgrythur gan aelodau'r Clwb a chan rai o'r plant. Cyd-ganwyd carolau a chafwyd eitemau cerddorol gan y plant dan arweiniad Mrs Eames.

Diolchodd Mrs Jones, Eilian Terrace i'r Ficer - yr athrawon a'r plant am eu gwasanaeth bendithiol.

Cyfeiriodd y Ficer at y cysylltiad cynnes sydd rhyngom fel Clwb Henoed â staff a phlant yr Ysgol leol, a'n gwerthfawrogiad o'u diddordeb a'u caredigrwydd.

Yn ddiweddarach yn yr wythnos bu'r plant yn Ysbyty Eryri yn diddori'r cleifion a hefyd yng Nghanolfan Segontium.

Rhagfyr 20 teithiodd aelodau o'r Clwb i'r Wyddgrug ar wahoddiad HTV i weld y rhaglen boblogaidd 'Siôn a Siân' yn cael ei recordio. Cafwyd cinio ym mwyty Theatr Clwyd. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad o fod mewn stiwdio deledu. Diolchwyd i Mrs Parry Williams am wneud yr holl drefniadau. Hefyd i'r ysgrifenyddes Mr Idris Jones a Mrs Lloyd Jones, trysorydd - i bawb oedd wedi cyfrannu i'r raffl ac i Mrs Nesfield a Mrs Faulkner am eu trefnu. Roedd yn bleser cael cwmni ein llywydd hynaws - y Parchedig Trefor Jones a Mrs Jones gyda ni i'r Wyddgrug.

Ionawr 19, 1984 cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn yn Neuadd yr Eglwys o dan lywyddiaeth y Ficer. Un o'n haelodau mwyaf llengar oedd y siaradwr - sef Mrs Austin Jones. Rhoddodd sgwrs ddifyr iawn am hen ddywediadau ffraeth a thraddodiadol y fro a chafwyd ymateb da.

Roedd Mrs Jones yn dyfynu o restr oedd wedi ei gofnodi at gystadleuaeth yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaernarfon ac wedi derbyn canmoliaeth mawr i'w gwaith. Diolchwyd iddi gan Mr Williams, Gwynfa. Cydymdeimlwyd â Miss Gladys Lewis ar golli ei brawd ym Mhwlheli a dymunwyd gwellhad buan i Mrs Mottram. Enillwyd y raffl - rhodd Mrs Roberts, Elwy House, gan Mrs Owen, Tref Eilian, yn gyfrifol am y te Mrs Pritchard, Mrs Jones, Eilian Terrace a Mr Lewis.

Y siaradwr yng nghyfarfod Chwefror 2 fydd Mr Davies, Plas-y-nant, Betws Garmon yn sôn am hen addurniau. Mae croeso i aelodau ddod ag unrhyw declyn am farn Mr Davies er nad yw'n honni ei fod yn arbenigwr ar hen bethau.

O hyn ymlaen bydd cyfarfodydd y Clwb yn dechrau am 1.30 p.m. Golyga hyn bydd y bws yn casglu yn y Groeslon am 1 pm ac o'r Swyddfa Bost am 1.15 pm yn ystod y tymor yma.

CANOLFAN WAUNFAWR: Cafodd y pwyllgor swper a noson gymdeithasol ddifer dros ben yng Nghastell Cidwm.

Trefnir noson o 'Gawl a Chân' yn Neuadd yr Eglwys ar nos Wener, Chwefror 10 yng nghofal Rol Williams.

Mae angen dirfawr am help i gwbhau tu fewn y Ganolfan erbyn diwedd Mai. Galwch yno i weld Gwilym Williams!

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod mis Ionawr o'r Sefydliad nos lau Ionawr 5. Aeth yr aelodau i Westy Plas-y-coed, Betws Garmon i gael cinio Nadolig. Croesawodd y llywydd, Mrs Catherine Jones, yr aelodau i'r 18

cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd.

Darlennwyd y llythyr misol a chofnodion y cyfarfod diwethaf. Mrs Catherine Jones a Mrs Beti Griffith fydd yn ein cynrychioli yn y Cyfarfod Blynnyddol a gynhelir yng Nghaernarfon ddydd Sadwrn. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Festri Croes-y-waun nos lau Chwefror 2 pryd y cynhelir 'Noson gan yr aelodau' wedi ei drefnu gan Mrs Morgan Jones.

YR URDD: Ychydig cyn y Nadolig, cynhaliodd yr Urdd noson o ganu carolau yng nghwmni Dafydd Iwan, i godi arian i dalu am ffynhonnau dŵr yn y Swdan. Roedd nifer o rieni a chyfeillion yn bresennol a gwnaed elw o £48.

Yr wythnos ddiwethaf (Ionawr 18) daeth hen ffrind i'r Urdd atom, sef Kevin, sydd erbyn hyn yn byw yn Rhiwlas. Cafodd y plant noson gyffrous o chwarae bingo gydag o.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma rest enillwyd y Clwb 300 am fis Rhagfyr: £40: Mrs Eirlys Griffiths, Swyddfa'r Post; £25: Mr Evan Owen, Y Becws; £10: Mrs M.E. Parry, 4 Rhes Eilian; £10: Mrs Peter Marston, Blaen-y-nant; £10: Mrs Kath Tame, Sŵn y Dail; £10: Mrs Evelyn Anderson, 11 Stâd Tŷ Hen; £10: Mr Geraint Owen, 10 Stâd Tŷ Hen.

CYDYMDEIMLWN yn fawr â Mrs Williams, 17 Tref Eilian, yn ei phrofedigaeth o golli brawd; Miss Gwladys Lewis, Ardref ar golli ei brawd hithau; â Dr R.S. Williams ar golli tad, a hefyd Bryn Griffiths, Gorphwysfa, yn ei brofedigaeth drist yntau.

YN YR YSBYTY ac wedi derbyn triniaeth lawfeddygol mae Gethin Williams, Ardwyn. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddo.

ADREF O'R YSBYTY daeth Mrs Pearl Williams, Parc, Mrs Carys Jones, Stâd Tŷ Hen, Shoned Roberts, Pant Afon, Mrs Marry, Clydfan, Mr Wyn Jones, Bron Eifion, Dr Kenneth Leathley Jones, Tegfryn, Mrs Greta Hughes, Tref Eilian, a Diane Davies, Tref Eilian. Gobeithiwn eu bod yn parhau i wella.

Aethpwyd â Mr Dafydd Griffith, Tref Eilian i Gartref Maesincla yn ddiweddar ac anfonwn ein cofion ato a gobeithiwn ei fod wedi ymgartrefu yno.

LLONGYFARCHIADAU: i Dafydd Glyn Williams, Coed Gwydryn, ar ei ddywedd iad â Carys o Lwyngwrl; i Delyth Williams, Bod Hyfryd, ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 18 oed; i P.C. Bevan a Margaret Bevan, Tŷ'r Heddlu, ar enedigaeth merch fach, Mari, chwaer i Trystan; i Dylan Iorwerth, Cartrefle ar ei briodas ag Elaine, o Landysul.

I'r rhai a fu'n llwyddiannus yn eu harholiadau cerddorol yn ddiweddar, sef: Telor Iwan, Pen y Berth - Obo, Gradd 3; Elliw Iwan, Pen y Berth - Ffliwt, Gradd 4; Dylan Jones, Rhandir Mwyn - Piano, Gradd 1 (gyda theilyngdod); Huw Ynys, Tan y Fron - Piano, Gradd 3; Joanna Marston, Blaen y Nant - Piano, Gradd 5, a Theori, Gradd 3.

DYMUNIADAU GORAU i Mr Gwynn Davies, Bryn Eithin ar ei ymddeoliad, ac i Kevin Parry, Bro Waun, sydd wedi ymuno â'r Fyddin.

DIOLCH: Dymuna Delyth Williams, Bod Hyfryd, ddiolch i'r teulu, ffrindiau, a chymdogion am y cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 18 oed.

CLWB 100: Dyma restr o enillwyd y Clwb 100 am fis Rhagfyr: 1af - Mrs M. Jones, 1 Tref Eilian; 2il - Mr Meirion Jones, Crud yr Awel; 3ydd - Mrs Luned Roberts, Sŵn y Gwynt.

O'R ISELDIROEDD

Ymddangosodd yr adroddiad isod yn un o bapurau yr Iseldiroedd yn yr iaith frodorol. Cyfieithwyd i'r Saesneg gan Luc Van Gent, a throswyd i'r Gymraeg gan Tecwyn Gruffydd. Rhoddwyd i'r 'Eco' gan Mr Evan Owen Hughes, Bryn Golau, Waunfawr a diolchwn iddo am gael y cyfle i ddarllen yr hanes diddorol yma.

Ddoe, 'roedd criw o hen filwyr o Gymru, aelodau o adran 52 o'r Gatrawd Gymreig a gymerodd ran bwysig i ryddhau 'den Bosch yn Hydref 1944, yn ôl am ymweliad byr â'r brif ddinas Brabant. Tua 12.30 p.m. cyrhaeddodd y bws i'r parêd (ar sgwâr yr Eglwys Gadeiriol). Wedyn arweiniwyd y garfan gan eu tywysydd, Luc van Gent tuag at gofgolofn yr adran Gymreig yn Aartshertogenbaan. Codwyd hon ym 1952 i goffáu y nifer fawr o'r uned Gymreig a roddodd eu bywydau yn y frwydr tra'n gwrthsefyll yr Almaenwyr yng nghyfnod y rhyfel 1940-5. Codwyd y gofgolofn yn Aartshertogenbaan ar gynghoriad aelodau o'r adran (tua 12,000 o filwyr) oherwydd, ar y fangre hon y safai yr anheddau cyntaf a ryddhawyd o ddwylo'r gormeswyr Almaenig. Mi osodwyd torch gan y cyn-filwyr, ond llefarodd Caplen ychydig eiriau a adawodd gryn argraff; ac offrymwyd gweddi fer i gofio'r gwŷr a gwmpodd ym 1944.

Wedi hyn cyfeiriwyd ymlaen i ganol y ddinas. Aeth pedwar allan o'r pump a fu eu hunain yn cymryd rhan yn y frwydr yn ein tref i fan lle mae gan Hughie Thomas ei feddyliau arbennig ei hun, ar gornel Ffordd yr Orsaf a Harboursingel y drws nesaf i Fodurdy Puttens gynt. Yn ystod y frwydr (rhwng Hydref 24ain a 27ain) ymlusgodd tra'n blaen-arolygu drymder nos y 25-27ain, wrth ei hunan i gyfeiriad y drafndiaeth - Dienebridge. Y bore dilynol, bu i'r gatrawd Gymreig ymosod i'r cyfeiriad gogleddol hwn. Ar ôl brwydro ffyrnig, a llawer o falurio o amgylch Emmasquare 'roedd yn tynnu at 10.00 p.m. pan ryddhawyd y dref yn gyfan gwbl yn cynnwys safle y farchnad wartheg. Trefnwyd yr ymweliad o den Bosch gan Luc van Gent i roi cyfle unwaith yn rhagor i'r hen ddwylo gael sgwrs â nifer o drigolion den Bosch, y dref a ryddhawyd. Ar ran Yddiriedolaeth 1944 mae Luc van Gent yn paratoi cynhyrchiad o ffilm fideo yn ail bortreadu Rhyddhau 1944.

Yn gynharach eleni gwnaeth gryn waith ymchwil yn Ynysoedd y Deyrnas Unedig a chafodd sgwrs â Hughie Thomas, ynghyd â nifer o hen gyn-filwyr. Dywedodd Hughie wrtho y pryd hynny y byddai carfan

o'r hen ddwylo yn ymweld â den Bosch. Ddoe gwiredwyd yr



addewid. Ar wahân i Hughie Thomas gwelwyd Gwynfor Jones, Albert Herbert ac Evan Owen Hughes (y nesaf i Hughie Thomas o'r chwith i'r dde) yn y brifddinas Brabant.

Heddiw mae'r hen ddwylo o Gymru yn mynd i Arhem, Nijmegen, a Kleer (Gorllewin yr Almaen).

O.N. Pwynt diddorol i'w nodi yw fod pob un o'r cerrig a ddefnyddiwyd i adeiladu'r gof golofn wedi eu cario o Ddyffryn Nantlle.

YSGOL FEITHRIN: Cynhelir Cinio Gŵyl Dewi eleni, nos Wener, Mawrth 2, yng Ngwesty'r Dingles. Manylion pellach i'w cael gan Mrs Bethan Williams, Bryn Meurig.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

**CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR**



Ffôn 291

(yn ystod oriau agor)

**GWLAU SENGL O £39 I FYNY
GWLAU DWBL O £75 I FYNY**


**DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES'
O £200 i £800**

LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'

**5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC
- ALLWCH CHI FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?**

**AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.**

CROESAIR CHWEFROR



AR DRAWS

1. Caneuon byr - wedi eu hodli (7)
5. Math o flawd ceirch wedi ei ferwi (5)
8. Stori yn cynnwys moeswers (5)
9. Rhif y nef fwyaf perffaith! (7)
10. Math o ddrama (9)
12. Seren benfoel y ffilmiau (enw cyntaf) (3)
13. Nam cry' ar faner gwlad fawr! (6)
14. Dim llawer (6)
17. "Yn y ...", un o ganeuon Edward H. Dafis (3)
18. Canmol ar ôl llwyddiant (9)
20. Madda' i wr yn gwbl ddifywyd (7)
21. Yfed (5)
23. Deuddeg (5)
24. Adroddwr (7)

I LAWR

1. Ffordd, stryd mewn stad o dai (5)
2. Mae carreg werthfawr ym mag Emma (3)
3. Mag fawr yn gwneud lle i feithrin creaduriaid (7)
4. Yr un sŵn â sain (6)
5. Cyfarfod i leisio profiadau ac ati (5)
6. Sbîd (9)
7. Gŵyl diwedd blwyddyn (7)
11. Dichellgar (9)
13. Cytundeb (7)

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

- * Bysus o 12 i 53 sedd
- * Teithiau Lleol a Thramor
- * Gwaith Contract
- * Telerau arbennig i benswynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

15. Ochr lwyd sy'n achosi'r newid? (7)
16. Anghymwys (6)
18. Tywel (5)
19. Perthynas (5)
22. Hyd nes (3)

Un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th. Anfonwn eich cynigion at: Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug. Bydd £2 o wobwr i'r ateb cywir cyntaf i'w dynnu.

Parhad o'r dudalen flaen.

wisgo siaced achub o fath BS 3595.
- Neb o dan 16 oed i fod yn bennaf gyfrifol am ddingi.
- Dim rasmus a chystadlaethau heb

Mae Trefnydd
Hysbysebion Eco'r
Wyddfa yn chwilio
am rhywun i'w
helpu gyda'r
gwaith o gasglu
hysbysebion.

Cyfle rhagorol i
helpu'r papur bro,
dod i adnabod
gŵyr busnes y
cylch a dysgu'r
grefft o werthu.

Cysyllter â
John Roberts,
Trefnydd
Hysbysebion
Eco'r Wyddfa,
Bedw Gwynion,
Llanrug.
Ffôn: Caernarfon
5605

DYDDIADUR

2, Iau - WAUNFAWR - Clwb Gwryfai: sgwrs gan Mr Davies, Plas y Nant ar 'Hen Addurniadau'; Sefydliad y Merched.
LLANBERIS - Cymdeithas y Merched yn Nôl Peris am 7.30.
3, Gwener - LLANBERIS - Te yr henoed.
YR ARDAL - Clwb Eryri.
6, Llun - LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.
8, Mercher - BETHEL - Merched y Wawr.
10, Gwener - WAUNFAWR - Noson o 'Gawl a Chân' dan nawdd Pwyllgor y Ganolfan yn Neuadd yr Eglwys.
YR ARDAL - Ffug Eisteddfod Bro'r Eco yn Neuadd Ysgol Brynrefail.
13, Llun - LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.
14, Mawrth - LLANRUG - Merched y Wawr - sgwrs gan Dr Huw Roberts.
BETHEL - Clwb Bro Bethel.
17, Gwener - LLANBERIS - Te yr henoed.
Noson o 'Bingo a Lluniaeth' yng Ngwesty'r Gwynedd er budd y Clwb Methedig.
20 a 21 - Hanner tymor yr ysgolion.
20 a 27, Llun - LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

DYDDIADAU I'W COFIO

Mawrth 2 - Cinio Gŵyl Dewi Ysgol Feithrin Waunfawr yng Ngwesty'r Dingles.
Mawrth 10 - Eisteddfod Cylch yr Urdd.
Mawrth 16 - Eisteddfod Cwm y Glo.
Mawrth 24 - Eisteddfod Sir yr Urdd.

ganiatâd ysgrifenedig y perchnogion.

Gwyddom fod Mr Mike Petrovsky, Warden Canolfan Caint, Glyn Padarn eisoes wedi ymateb yn gryf i'r argymhellion ac i rai o'r rheolau arfaethedig ac mae wedi cysylltu â'r Awdurdod Dŵr.

Beth yw eich ymateb chi, ddefnyddwyr Llyn Padarn? Mae eich barn yn bwysig. Rhowch lais iddi.

CACEN

Wel, Beibl i ddechrau. Yna trowch i:

1. Llyfr Cynta'r Brenhinoedd, pennod 4, adnod 22.
Pedwar llond cwpan a hanner o hwn.
2. Llyfr y Barnwyr, pennod 5, yr ail gymal yn adnod 25.
Un llond cwpan.
3. Llyfr y Proffwyd Jeremeia, pennod 6, adnod 20.
Dau lond cwpan (mae hwn yn felys).
4. Llyfr Cyntaf Samuel, pennod 30, adnod 12.
Dau lond cwpan.
5. Llyfr Nahum, pennod 3, adnod 12.
Dau lond cwpan.
6. Llyfr Numeri, pennod 17, adnod 8.
Hanner llond cwpan.
7. Llyfr Cyntaf Samuel, pennod 14, adnod 25.
Llond llwy fwrdd ddwywaith.
8. Llyfr Lefiticus, pennod 2, adnod 13.
Un pinsiad yn unig.
9. Llyfr y Proffwyd Jeremeia eto, pennod 17, adnod 11.
Ar beth y mae petris yn eistedd a heb ddeor? Cofiwch chi, nid oes raid cael petrisen. Oes gennych chi gwy iâr? CHWECH o'r rheini.
10. Llyfr y Barnwyr, pennod 4, adnod 19.
Hanner llond cwpan.
11. Llyfr y Proffwyd Amos, pennod 4, adnod 5.
Llond llwy de ddwywaith.
12. Er mwyn rhoi mwy o fin ar y blas ychwaneger mymryn o'r hyn y cyfeirir atynt yn Ail Lyfr Cronicl - pennod 9, adnod 9.
Beth nesa? Dim ond gwneud y cyfan yn union fel y mae Llyfr y Diarhebion, pennod 23, adnod 14, yn ei gynghori wrth drin plentyn drwg.

COLEG PRIFYSGOL CYMRU ABERYSTWYTH

GRADDAU DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG I FYFYRWYR ALLANOL

Mae'r Coleg yn cynnig cynllun gradd BA Prifysgol Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg i fyfyrwyr allanol, a gwahoddir ceisiadau am le o fewn y cynllun yn Hydref 1984. Bydd myfyrwyr allanol yn dilyn cyrsiau yn y pynciau a ganlyn:

Rhan 1 - Tri phwnc o blidd **Addysg, Astudiaethau Crefydd, Cymraeg, Drama (Astudiaethau Theatr) Hanes Cymru, Llundaweg, Cerddoriaeth**

Rhan 2 Anrhydedd Sengl mewn **Cymraeg**

neu

Anrhydedd Cyfun mewn dau o'r canlynol:

Addysg, Cymraeg, Drama, Hanes Cymru

Cynigir cynhorthwy arbennig i fyfyrwyr allanol drwy ohebiaeth a chyswllt personol rheolaidd. Darperir nodiadau a chanllawiau manwl ar y cyrsiau, ynghyd â darlithiau ar gaset mewn rhai pynciau.

Astudir Rhan 1 dros 1-3 blwyddyn yn ôl dewis y myfyriwr. Bydd Rhan 2 yn estyn dros 4 blynedd fel arfer.

Gellir cael manylion am y cynllun a ffurflenni ymgeisio oddi wrth Hywel W. Jones, Uwch-Ysgrifennydd Cynorthwyol, Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Gwahoddir ceisiadau erbyn 10 Ebrill 1984.

CHWARAEON

“RHEDEG AM ARIAN”

Na, nid yr hen gŵyn fod proffesiynoldeb yn difetha pob math o chwaraeon, ond y tro hwn, sôn am agwedd y rhedwyr sy'n rhedeg i gasglu arian i eraill. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf mae mudiadau elusennol wedi sylweddoli fod arian i'w gael o noddwyr a'u cyfeillion sy'n fodlon rhedeg mewn gwahanol rاسus ledled y wlad. Mae'n anodd iawn cael ffigurau cywir ynglŷn â faint o arian a gasglwyd gan wahanol elusennau, oherwydd mae dulliau'r gwahanol elusennau'n amrywio – gan ddibynnu'n aml ar drefniant a threfnwyr y rاسus.

Dyma restr o'r deg cymdeithas elusennol a wnaeth fwyaf o arian o redeg neu rاسus yn ystod 1983:

1. Muscular Dystrophy Group – £121,770; 2. British Heart Foundation – £109,500; 3. Imperial Cancer Research Fund – £90,450; 4. MENCAP – 40,000; 5. Multiple Sclerosis – £26,000; 6. Leukaemia Research Fund – £25,200; 7. Cancer Research Campaign – £25,000; 8. Cystic Fibrosis – £17,600; 9. Arthritis and Rheumatism Council – £12,000; 10. The Children's Society – £10,000.

Yn aml iawn mae papurau neu gylchgronau cenedlaethol yn rhoi hysbysrwydd rhad ac am ddim ac yn noddï rhai o'r elusennau. Er enghraifft, cefnogwyd y 'Muscular Dystrophy Group' gan y 'Daily Mirror' yn 1983, gan 'gasglu' mil o redwyr i'w cynrychioli ym Marathon Llundain. Roedd yr arian a gasglwyd drwy noddï'r mil rhedwyr hyn yn cynrychioli wyth y cant o holl arian y 'Muscular Dystrophy Group' yn 1983, cyfanswm anhygoel mewn UN digwyddiad yn unig.

Mae llawer o'r mudiadau elusennol hyn bellach yn hysbysebu am 'redwyr' yn y gwahanol gylchgronau rhedeg. Er enghraifft, mae'r 'Arthritis and Rheumatism Council' yn amcangyfrif iddynt dderbyn £12,000 o bob rhan o'r byd o ganlyniad i 800 o redwyr a wnaeth ymateb i hysbyseb o'r fath ganddynt. Ond roedd eu cyfarwyddwr yr un mor ddiolchgar am y sylw a gâi'r elusen gan wahanol redwyr yn rhedeg yn eu lliwiau neu'n arddangos eu henw ar eu crysau rhedeg.

Pa fathau o elusennau sy'n elwa fwyaf o'r noddwyr? Mae'n ymddangos eu bod yn ffitio i un o dri grŵp:

1. Elusennau ym Mhrydain yn hytrach na rhai rhyng-genedlaethol.
2. Elusennau yn ymwneud â helpu plant.
3. Elusennau sy'n casglu arian tuag at offer neu waith ymchwil yn ymwneud â gwella gwahanol afiechydon.

Ond mae elusennau eraill yn ceisio ennill eu lle yn y "farchnad". Un o'r rhai sy'n gwneud ymgais arbennig yn 1984 yw 'Greenpeace' sy'n ymdrechu dros gadwraeth yr amgylchedd drwy'r byd: e.e. gwrthwynebu lladd morloi; ymdrechu'n erbyn gwastraff niwcliar.

Y drefn yn aml erbyn hyn yw i drefnwyr y ras gyd-weithio ag elusen o'u dewis i hysbysebu a threfnu'r ras, ac i'r arian gael ei rannu rhyngddynt. Dyna fu'r drefn ym Marathon Glannau Merswy a gynhaliwyd y mis Medi diwethaf, ac a gasglodd dros £90,000 i brynu

offer arbennig i Ysbyty Plant Alder Hey yn Lerpwl.

A beth am yr unigolion sy'n casglu noddwyr yn y rاسus hyn? Yr unigolyn sydd ymhell ar y blaen i bob un arall yw Jimmy Saville, sy'n sôn am filiynau o bunnoedd bob tro yn hytrach na miloedd. Casglodd £10,000 ym Marathon Llundain yn unig y llynedd. Ym mis Awst y llynedd, agorwyd Canolfan Anafiadau i'r Asgwrn Cefn yn Ysbyty Stoke Mandeville. Fe'i hadeiladwyd mewn 20 mis ar gost o £10 miliwn, a daeth llawer o'r arian o ymdrechion Jimmy Saville mewn gwahanol rاسus ledled y wlad.

Mae'n debyg mai'r hyn a ddaliodd sylw'r cyhoedd y llynedd oedd ymdrech anhygoel y ddau frawd, Richard ac Adrian Crane i redeg ar draws mynyddoedd yr Himalaya, pellter o 2,100 o filltiroedd. Fe'u noddwyd i godi arian i'r 'Intermediate Technology Development Group'; teitl cymhleth sydd â bwriadau syml – prynu offer i gynorthwyo pobl yn y gwledydd sy'n datblygu. Hyd yn hyn, mae ymdrech y brodyr wedi dod â £42,000 i goffrau'r I.T.D.G.

Grŵp arall sy'n rhedeg er budd eraill yw 'World Runners' sy'n casglu arian i Brosiect Newyn. Yn 1983 casglwyd arian i ddau brosiect yn y Gambia a Sri Lanka gan eu 600 o aelodau ym Mhrydain. Un o'r rhai sy'n aelodau o 'World Runners' yw John Denver, y canwr gwlad poblogaidd.

Enghraifft dda o'r hyn y gellir ei wneud i helpu mudiad lleol wrth redeg yw'r hyn a wnaeth rhai o drigolion pentref bychan Brockenhurst, Swydd Hampshire y llynedd. Roedd rhent eu neuadd bentref i godi o £500 y flwyddyn i £2,000. Felly, penderfynwyd prynu'r les. Rhedodd rhai o'r trigolion ym Marathon Llundain gan gasglu dros £34,000. Roedd arian yn weddill ganddynt ar ôl prynu'r les, ac adeiladwyd cae chwarae i ieuencid y pentref, prynu ebol i blant dan anfantais a sefydlu clwb ieuchyd i rai dros 50 oed. Trosglwyddwyd y les i ofal yr ysgol gynrad leol, felly maent hwythau'n well allan o £500 y flwyddyn o rent y neuadd bentref.

Dyma'r math o ymdrechion lleol a chenedlaethol sy'n codi arian yn flynyddol i wahanol elusennau. Ac y mae'n digwydd ar raddfa llai ym mro'r Eco hefyd. Byddai'n ddiddorol cael gwybod sawl rhedwr lleol sydd wedi ei noddï i redeg dros wahanol fudiadau – boed lleol neu genedlaethol. Efallai ar ddiwedd y flwyddyn y gallai'r Eco gyhoeddi 'deg uchaf' yr ardal hon.

TÎM LLANRUG – 1946-1947?



Derbyniwyd y llun uchod gan M. Jones, 54 Bro Rhuddallt, Llanrug. Mae'n ymddangos mai llun o dîm pêl-droed Llanrug tua 1946-47 ydyw, ond anodd iawn penderfynu ymhle y tynnwyd y llun. Oes rhywun o'r darllenwyr â gwybodaeth ynglŷn â'r llun neu'r chwaraewyr?

APÊL AR RAN Y MUDIAD

Yn anffodus, ychydig iawn o ymateb a gafwyd i Apêl am gymorth ariannol a lansiwyd gan y Mudiad Ysgolion Meithrin y llynedd. I'n hatgoffa, dyma rai ffeithiau am y Mudiad:

1. Nod amlwg y Mudiad Ysgolion Meithrin yw ceisio sicrhau addysg feithrin Gymraeg i blant Cymru.
2. Gwasanaethir y Mudiad gan nifer fawr o wirfoddolwyr sy'n pryderu am addysg feithrin i'r Cymry ac am yr iaith.
3. Rhan yn unig o gost cynnal y Mudiad yw grantiau'r Swyddfa Gymreig – mae angen llawer mwy o gyllid.

Mae cyfle i chwi osod y Mudiad ar seiliau cadarnach drwy ymaelodi; neu gyfamodi a chyfrannu at y Gronfa. Os ydych am gyfrannu yna llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd at:

J. Bryan Jones

Cyfarwyddwr Mudiad Ysgolion Meithrin

10 Park Grove

Caerdydd

Marciwch eich bwriad gyda ☒ Aelod (£6, neu ragor y flwyddyn) ☐
Byddwch cystal ag anfon ☐ Aelod teulu (£7.50 neu ragor y flwyddyn) ☐
ffurflen gyfamodi ataf ☐ Aelod Oes (£150 neu ragor) ☐

Enw

Cyfeiriad

CYMRODYR AMGUEDDFA DIWYDIANT A MÔR CYMRU

Ym 1977 agorwyd Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru ar safle hanesyddol bwysig yng nghanol dociau Caerdydd. Prif bwrpas yr Amgueddfa yw ceisio olrhain hanes diwydiant a morwriaeth yng Nghymru dros y canrifoedd i'r dydd presennol. Yr hyn ydyw Amgueddfa Werin Cymru i gymdeithasau gwledig y mae'r Amgueddfa yn ardal y dociau i'r Gymru ddiwydiannol. Ers ei sefydlu mae yr amgueddfa wedi tyfu yn gyflym ac mae cynlluniau ar y gweill i ddyblu maint yr arddangosfeydd.

Rhan o Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru yw'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis ac yma, yn hen weithdai Chwael Dinorwig, mae amgueddfa fyw yn datblygu. Heblaw arddangosfeydd o hen beiriannau'r diwydiant llechi ac o ddarluniau o chwaelwyr, mae nifer o grefftwy, yn ofaint ac yn naddwyr llechi yn arddangos eu medrusrwydd. Mae cynlluniau i ymestyn y gweithgarwch yn Llanberis a'r nod yw i greu sefydliad a fydd yn gogfologf i'r cenedlaethau

o weithwyr chwael a gyfrannodd gymaint i'n diwylliant fel cenedl.

Yn ddiweddar ffurfiwyd cymdeithas newydd o Gyfeillion Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru ac mae croeso i unrhyw un sy'n cymryd diddordeb yn y rhan yma o'n treftadaeth ymuno â'r Gymdeithas. Bydd yr aelodau yn derbyn gwahoddiad i bob arddangosfa, darlithiau a pherfformiadau o fewn yr Amgueddfa a'i changhennau; yn derbyn Papur Newyddion yr Amgueddfa yn rhad ac am ddim ac yn medru prynu holl gyhoeddiadau'r sefydliad am bris isel.

Gall unrhyw un sy'n cymryd diddordeb yn nhraddodiadau'r môr ac hanes diwydiant yng Nghymru ddod yn gymrawd am dâl blyneddol o £5 i unigolyn, £7.50 i deulu a £50 i gwmni masnachol. Os am fanylion pellach ysgrifennwch at Ysgrifennydd y Cymrodyr Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru, (Mr Brian Jones), Stryd Bute, Caerdydd, CF1 6AN.